WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

31 Ionawr 2008
www.wao.gov.uk

# Cyngor Celfyddydau Cymru - Cefnogi Prosiectau Cyfalaf Mawr



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a 2006.

Roedd tîm Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i baratoi'r adroddiad hwn yn cynnwys Gillian Body, Nathan Barnhouse, David Hole, Mark Jeffs, David Metcalfe, Huw Rees, John Robinson and James Verity.

**Jeremy Colman**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**2-4 Park Grove**
**Caerdydd**
**CF10 3PA**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth. Mae'n archwilio ac yn gwirio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth y Cynulliad a chyrff cyhoeddus a noddir gan, neu sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Hefyd, mae ganddo'r hawl statudol i wneud adroddiad ar gynildeb, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y cyrff hynny ac i wella'u defnydd o adnoddau wrth gyflawni'u dyletswyddau.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal a hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn archwilio cydymffurfiaeth â gofynion gwerth gorau dan Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Fodd bynnag, er mwyn diogelu safle cyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'r adrodd yn ôl yn benodol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y gwaith llywodraeth leol hwn, ar wahan i phan y mae'n ofynnol i wneud hynny gan ddeddf.

Yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am fwy o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, byddwch cystal ag ysgrifennu at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 029 2026 0260, e-bost: wales@wao.gov.uk, neu gwelwch ein gwefan http://www.wao.gov.uk

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2008

Gellir ail-ddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (gan eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat. Mae'n rhaid ei ail-ddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a dylid nodi teitl y cyhoeddiad hwn.

Lle rydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, mae'n rhaid sicrhau caniatâd y rheini sydd a'r hawlfraint cyn ei ail-ddefnyddio.

# Adroddiad a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 31 Ionawr 2008



*Galeri Caernarfon*
*Ffynhonnell: Cyngor Celfyddydau Cymru/Robert Williams*

# Cynnwys


Crynodeb 5

Argymhellion 12

1 Mae'r modd y mae Cyngor y Celfyddydau yn dethol prosiectau mawr ar gyfer ei raglen gyfalaf wedi'i seilio ar strategaeth ac mae ar sylfaen gadarn 14

Mae Cyngor y Celfyddydau yn cyflawni amcanion ei raglen gyfalaf yn raddol, ond dylai gydweithredu'n well â phartneriaid sy'n ariannu prosiectau 14

Mae Cyngor y Celfyddydau yn defnyddio prosesau cadarn i asesu rhinweddau prosiectau cyfalaf mawr 27

2 Mae gwariant Cyngor y Celfyddydau ar brosiectau mawr yn ei raglen gyfalaf yn cael ei ddiogelu'n ddigonol 33

Mae gwariant Cyngor y Celfyddydau ar brosiectau cyfalaf mawr wedi'i seilio ar reoli risgiau 33

Mae Cyngor y Celfyddydau yn cymryd camau digonol i reoli ac amddiffyn rhag y graddau y mae'n agored i risgiau ariannol ar brosiectau cyfalaf mawr 46

Atodiadau 56

Atodiad 1 - Y prif ddulliau astudio 56

Atodiad 2 - Crynodeb o 15 prosiect cyfalaf mawr a archwiliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru 57

Atodiad 3 - Y camau a gymerodd Cyngor y Celfyddydau mewn cysylltiad ag argymhellion y Pwyllgor Archwilio ynghylch gweithdrefnau i reoli prosiectau cyfalaf a ariannwyd gan y Loteri ar ôl methiant prosiect Canolfan Celfyddydau Gweledol Caerdydd 60



# Crynodeb

1 Yn 2002, cyhoeddwyd adroddiad gan Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad Cenedlaethol) am y rhan a fu gan Gyngor Celfyddydau Cymru (Cyngor y Celfyddydau) ym mhrosiect aflwyddiannus Canolfan y Celfyddydau Gweledol[1], yn dilyn adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol)[2]. Argymhellodd y Pwyllgor Archwilio y dylai'r Archwilydd Cyffredinol ymgymryd â gwaith pellach i wirio effeithiolrwydd a digonolrwydd y gweithdrefnau diwygiedig ar gyfer cefnogi prosiectau cyfalaf a gyflwynwyd gan Gyngor y Celfyddydau rhwng 1999 a 2002. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau'r archwiliad dilynol hwnnw.

2 Mae Cyngor y Celfyddydau yn rheoli rhaglen dreigl bum mlynedd o wariant cyfalaf a ariennir gan y Loteri. Dros yr wyth mlynedd, rhwng 1999-2000 a 2006-2007, mae Cyngor y Celfyddydau wedi dyfarnu gwerth oddeutu £61 miliwn o grantiau cyfalaf, y rhoddwyd gwerth £39 miliwn ohonynt tuag at brosiectau cyfalaf mawr (sydd wedi'u diffinio i ddibenion yr adroddiad hwn yn brosiectau y rhoddwyd iddynt grantiau cyfalaf o £50,000 neu fwy). Y bwriad yng Nghynllun Gwariant Cyfalaf diweddaraf Cyngor y Celfyddydau ar gyfer y pum mlynedd rhwng 2007-2008 a 2011-2012 yw rhoi ychydig llai nag £16 filiwn, bron y cwbl ohono at brosiectau mawr i godi, adnewyddu ac uwchraddio adeiladau.

3 Wrth reoli ei raglen gyfalaf, rhaid i Gyngor y Celfyddydau ddelio ag amryw o randdeiliaid, partneriaid a chleientiaid. Mae hyn yn creu nifer o heriau i Gyngor y Celfyddydau oherwydd:

- mae Cyngor y Celfyddydau yn cydariannu prosiectau mawr ar gyfer adnewyddu ac uwchraddio adeiladau gyda chyrff eraill ac mae gan bob partner ariannu ei amcanion a'i flaenoriaethau ei hun, yn ogystal ag amserlenni, gweithdrefnau a chyfyngiadau cyllidebol ar gyfer darparu cyllid cyfalaf;

- mae Cyngor y Celfyddydau yn dibynnu ar gyrff celfyddydol a chyrff eraill (ee, awdurdodau lleol) i gyflenwi'r prosiectau hynny y mae'n eu hariannu; ac mae'r gallu sydd gan y cyrff hyn i reoli'r gwaith o ddylunio, datblygu, adeiladu a rhedeg cyfleusterau celfyddydol sylweddol yn amrywio;

- mae risg hanfodol mewn prosiectau cyfalaf mawr i gyrff sy'n derbyn grant wrth iddynt gael eu cyflenwi, ac wrth eu rhedeg fel cyfleusterau dichonadwy ar gyfer gweithgarwch celfyddydol yn y tymor hwy; ac

- ar ôl cwblhau prosiect cyfalaf mawr, bydd y corff sy'n rhedeg y cyfleuster yn aml yn wynebu costau rhedeg uwch, ac mae goblygiadau ariannol posibl yn hynny i Gyngor y Celfyddydau os yw'n darparu grantiau refeniw i'r corff hwnnw.

1 Cyngor Celfyddydau Cymru: Canolfan y Celfyddydau Gweledol, Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Adroddiad 05-02, Mehefin 2002

2 Cyngor Celfyddydau Cymru: Canolfan y Celfyddydau Gweledol, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2001

4 Yng ngolwg yr heriau hyn, gwnaethom archwiliad i ganfod a yw Cyngor y Celfyddydau yn effeithiol wrth reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chefnogi prosiectau celfyddydol mawr drwy ei raglen grantiau cyfalaf a gweithgareddau cefnogi cysylltiedig. Rhoesom y prif sylw yn ein harchwiliad i brosiectau mawr ar gyfer codi ac adnewyddu adeiladau, ac ni wnaethom adolygiad manwl o brosiectau sy'n ymwneud â grantiau i brynu cyfarpar neu i osod gweithiau celfyddyd cyhoeddus. Yn benodol, roeddem wedi ystyried yn ein harchwiliad:

- a oes gan Gyngor y Celfyddydau drefniadau cadarn ar gyfer dethol prosiectau mawr ar gyfer ei raglen gyfalaf (Rhan 1); ac
- a yw Cyngor y Celfyddydau yn diogelu'n ddigonol ei wariant ar brosiectau mawr yn ei raglen gyfalaf (Rhan 2).

5 Daethom i'r casgliad bod Cyngor y Celfyddydau wedi dysgu'r gwersi o brosiectau cynnar a oedd wedi'u hariannu gan y Loteri a bod prosesau da ar waith ganddo at ei gilydd ar gyfer rheoli ei raglen gyfalaf er mwyn delio â'r prif risgiau sy'n gysylltiedig â dethol ac ariannu prosiectau mawr ar gyfer codi ac adnewyddu. O ganlyniad i'n harchwiliad, rydym yn gwneud nifer o argymhellion ar bartneriaethau ariannu, rheoli risg a'r gwersi a ddysgwyd, er mwyn peri i arferion a gweithdrefnau presennol Cyngor y Celfyddydau fod yn fwy effeithiol a digonol (paragraff 24).

# Mae'r modd y mae Cyngor y Celfyddydau yn dethol prosiectau mawr ar gyfer ei raglen gyfalaf wedi'i seilio ar strategaeth ac mae ar sylfaen gadarn

## Mae Cyngor y Celfyddydau yn cyflawni amcanion ei raglen gyfalaf yn raddol, ond dylai gydweithredu'n well â phartneriaid sy'n ariannu prosiectau

6 **Mae gan Gyngor y Celfyddydau amcanion a blaenoriaethau strategol ar gyfer ei raglen gyfalaf sy'n adlewyrchu agenda strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru.** Mae Cyngor y Celfyddydau yn gweithredu o fewn fframwaith polisi ac adnoddau cyffredinol sydd wedi'i benderfynu gan Lywodraeth y Cynulliad, er bod ei raglen gyfalaf wedi'i hariannu drwy'r ffrwd incwm y mae'n ei gael o'r Loteri. Mae blaenoriaethau strategol Cyngor y Celfyddydau ar gyfer buddsoddi cyfalaf yn gyson ag agenda strategol ei brif noddwr, Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth y Cynulliad). Prif amcan rhaglen gyfalaf Cyngor y Celfyddydau yw rhoi cymorth i adeiladu, adnewyddu a gwella cyfleusterau celfyddydol ledled Cymru. Mae prif flaenoriaeth y rhaglen gyfalaf wedi datblygu o fod yn un sydd â'i phwyslais pennaf ar lenwi bylchau daearyddol yn y ddarpariaeth o gyfleusterau celfyddydol ledled Cymru i fod yn un sy'n ymwneud yn bennaf â gwella ac uwchraddio cyfleusterau yn y lleoliadau presennol.



7 **Mae Cyngor y Celfyddydau wedi gwneud cynnydd cyson tuag at gyflawni amcanion ei raglen gyfalaf ers 1999.** Rhwng Ebrill 1999 a Mawrth 2007, mae Cyngor y Celfyddydau wedi rhoi £61 miliwn ar ffurf grantiau dan ei raglen gyfalaf ac, o'r rhain, roedd mwy na £39 miliwn (64 y cant) ar ffurf grantiau cyfalaf mawr (ar gyfer £50,000 neu fwy) i gefnogi 49 o brosiectau mawr ar gyfer codi, adnewyddu neu uwchraddio adeiladau. Cefnogwyd amryw o brosiectau gan gynnwys gweithdai i artistiaid a chanolfannau crefftau yn ogystal â chanolfannau perfformio mawr ledled Cymru ac, yn eu plith, canolfannau allweddol yng Nghasnewydd a Chaernarfon. Er bod prosiectau sylweddol pwysig yn Wrecsam a Merthyr Tudful heb fynd ymlaen fel y bwriadwyd yn wreiddiol, mae Cyngor y Celfyddydau, ar y cyd â phartneriaid a chleientiaid, yn dal i gefnogi camau i ddatblygu cynlluniau newydd ar gyfer cyfleusterau celfyddydol yn y lleoliadau hyn.

8 **Mae Cyngor y Celfyddydau yn dibynnu ar ei gleientiaid i ddatblygu a chwblhau eu prosiectau'n llwyddiannus.** Ymhlith cleientiaid rhaglen gyfalaf Cyngor y Celfyddydau y mae cyrff celfyddydol, cyrff cymunedol a gwirfoddol, ac awdurdodau lleol. Mae Cyngor y Celfyddydau yn dibynnu ar allu'r cyrff hyn i sicrhau cyllid partneriaeth o ffynonellau eraill, er mwyn caffael a rheoli'r gwaith o ddylunio, datblygu ac adeiladu prosiectau, ac i barhau â gweithgarwch celfyddydol wedi i gyfleusterau ddod yn weithredol. Ar 31 Mawrth 2007, o blith y 49 o brosiectau adeiladu y rhoddwyd grantiau cyfalaf mawr ar eu cyfer rhwng Ebrill 1999 a Mawrth 2007, roedd naw yn dal i gael eu datblygu neu eu hadeiladu a rhoddwyd y gorau i ddau ohonynt.

9 **Mae Cyngor y Celfyddydau a'i gleientiaid yn dibynnu ar bartneriaid ariannu eraill i gyfrannu at brosiectau mawr yn y rhaglen gyfalaf.** Mae Cyngor y Celfyddydau yn cydariannu prosiectau cyfalaf gyda phartneriaid fel Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) gynt ac awdurdodau lleol. Mae gan bob corff ariannu ei amcanion a'i flaenoriaethau ei hun a chyfyngiadau cyllidebol a gweithdrefnau gweinyddol mewn cysylltiad ag ariannu prosiectau cyfalaf. Mae gallu Cyngor y Celfyddydau i gyflawni amcanion ei raglen gyfalaf yn dibynnu'n rhannol ar weithredoedd a phenderfyniadau ei bartneriaid ariannu, ac mae hyn yn cynnig heriau o ran cydgysylltu a chyfathrebu i Gyngor y Celfyddydau a'i gleientiaid. Rhai o'r ffactorau llwyddiant allweddol ar gyfer cydweithio effeithiol rhwng partneriaid ariannu yw parodrwydd partneriaid ariannu i gydgyfeirio pecynnau cyllid, i gyfathrebu'n agored ac yn amserol, ac i ymwneud â helpu prosiectau i lwyddo ac i ddelio ag anawsterau sy'n codi.

10 **Byddai defnydd ehangach o gytundebau strategol gyda'r holl bartneriaid ariannu allweddol yn gymorth i wella'r cydweithredu a'r cydgysylltu wrth roi prosiectau cyfalaf ar waith.** Mae Cyngor y Celfyddydau wedi gwneud cytundeb partneriaeth strategol gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel fframwaith ar gyfer gweithio ar y cyd ac eirioli dros y celfyddydau yng Nghymru, ac mae cynrychiolwyr i bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ar ei dri phwyllgor rhanbarthol. Bu cytundebau strategol rhwng Cyngor y Celfyddydau a phartneriaid ariannu mawr eraill ar gyfer datblygu sectorau celfyddydol penodol, ond ni fu ganddo unrhyw fath o gytundeb cyffredinol ar gyfer

cydweithredu strategol gyda phartneriaid fel Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, y WDA gynt neu'r hen Fwrdd Croeso Cymru, y tri ohonynt bellach yn rhan o Lywodraeth y Cynulliad. Oherwydd diffyg cytundebau o'r fath, mae'r cydgysylltu gweithredol a'r gweithio ar y cyd ar brosiectau penodol yn digwydd yn ôl y galw yn hytrach nag fel rhan o fframwaith a gytunwyd. Derbynnir bod lle i wella yn y cydweithredu rhwng y partneriaid ariannu 'canolog' hyn ac awydd ymysg swyddogion i greu cysylltiadau gweithredol agosach, er budd i bob ochr ac i gyrff sy'n gleientiaid iddynt. Byddai'n fuddiol i Gyngor y Celfyddydau gyflawni rôl arweiniol sydd wedi'i dynodi a'i chytuno'n fwy ffurfiol wrth hybu'r gwaith o ddatblygu a gweithredu prosiectau sy'n ymwneud yn bennaf â'r celfyddydau.

## Mae Cyngor y Celfyddydau yn defnyddio prosesau cadarn i asesu rhinweddau prosiectau cyfalaf mawr

11 **Mae gan Gyngor y Celfyddydau brosesau sefydledig i asesu cynigion ar gyfer prosiectau mawr sydd ar gael yn rhwydd i ymgeiswyr ac sy'n eglur iddynt.** Wrth asesu cynigion ar gyfer prosiectau mawr, mae Cyngor y Celfyddydau yn ystyried rhinweddau cynigion ar gyfer prosiectau yn ogystal â'u hyfywedd. Mae'n defnyddio arbenigedd a gwybodaeth ym mhob rhan o'r corff wrth ystyried cynigion ar gyfer prosiectau penodol, ac yn cael gwasanaeth cynghorwyr proffesiynol allanol os yw hynny'n briodol. Mae Cyngor y Celfyddydau yn rhoi arweiniad clir a chryno i ymgeiswyr am gyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf sy'n nodi amcanion a blaenoriaethau ei raglen gyfalaf, pwrpas ei grantiau cyfalaf, y mathau o grant sydd ar gael a'i feini prawf ar gyfer asesu prosiectau. Roedd y cyrff yr ymwelsom â hwy'n deall gweithdrefnau Cyngor y Celfyddydau ar gyfer ymgeisio am grantiau cyfalaf.

12 **Mae Cyngor y Celfyddydau yn asesu rhinweddau cynigion ar gyfer prosiectau mewn modd systematig a chyson, gan ystyried eu pwysigrwydd strategol, eu budd o ran gweithgarwch celfyddydol a'u hansawdd pensaernïol.** Mae meini prawf Cyngor y Celfyddydau ar gyfer asesu rhinweddau cynigion ar gyfer prosiectau'n cynnwys eu cyfraniad at gyflawni amcanion strategol Cyngor y Celfyddydau, y buddion a geir ohonynt o ran ansawdd y gweithgarwch celfyddydol a chyfranogi, ac ansawdd eu gwaith dylunio ac adeiladu. Cawsom fod Cyngor y Celfyddydau yn cymhwyso ei feini prawf asesu mewn modd cyson ar gyfer gwahanol brosiectau ac yn cofnodi'n systematig sut y cymhwyswyd ei feini prawf. Cawsom hefyd fod Pwyllgor Cyfalaf Cyngor y Celfyddydau yn delio mewn modd cyson â cheisiadau am grantiau cyfalaf mawr, ac yn adolygu ac yn herio'r asesiadau a wnaed gan swyddogion Cyngor y Celfyddydau a chynghorwyr proffesiynol allanol. Er bod Cyngor y Celfyddydau wedi datblygu ei feini prawf asesu dros lawer o flynyddoedd ac yn dal i'w mireinio, mae lle i ddatblygu ymhellach y modd y mae Cyngor y Celfyddydau yn eu defnyddio a hynny, yn benodol, i wahaniaethu'n gliriach rhwng materion sy'n ymwneud ag 'ansawdd' a 'hyfywedd' wrth ffurfio asesiad cyffredinol o gynigion ar gyfer prosiectau.

13 **Yng ngoleuni ei brofiad, mae Cyngor y Celfyddydau wedi newid rhai o bolisïau a phrosesau'r rhaglen i wella effeithiolrwydd.** Mae Cyngor y Celfyddydau wedi cymryd camau, mewn ymateb i'w broses ffurfiol o fonitro prosiectau cyfalaf, i fireinio rhai o bolisïau a gweithdrefnau'r rhaglen. Mae wedi cwtogi ar ei fuddsoddiad mewn meysydd sy'n gyfyngedig o ran eu heffaith a'u heffeithiolrwydd yng nghyd-destun gweithgarwch celfyddydol (fel canolfannau



aml-ddefnydd) ac wedi hybu ei waith mewn meysydd blaenoriaethol eraill (fel denu ceisiadau o ansawdd da am brosiectau celfyddyd gyhoeddus).

## Mae gwariant Cyngor y Celfyddydau ar brosiectau mawr yn ei raglen gyfalaf yn cael ei ddiogelu'n ddigonol

### Mae gwariant Cyngor y Celfyddydau ar brosiectau cyfalaf mawr wedi'i seilio ar reoli risgiau

14 **Mae Cyngor y Celfyddydau yn trefnu ei raglen gyfalaf yng nghyd-destun incwm newidiol ac ansicr o'r Loteri.** Bu maint yr arian a oedd ar gael o'r Loteri i ariannu rhaglen gyfalaf Cyngor y Celfyddydau yn newidiol ac mae'n dal yn ansicr oherwydd amrywiadau naturiol yn lefel yr incwm y mae'r Loteri yn ei greu ar gyfer achosion da. Rhwng 1999-2000 a 2006-2007, roedd cyllideb gyfalaf Cyngor y Celfyddydau tua £7 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd. Dros yr un cyfnod, roedd y galw gan gyrff celfyddydol a chleientiaid eraill am gyllid cyfalaf Cyngor y Celfyddydau yn fwy na £13 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd, sef tua 86 y cant yn fwy na chyllideb Cyngor y Celfyddydau. Mae Cyngor y Celfyddydau yn trefnu ei raglen gyfalaf gyffredinol drwy roi blaenoriaeth i wariant ar brosiectau sy'n gweddu orau i'w agenda strategol a thrwy ganolbwyntio ar gyrff sy'n ymgeisio sydd â record brofedig o ran rhedeg cyfleusterau celfyddydol yn llwyddiannus. Mae Cyngor y Celfyddydau yn rheoli ei wariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn drwy fonitro prosiectau'n fanwl, drwy gadw prosiectau wrth gefn a thrwy roi cymorth i ddatblygu cynigion newydd. Mae hefyd yn ailgylchu arian o fewn rhaglen y Loteri, gan ailddyrannu symiau o brosiectau sy'n methu â mynd ymlaen a symiau a adferwyd oddi wrth gyrff sy'n methu â chydymffurfio ag amodau grant.

15 **Mae Cyngor y Celfyddydau yn mabwysiadu dull graddol a chefnogol o ariannu prosiectau cyfalaf mawr.** Mae'r broses o ddatblygu a gweithredu prosiectau cyfalaf mawr yn gallu cymryd llawer o flynyddoedd. Er mwyn rheoli risgiau sy'n ymwneud ag ansicrwydd ynghylch ei ymrwymiadau ariannol, mae Cyngor y Celfyddydau yn mabwysiadu proses raddol ar gyfer ariannu gwaith i ddatblygu ac adeiladu neu wella cyfleusterau celfyddydol. Mae hyn yn cynnwys cofrestru prosiectau'n gynnar yn achos ceisiadau am grantiau o fwy na £50,000 a phroses dri cham o ariannu gwaith datblygu ac adeiladu gan brosiectau yn achos ceisiadau am grantiau o fwy na £100,000, lle bydd ymgeiswyr yn datblygu eu cynigion yn raddol yn ôl safonau sefydledig Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA). Mae Cyngor y Celfyddydau hefyd yn rhoi cyngor a mathau eraill o gymorth, yn ôl yr angen, yn ystod y cyfnod o ddatblygu a gweithredu prosiectau. Mae hyn yn helpu Cyngor y Celfyddydau i ganfod meysydd risg penodol mewn cysylltiad â phrosiectau. Mae hefyd yn dod â mantais i ymgeiswyr am grantiau drwy wella eu cynigion am brosiectau o ran eu cadernid a'u hymarferoldeb.

16 **Mae Cyngor y Celfyddydau yn asesu hyfywedd cynigion ar gyfer prosiectau'n drwyadl, gan ystyried sefyllfa ariannol a gallu trefniadol ymgeiswyr am grantiau.** Mae meini prawf Cyngor y Celfyddydau ar gyfer asesu hyfywedd cynigion ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr yn cynnwys iechyd a sefydlogrwydd ariannol yr ymgeiswyr a chadernid cynlluniau busnes, cynlluniau costau prosiect a chynlluniau marchnata. Mae Cyngor y Celfyddydau hefyd yn asesu gallu trefniadol yr ymgeiswyr i reoli eu prosiectau cyfalaf a chyflawni eu rhaglenni celfyddydol ar ôl cwblhau'r prosiect, ac yn cynnig cymorth ychwanegol, drwy ariannu gwasanaethau proffesiynol neu feithrin gallu, os oes angen. Mae Cyngor y Celfyddydau yn defnyddio cynghorwyr proffesiynol allanol i asesu materion allweddol, fel y cynlluniau busnes sydd gan gyrff a chynlluniau costau ar gyfer prosiectau penodol. Mae'n rhannu ei asesiadau gydag ymgeiswyr am grantiau, a gellir addasu prosiectau o ganlyniad i hynny, fel y ceir modd mwy hwylus i'w hariannu a'u cwblhau'n llwyddiannus.

17 **Mae Cyngor y Celfyddydau yn asesu risgiau prosiectau, ar sail asesiadau risg a wnaed gan ymgeiswyr am grantiau.** Mae'r wybodaeth a ddarperir gan gyrff sy'n ymgeisio'n cynnwys dadansoddiadau ffurfiol o risgiau cyfalaf a refeniw, a chofrestr risgiau ar gyfer cyfnod adeiladu prosiectau cyfalaf mawr. Mae Cyngor y Celfyddydau hefyd yn asesu'r rhagdybiaethau sylfaenol yng nghynlluniau busnes yr ymgeiswyr, gan ystyried pa mor gadarn yw cynlluniau wrth gefn yr ymgeisydd ar gyfer delio â risgiau sy'n gysylltiedig â chyllid, gallu a chyflawni. Mae Cyngor y Celfyddydau yn defnyddio'r wybodaeth a'r dadansoddiadau a geir i asesu risgiau cyffredinol pob prosiect. Mewn achosion eithriadol, os yw asesiad yn amlygu pryderon sylfaenol neu faterion sy'n newydd neu'n ddadleuol, gall Cyngor y Celfyddydau hefyd wneud dadansoddiad sensitifrwydd manylach o ragdybiaethau'r cynnig ar gyfer prosiect. Mae Cyngor y Celfyddydau yn rheoli'r effaith debygol a gwirioneddol o gostau rhedeg prosiectau cyfalaf o ddydd i ddydd, yng nghyd-destun ehangach agenda strategol Llywodraeth y Cynulliad er mwyn sicrhau bod theatrau a mannau perfformio sydd wedi'u gwella a'u cyfarparu drwy ddefnyddio cyllid y Loteri yn meddu ar ddigon o refeniw fel y gellir defnyddio'r asedau hyn yn llawn.

18 **Mae Cyngor y Celfyddydau yn datblygu ei ddull o asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen gyfalaf a phrosiectau penodol.** Mae system rheoli mewnol gyffredinol Cyngor y Celfyddydau yn cynnwys prosesau rheoli risg ac mae ei gofrestr risgiau gorfforaethol yn cynnwys nifer o risgiau lefel uchel sy'n ymwneud â rheoli cyllid cyfalaf y Loteri. Er hynny, ar adeg ein harchwiliad, nid oedd Cyngor y Celfyddydau wedi asesu'n ffurfiol y risgiau ariannol a gweithredol manwl sy'n deillio o'r gwaith o reoli ei raglen gyfalaf o ddydd i ddydd. Mae Cyngor y Celfyddydau yn awr yn datblygu ei ddull o ganfod ac asesu risgiau ar lefel y rhaglen gyfalaf er mwyn creu dolen gyswllt fwy systematig â'i weithdrefnau cyffredinol ar gyfer rheoli risgiau corfforaethol. Yn ogystal â hynny, mae Cyngor y Celfyddydau wedi gwella ei brosesau rheoli risg mewnol yn ddiweddar mewn cysylltiad â phrosiectau cyfalaf penodol drwy gyflwyno dogfennaeth cofrestr risgiau safonedig ar gyfer pob prosiect lle mae'n cyfrannu £100,000 neu ragor ar ffurf grant cyfalaf.



## Mae Cyngor y Celfyddydau yn cymryd camau digonol i reoli ac amddiffyn rhag y graddau y mae'n agored i risgiau ariannol ar brosiectau cyfalaf mawr

19 **Mae Cyngor y Celfyddydau yn mynnu bod ymgeiswyr yn derbyn amodau safonol a rhai sy'n ymwneud â grantiau penodol a'u bod yn cytuno ar gontractau cyfreithiol.** Ni fydd Cyngor y Celfyddydau yn gwneud taliadau grant cyfalaf nes bydd corff wedi cadarnhau'n ffurfiol ei fod yn derbyn y cynnig o grant a'r amodau ar dderbyn grant sy'n gysylltiedig â hynny. Mae'n gosod arwystlon cyfreithiol ar adeiladau ar gyfer ei holl grantiau i brosiectau cyfalaf mawr ac yn cytuno ar gontractau cyfreithiol ffurfiol gyda chyrff sy'n ymgeisio yn achos pob grant cyfalaf o fwy na £500,000. Dan y trefniadau hyn, mae'n ofynnol i rai sy'n derbyn grantiau hysbysu Cyngor y Celfyddydau am unrhyw newidiadau yn amcanion a phwrpas eu prosiectau neu roi gwybod os ydynt yn rhoi'r gorau i weithredu. Os torrir amodau grant, bydd cynnig Cyngor y Celfyddydau o grant yn mynd yn ddi-rym ar unwaith, ni fydd symiau pellach yn daladwy a bydd symiau a dalwyd eisoes yn dod yn ad-daladwy. Yn gyffredinol, bydd Cyngor y Celfyddydau yn arfer ei hawl i adennill taliadau grant os bydd derbynnydd y grant yn drwgdalu, ond mae wedi gweithredu yn ôl amgylchiadau achosion neilltuol mewn cysylltiad â rhai cyrff sydd â statws elusennol.

20 **Mae Cyngor y Celfyddydau yn capio maint ei grantiau cyfalaf mawr ac yn mynnu cael adolygiadau o gostau os bydd pwysau oherwydd costau'n digwydd wedyn.** Wrth gapio maint ei grantiau cyfalaf, mae Cyngor y Celfyddydau yn ceisio trosglwyddo'r risgiau o gynnydd mewn costau i bartneriaid ariannu eraill ac i'r cyrff sy'n derbyn grantiau eu hunain. Er hynny, mae Cyngor y Celfyddydau wedi rhoi grantiau cyfalaf atodol ar gyfer nifer o brosiectau yn y gorffennol, yn bennaf oherwydd y pwysigrwydd strategol sydd i ganolfannau penodol ac er mwyn cadw ansawdd pensaernïol adeiladau neilltuol. Yn y blynyddoedd diwethaf, fodd bynnag, drwy ddefnyddio gweithdrefnau diwygiedig a gyflwynwyd yn raddol ers 1999 gyda'i gilydd, mae Cyngor y Celfyddydau wedi llwyddo i sicrhau na cheir bron ddim ceisiadau atodol gan rai sy'n derbyn grantiau am arian tuag at gostau prosiect uwch.

21 **Mae'r monitro gan Gyngor y Celfyddydau ar brosiectau mawr wrth eu hadeiladu'n gymesur ac yn effeithiol, ond mae lle i fwy o integreiddio â phartneriaid ariannu.** Mae Cyngor y Celfyddydau yn monitro prosiectau cyfalaf mawr yn ystod y cyfnod adeiladu drwy adroddiadau rheolaidd gan rai sy'n derbyn grantiau a thrwy ymweliadau rheolaidd â safleoedd adeiladu gan swyddogion Cyngor y Celfyddydau a'u cynghorwyr proffesiynol. Amcan yr arferion hyn yw darganfod risgiau a phroblemau posibl cyn iddynt ddigwydd, fel na fydd yn rhaid delio ag anawsterau'n ddiweddarach.
Yn achos prosiectau lle mae'n cyfrannu mwy na £500,000 ar ffurf grant cyfalaf, mae Cyngor y Celfyddydau yn mynnu y bydd rhai sy'n derbyn grantiau'n rhoi iddo gynllun busnes sydd wedi'i adolygu'n llwyr chwe mis cyn yr adeg a bennwyd ar gyfer cwblhau'r gwaith adeiladu'n ymarferol. Roedd rhai sy'n derbyn grantiau wedi cael bod darparu gwybodaeth eithaf tebyg i wahanol bartneriaid ariannu ar wahanol adegau'n feichus, ac wedi mynegi dymuniad am gael ffurflenni symlach a phrosesau mwy cydamserol ar gyfer cyflwyno ffurflenni monitro. Rydym yn gweld manteision yn hyn, i'r rhai sy'n derbyn grantiau o ran cael llai o waith gweinyddol ac i bartneriaid ariannu o ran cael gwybodaeth fwy cyson a chymaradwy.

22 **Mae'r monitro gan Gyngor y Celfyddydau ar ôl cwblhau prosiectau wedi'i addasu i amgylchiadau penodol, ond dylai ganolbwyntio'n fwy cyson ar sefyllfa ariannol gyfredol y rhai sy'n derbyn grantiau cyfalaf.** Mae Cyngor y Celfyddydau yn ei wneud yn ofyniad ffurfiol bod y rhai sy'n derbyn grantiau cyfalaf yn cwblhau dogfen gwerthuso prosiect safonol ar ôl cwblhau eu prosiectau cyfalaf. Mae Cyngor y Celfyddydau yn mynnu hefyd y bydd cyrff sy'n derbyn grantiau'n hunanardystio bob blwyddyn eu bod yn dal i gydymffurfio ag amodau grant ac, os yw'n briodol, â chytundebau cyfreithiol, am gyfnod o hyd at 50 mlynedd yn ôl natur y prosiect cyfalaf. Mae'r ffurflenni archwilio cyfalaf hyn yn gofyn am wybodaeth am lefelau cyfredol y gweithgarwch celfyddydol, ond nid ydynt yn gofyn yn benodol am wybodaeth am hyfywedd ariannol cyfredol y cyrff sydd wedi derbyn grantiau. Byddai'r monitro gan Gyngor y Celfyddydau ar ôl cwblhau prosiectau ar ei ennill pe byddai ei ffurflenni archwilio cyfalaf yn cipio gwybodaeth allweddol berthnasol am sefyllfa ariannol y cyrff sy'n derbyn grantiau cyfalaf, yn enwedig rhai nad ydynt yn gleientiaid refeniw i Gyngor y Celfyddydau.

23 **Dylai Cyngor y Celfyddydau werthuso buddion ac effaith prosiectau a gwblhawyd mewn modd mwy systematig.** Fel y mae ar hyn o bryd, mae ychydig o asesu wedi'i wneud yng Nghymru o effaith ariannu cyfalaf ar gyfer prosiectau celfyddydol a phrosiectau sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau, gan ac ar ran gwahanol gyrff, gan gynnwys Cyngor y Celfyddydau a chleientiaid iddo sy'n derbyn grantiau cyfalaf. Lle bu angen, mae Cyngor y Celfyddydau wedi gwneud nifer o newidiadau a gwelliannau yn ei bolisi a'i flaenoriaethau ar gyfer ei raglen gyfalaf o ganlyniad i'w adolygiadau ei hun o effeithioldeb grantiau i wahanol fathau o gyrff ac ar gyfer ffurfiau celfyddydol gwahanol. Er bod yr adolygiadau hyn yn llawn gwybodaeth ar eu pen eu hunain, maent yn ddigyswllt ac nid ydynt yn rhan o raglen ymchwil a gwerthuso gydlynol i Gymru gyfan. Byddai'r monitro gan Gyngor y Celfyddydau ar brosiectau ar ôl eu cwblhau ar ei ennill pe byddai'n achub y blaen drwy hyrwyddo neu ymgymryd â rhaglen werthuso gydgysylltiedig a chyson a fyddai'n gymorth i fireinio ymhellach y blaenoriaethau strategol ar gyfer ei raglen gyfalaf a'i benderfyniadau ariannu ynghylch prosiectau cyfalaf mawr penodol.

# Argymhellion

24 Rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol i helpu Cyngor y Celfyddydau yn ei broses o wella parhaus.

## Partneriaethau ariannu

i Er mwyn cael mwy o fudd o'i bartneriaethau ariannu dylai Cyngor y Celfyddydau:

- **a** gwneud cytundebau partneriaeth strategol gyda phartneriaid ariannu allweddol yn Llywodraeth y Cynulliad (Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a'r Adran yr Economi a Thrafnidiaeth newydd), fel y bydd gwell gwybodaeth gan y naill a'r llall am flaenoriaethau rhaglenni a phrosesau rheoli rhaglenni ei gilydd ac i hwyluso cydweithredu ar brosiectau cyfalaf penodol;
- **b** mabwysiadu rôl y partner arweiniol ar y prosiectau mawr hynny lle mae'n darparu'r prif gyllid, gyda chymeradwyaeth yr adran sy'n ei noddi yn Llywodraeth y Cynulliad (yr Adran Materion Gwledig a Threftadaeth newydd) a gyda chytundeb partneriaid ariannu allweddol eraill, i wella'r



cydgysylltu rhwng partneriaid ariannu a lleihau'r baich gweinyddol ar y rhai sy'n ymgeisio am grantiau ac yn eu derbyn;

**c** mewn cysylltiad â cheisiadau am grantiau, rhannu gwybodaeth mewn modd systematig am y cyrff sy'n ymgeisio a'u prosiectau arfaethedig gyda'i brif bartneriaid ariannu, er mwyn gweithredu'n fwy effeithlon a bod yn fwy ymatebol i gleientiaid; a

**d** mewn cysylltiad â monitro prosiectau yn ystod y cyfnod adeiladu, ymgynghori â'i brif bartneriaid ariannu a chyrff celfyddydol ynghylch symleiddio'r gofynion arferol am gael gwybodaeth gan y rhai sy'n derbyn grantiau a chydamseru amserlenni adrodd, er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar y rhai sy'n derbyn grantiau a pheri i'r wybodaeth mewn adroddiadau fod yn fwy cyson a chymaradwy.

## Rheoli risg

**ii** Er mwyn gwella ei reoli ar risg ymhellach, dylai Cyngor y Celfyddydau:

**a** er mwyn cydnabod y gallai risgiau i'r prosiect gael eu gwireddu'n gynnar, fod â chofrestrau risgiau ar gyfer pob grant cyfalaf mawr a roddwyd a fydd yn cynnwys cylch bywyd cyfan y prosiect, nid y cyfnod ar ôl y cam cyn tendro yn unig;

**b** hyrwyddo methodoleg safonol i ddadansoddi sensitifrwydd i'w chymhwyso gan gyrff sy'n ymgeisio am grant at ragdybiaethau allweddol yn eu hachos busnes yn achos prosiectau sydd â gwerth uchel a/neu risg uchel, i ddangos y graddau y mae eu cynlluniau busnes a'u hamcanestyniadau ariannol yn agored i ansicrwydd; ac

**c** cynnwys mewn ffurflenni archwilio cyfalaf blynyddol gwestiynau am hyfywedd ariannol y rhai sy'n derbyn grantiau cyfalaf sydd â gwerth uchel a/neu risg uchel.

## Gwersi a ddysgwyd

**iii** Er mwyn dal ar wersi a ddysgwyd a'u lledaenu er mwyn gwella yn y dyfodol, dylai Cyngor y Celfyddydau:

**a** cymryd camau i hwyluso mentora rhwng y rhai sy'n ymgeisio am grantiau a'r rhai sy'n eu derbyn, er mwyn gwella'r trosglwyddo ar wybodaeth a phrofiad ynghylch ymgeisio am grantiau cyfalaf, rheoli prosiectau cyfalaf a chynnal gweithgarwch celfyddydol; a

**b** sefydlu rhaglen ar gyfer asesu mewn modd systematig yr effeithiau a gafwyd o brosiectau a dderbyniodd grantiau cyfalaf yn y tymor canolig (rhwng tair a phum mlynedd) a'r tymor hwy (10+ o flynyddoedd), fel sail i wella rhaglen gyfalaf Cyngor y Celfyddydau yn barhaus.

# Rhan 1 - Mae'r modd y mae Cyngor y Celfyddydau yn dethol prosiectau mawr ar gyfer ei raglen gyfalaf wedi'i seilio ar strategaeth ac mae ar sylfaen gadarn

1.1 Er mwyn cyflawni ei amcanion strategol, mae angen i Gyngor y Celfyddydau sicrhau ei fod yn dethol y prosiectau cyfalaf priodol i'w cynnwys yn ei raglen gyfalaf. Un o'r prif risgiau wrth weithredu i Gyngor y Celfyddydau, gan fod ei raglen gyfalaf yn cael ei gweithredu drwy brosiectau a reolir gan eraill (cyrff celfyddydol gan mwyaf) ac yn cynnwys cyllid partneriaeth sylweddol, yw y gallai'r gweithredu ar amcanion a blaenoriaethau ei raglen fod yn aneffeithiol os nad yw'n dethol prosiectau ar sail gadarn ac os nad yw ei gysylltiadau â chleientiaid a phartneriaid wedi'u rheoli'n dda i hwyluso'r broses o gyflawni prosiectau.

1.2 Yn y rhan hon o'r adroddiad, ystyrir pa mor dda y mae Cyngor y Celfyddydau yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â dewis pa brosiectau cyfalaf mawr i'w hariannu.

## Mae Cyngor y Celfyddydau yn cyflawni amcanion ei raglen gyfalaf yn raddol, ond dylai gydweithredu'n well â phartneriaid sy'n ariannu prosiectau

### Mae gan Gyngor y Celfyddydau amcanion a blaenoriaethau strategol ar gyfer ei raglen gyfalaf sy'n adlewyrchu agenda strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru

1.3 Mae Cyngor y Celfyddydau yn gweithredu o fewn fframwaith polisi ac adnoddau cyffredinol sydd wedi'i benderfynu gan Lywodraeth y Cynulliad, y caiff ychydig mwy na dwy ran o dair o'i incwm ohono bob blwyddyn drwy gymorth grant (£28 miliwn ar gyfer 2006-2007). Mae Cyngor y Celfyddydau yn gyfrifol hefyd am ddosbarthu cyllid y Loteri Genedlaethol yng Nghymru, sef yr un rhan o dair sy'n weddill o'i incwm (£11 miliwn ar gyfer 2006-07, yr oedd Cyngor y Celfyddydau wedi neilltuo ychydig mwy na £5 miliwn ohono i'w gyllideb gwariant cyfalaf), sydd wedi'i ariannu o'r ffrwd incwm y mae'n ei chael o'r Loteri dan adran 23(1) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993, a flaendelir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae Cyngor y Celfyddydau yn ariannu ei raglen gyfalaf â chyllid y Loteri Genedlaethol. Fodd bynnag, wrth benderfynu ar yr amcanion a'r blaenoriaethau ar gyfer ei raglen gyfalaf,



mae Cyngor y Celfyddydau yn ystyried yr agenda strategol sydd wedi'i gosod gan ei brif noddwr, Llywodraeth y Cynulliad.

**1.4** Prif amcan Cyngor y Celfyddydau ar gyfer seilwaith y celfyddydau (cyrff a chyfleusterau celfyddydol) yng Nghymru yw 'parhau i ddatblygu rhwydwaith o gyrff celfyddydau sy'n ddiogel yn ariannol ac yn cael eu rheoli'n dda, gyda mynediad i ystod o lecynnau â chyfleusterau da, yn eu helpu i fanteisio i'r eithaf ar eu potensial artistaidd ac adeiladu cynulleidfaoedd mwy ac ehangach'[3]. O fewn y prif amcan hwn, pwrpas pennaf rhaglen gyfalaf Cyngor y Celfyddydau yw rhoi cymorth i adeiladu, adnewyddu a gwella cyfleusterau celfyddydol ledled Cymru a phrynu cyfarpar ar gyfer cyrff celfyddydol. Mae strategaeth a chynlluniau Cyngor y Celfyddydau ar gyfer y rhaglen buddsoddi cyfalaf hon wedi'u hailddatgan mewn nifer o ddogfennau allweddol, gan gynnwys Cefnogi Creadigrwydd: Strategaeth Datblygu'r Celfyddydau dros Bum Mlynedd a'i gynlluniau gweithredu ar gyfer y cyfnod 2002-2007 (Ebrill 2002), ei *Strategaeth ar gyfer Dosbarthu Arian y Loteri yng Nghymru* (Ionawr 2003), ei gynllun corfforaethol ar gyfer 2005-2008 *Allwedd i Ragoriaeth* (Mehefin 2004), a'i gynllun gweithredol ar gyfer 2006-2007 *Celf ar Waith* (Mawrth 2006).

**1.5** Mae strategaeth gyfalaf Cyngor y Celfyddydau, fel y mae wedi'i disgrifio yn y dogfennau hyn, yn gyson ag agenda strategol Llywodraeth y Cynulliad sydd wedi'i nodi yn *Cymru Greadigol: Strategaeth Ddiwylliant i Gymru* (Ionawr 2002) a oedd yn rhoi pwyslais cyffredinol ar yr angen i sicrhau bod cyrff celfyddydol mewn sefyllfa ariannol gynaliadwy ac i fuddsoddi mwy mewn adeiladau a chyfleusterau ar gyfer yr holl ffurfiau celfyddydol. Mae hefyd yn gyson â chynllun gweithredu presennol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gweithredu yn sector y celfyddydau yng Nghymru sydd, ymysg pethau eraill, yn ceisio sicrhau camau penodol i ddatblygu canolfannau ar gyfer y celfyddydau perfformio[4]. Mae strategaethau presennol Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor y Celfyddydau ill dwy'n rhoi pwyslais ar:

- roi cymorth i adeiladu a gwella rhwydwaith strategol o gyfleusterau i'r celfyddydau;
- rhoi cymorth i ddatblygu cyrff celfyddydol sy'n ariannol ddiogel ac wedi'u rheoli'n dda; ac
- ehangu mynediad i gyfleusterau a digwyddiadau celfyddydol ar gyfer pob rhan o'r gymuned.

**1.6** Mae'r pwyslais yn rhaglen gyfalaf Cyngor y Celfyddydau wedi newid o fod yn un sy'n rhoi'r sylw pennaf i lenwi bylchau daearyddol yn y ddarpariaeth o gyfleusterau celfyddydol ledled Cymru i fod yn un sy'n rhoi'r prif sylw i wella cyfleusterau yn y lleoliadau presennol. Mae chwe blaenoriaeth uchaf Cyngor y Celfyddydau wrth ddarparu cymorth grant cyfalaf ar hyn o bryd wedi'u nodi isod:

1. ehangu, gwella ac adnewyddu'r rhwydwaith canolfannau presennol;
2. adnewyddu a gwella canolfannau llai sydd â hanes o lwyddiant;
3. datblygu prosiectau adeiladu newydd cymharol fach ar gyfer cyrff sydd â hanes o lwyddiant sylweddol;
4. darparu gweithdai a stiwdios ar gyfer artistiaid a chrefftwyr;
5. darparu celfyddyd gyhoeddus; a
6. prynu cyfarpar ac offerynnau cerddorol.

3 Allwedd i Ragoriaeth II, Cynllun Corfforaethol Cyngor Celfyddydau Cymru 2005-2008, t.24
4 Cyflawni'r Cysylltiadau: Gwireddu'r Weledigaeth, Llywodraeth y Cynulliad, Mehefin 2005, t.21

1.7 Ar ddechrau 2006, yn ystod ein harchwiliad, sefydlodd Llywodraeth y Cynulliad adolygiad polisi o ariannu ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru (yr Adolygiad o'r Celfyddydau yng Nghymru). Cylch gwaith yr adolygiad oedd rhoi cyngor ar rôl Cyngor y Celfyddydau yn awr ac yn y dyfodol, ar briod rolau Cyngor y Celfyddydau a Llywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol, ac ar ariannu ar gyfer y celfyddydau yn ei gyd-destun rhyngwladol. Ei bwrpas oedd darparu sylfaen wybodaeth ar gyfer penderfyniadau Llywodraeth y Cynulliad ar y fframwaith ar gyfer trefniadau ariannu sy'n cefnogi'r celfyddydau yn y dyfodol, gan gynnwys rôl Cyngor y Celfyddydau. Cyhoeddwyd adroddiad panel yr adolygiad ar 29 Tachwedd 2006 a bu dadl arno yng nghyfarfod llawn y Cynulliad ar 6 Rhagfyr 2006, lle yr ailddatganwyd yr egwyddor 'hyd braich' ar gyfer rheoli'r celfyddydau'n strategol yng Nghymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn awr yn ystyried yr argymhellion yn adroddiad panel yr adolygiad.

1.8 Er nad oedd yn ymdrin yn uniongyrchol â rhaglen gyfalaf Cyngor y Celfyddydau, sy'n cael ei hariannu â chyllid y Loteri, cafwyd rhai sylwadau yn adroddiad yr Adolygiad o'r Celfyddydau yng Nghymru am yr angen i wella'r cyd-destun strategol lle mae Cyngor y Celfyddydau yn gweithredu. Yn benodol, roedd panel yr adolygiad o'r farn:

- bod y llythyrau cylch gwaith lle mae'r Gweinidog dros Ddiwylliant yn cyfleu ei flaenoriaethau i Gyngor y Celfyddydau yn ddigyswllt ac yn canolbwyntio ar gynlluniau penodol yn hytrach na datblygiadau strategol[5];
- mai'r diffyg eglurder wrth bennu blaenoriaethau strategol oedd prif achos y tyndra rhwng y Gweinidog dros Ddiwylliant ar y pryd a Chyngor y Celfyddydau, a bod angen datrys hynny ar frys[6]; ac
- mewn cysylltiad â chyllid refeniw Cyngor y Celfyddydau ar gyfer cyrff celfyddydol, bod yr hyn a ystyrid yn ddiffyg cyfeiriad strategol yn golygu bod rhai rhannau o gymuned y celfyddydau'n teimlo bod diwylliant rheoli ar waith yn hytrach na strategaeth[7].

Yn ein hymchwiliad ni i raglen gyfalaf Cyngor y Celfyddydau, sy'n cael ei hariannu â chyllid y Loteri, cawsom fod blaenoriaethau strategol Cyngor y Celfyddydau a Llywodraeth y Cynulliad yn gyson at ei gilydd.

## Mae Cyngor y Celfyddydau wedi gwneud cynnydd cyson tuag at gyflawni amcanion ei raglen gyfalaf ers 1999

1.9 Rhwng Ebrill 1999 a Mawrth 2007, mae Cyngor y Celfyddydau wedi rhoi gwerth £61 miliwn o grantiau cyfalaf dan ei raglen gyfalaf ac, o'r rhain, roedd gwerth mwy na £39 miliwn (64 y cant) ohonynt wedi'u rhoi ar ffurf grantiau cyfalaf mawr (am £50,000 neu fwy) tuag at 49 o brosiectau i godi ac adnewyddu adeiladau ledled Cymru. Mae hyn yn golygu bod £800,000 wedi'i roi ar gyfartaledd i bob prosiect mawr. Dangosir perfformiad Cyngor y Celfyddydau rhwng Ebrill 1999 a Mawrth 2007 wrth ddyfarnu grantiau dan ei feysydd blaenoriaeth allweddol yn Ffigur 1, ac mae hyn yn dangos bod prif ymdrech Cyngor y Celfyddydau, o ran nifer y prosiectau a gefnogwyd (36) ac o ran gwerth y grantiau a ddyfarnwyd (£21 miliwn), wedi bod ynghylch gwella ac adnewyddu'r canolfannau bach a mawr presennol. Mae 25 o brosiectau cyfalaf mawr (y rhoddwyd grantiau cyfalaf o £100,000 neu fwy iddynt gan Gyngor y Celfyddydau) wedi'u cwblhau

5 Cyrchddull Allwedd Ddeuol Datblygiad Strategol y Celfyddydau yng Nghymru, yr Adolygiad o'r Celfyddydau yng Nghymru, Tachwedd 2006, paragraff 2.6
6 Cyrchddull Allwedd Ddeuol Datblygiad Strategol y Celfyddydau yng Nghymru, yr Adolygiad o'r Celfyddydau yng Nghymru, Tachwedd 2006, paragraff 2.8
7 Cyrchddull Allwedd Ddeuol Datblygiad Strategol y Celfyddydau yng Nghymru, yr Adolygiad o'r Celfyddydau yng Nghymru, Tachwedd 2006, paragraff 2.13



**Ffigur 1: Rhwng 1999-2000 a 2006-2007, mae'r rhan fwyaf o'r grantiau cyfalaf mawr a roddwyd gan Gyngor y Celfyddydau, o ran nifer a gwerth, wedi bod ar gyfer prosiectau gwella ac adnewyddu**

| Blaenoriaethau cyffredinol y rhaglen | Gwerth y grantiau a roddwyd (£ miliwn) | Nifer y prosiectau y rhoddwyd grantiau iddynt |
|---|---|---|
| Ehangu, gwella ac adnewyddu cyfleusterau | 19.3 | 21 |
| Adeiladu cyfleusterau newydd a datblygu cynlluniau cymharol fach ar gyfer adeiladau newydd | 17.6 | 10 |
| Gwella canolfannau llai | 1.7 | 15 |
| Darparu gweithdai a stiwdios ar gyfer artistiaid a chrefftwyr | 0.6 | 3 |
| **Cyfanswm** | **39.2** | **49** |

**Sylwer**

O'r 49 o brosiectau, roedd naw yn dal i fynd rhagddynt ar 31 Mawrth 2007

*Ffynhonnell: Cyngor Celfyddydau Cymru*


gan ymgeiswyr rhwng Ebrill 1999 a Mawrth 2007, ac mae Ffigur 2 yn dangos bod y rhain ar wasgar drwy Gymru.

**1.10** Mae crynodeb yn Atodiad 2 o'r 15 o brosiectau cyfalaf mawr a adolygwyd yn fanwl gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n dangos amrywiaeth a natur y grantiau a roddwyd gan Gyngor y Celfyddydau yn ei holl feysydd blaenoriaethol. Ymhlith y prosiectau a gwblhawyd y mae nifer bach o ganolfannau a godwyd o'r newydd, fel Canolfan Mileniwm Cymru (Caerdydd)[8] a Galeri Caernarfon, yn ogystal â gwelliannau sylweddol i gyfleusterau a oedd yn bod eisoes fel Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth, Theatr Mwldan (Aberteifi), Canolfan Gymunedol Soar Ffrwdamos (Pen-y-graig), Canolfan Ysgrifennu Genedlaethol Tŷ Newydd (Cricieth), a Stiwdios Artistiaid Butetown (Caerdydd).

**1.11** Nodwyd yn benodol yn strategaeth gyfalaf Cyngor y Celfyddydau ar gyfer 1999 fod mynediad i gyfleusterau celfyddydol yn anfoddhaol ar gyfer trefi Wrecsam, Casnewydd, Caernarfon a Merthyr Tudful. Roedd prosiectau arfaethedig yn Wrecsam ac ym Merthyr Tudful ill dau wedi methu â mynd ymlaen, ar ôl rhoi'r gorau iddynt yn Rhagfyr 2003 ac yn Ionawr 2004, yn y drefn honno (Astudiaethau Achos A a B). Ond rhoddodd Cyngor y Celfyddydau gymorth i ddatblygu a chwblhau prosiect cyfalaf mawr yng Nghasnewydd, gan gyfrannu £8.2 miliwn tuag at y gost o £13.5 miliwn ar gyfer Theatr a Chanolfan Gelfyddydau Glan yr Afon, a agorwyd yn Hydref 2004 (Astudiaeth Achos Q). Ac yng Nghaernarfon, cyfrannodd Cyngor y Celfyddydau £2.9 miliwn tuag at y gost o £7.4 miliwn ar gyfer y Galeri Caernarfon newydd, a agorwyd ym Mawrth 2005 (Astudiaeth Achos R).

8 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud archwiliad ar wahân ar hyn o bryd o'r defnydd ar adnoddau a ariannwyd gan y cyhoedd wrth adeiladu a chefnogi Canolfan Mileniwm Cymru, a ariannwyd yn bennaf gan Lywodraeth y Cynulliad a Chomisiwn y Mileniwm. Oherwydd hynny, ni roddwyd sylw helaeth i'r prosiect hwnnw yn yr adroddiad hwn am reolaeth Cyngor y Celfyddydau ar ei raglen gyfalaf gyffredinol.

**Ffigur 2: Cwblhawyd 25 o brosiectau adeiladu mawr rhwng Ebrill 1999 a Mawrth 2007 ledled Cymru**




Prosiectau a gwblhawyd y rhoddwyd grantiau cyfalaf o fwy na £100,000 ar eu cyfer

| | | |
|---|---|---|
| 1 Glan yr Afon | 10 Theatr y Grand, Abertawe | 19 Theatr John Ambrose |
| 2 Canolfan Mileniwm Cymru | 11 Theatr Fach Abertawe | 20 Canolfan Gymunedol Coed-poeth |
| 3 Bay Art | 12 Theatr Mwldan | 21 Canolfan Gelfyddydau'r Stiwt |
| 4 Crefft yn y Bae | 13 Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth | 22 Oriel Davies Gallery |
| 5 Celfyddydau Cymunedol Neuadd Llanofer | 14 Theatr Ardudwy | 23 Carad |
| 6 Valleys Kids | 15 Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd | 24 Theatr Powys |
| 7 Sefydliad Cwmaman | 16 Galeri Caernarfon | 25 Canolfan Gelfyddydau Glannau Gwy |
| 8 Canolfan Gymunedol Maerdy | 17 Venue Cymru | |
| 9 Canolfan Hyfforddi Glyn-nedd | 18 Theatr Elwy | |

*Ffynhonnell: Cyngor Celfyddydau Cymru*



## Astudiaeth Achos A: Theatr a Chanolfan y Celfyddydau Perfformio Wrecsam

Yr ymgeisydd am grant ar gyfer y theatr a'r ganolfan celfyddydau perfformio newydd arfaethedig oedd yr awdurdod lleol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Cyfrannodd Cyngor y Celfyddydau £19,000 yn 1996 tuag at waith ar astudiaeth ddichonoldeb a £97,000 yn 1998 tuag at ddatblygu'r prosiect. Ym Mawrth 2001, rhoddodd Cyngor y Celfyddydau swm o £3.9 miliwn i'r awdurdod lleol tuag at y gost amcangyfrifedig o £5.1 miliwn ar gyfer adeiladu'r theatr. O ganlyniad i gynnydd yn y costau adeiladu amcangyfrifedig yn ystod cyfnod datblygu'r dyluniad, rhoddodd Cyngor y Celfyddydau grant atodol o £542,000 i'r awdurdod lleol yn Chwefror 2003. Cododd y costau amcangyfrifedig wedyn i £6.3 miliwn ar ôl cael tendrau am y contract adeiladu. Oherwydd cynnydd yn y costau cyfalaf ynghyd â phroblemau mewn cysylltiad â chontractwyr a phryder lleol ynghylch ymrwymiadau i dalu costau rhedeg yn y dyfodol, rhoddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam y gorau i'r prosiect yn Rhagfyr 2003. Roedd hynny er gwaethaf y ffaith bod Cyngor y Celfyddydau wedi rhoi grant atodol ychwanegol o £150,000 ym Medi 2003 a bod Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnig swm o £660,000 yn uniongyrchol at y prosiect, gan gydnabod ei bwysigrwydd strategol. Ar adeg terfynu'r prosiect, y cyfraniad yr oedd Cyngor y Celfyddydau wedi'i addo tuag at gostau adeiladu oedd £4.6 miliwn (18 y cant yn fwy) a chyfanswm y grantiau cyfalaf yr oedd wedi'u cynnig ar gyfer y prosiect cyfan oedd £4.7 miliwn. Ym Mai 2004, ad-dalodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam y swm o £304,000 yr oedd wedi'i dderbyn hyd hynny ar ffurf grantiau cyfalaf gan Gyngor y Celfyddydau ar gyfer y prosiect. Ym mis Tachwedd 2005, rhoddodd Cyngor y Celfyddydau grant o £15,000 tuag at gost astudiaeth ddichonoldeb gan yr awdurdod lleol o'r bwriad i ailddatblygu'r Ganolfan Gelfyddydau Wrecsam bresennol, sy'n oriel i'r celfyddydau gweledol yn bennaf ac sydd eisoes yn derbyn cyllid gan Gyngor y Celfyddydau.

## Astudiaeth Achos B: Theatr a Chanolfan Gelfyddydau Merthyr Tudful

Datblygodd Ymddiriedolaeth y Castle Theatre gynigion amlinellol ar gyfer theatr a chanolfan gelfyddydau ym Merthyr Tudful yn ystod 2002 a 2003. Ym mis Mehefin 2003, ystyriodd Pwyllgor Cyfalaf Cyngor y Celfyddydau gais gan yr Ymddiriedolaeth am grant cyfalaf i'w helpu i ddatblygu'r prosiect ond gohiriodd ei benderfyniad wrth ddisgwyl eglurhad ar ran yr awdurdod lleol yn y prosiect, gan fod Cyngor y Celfyddydau o'r farn nad oedd yr Ymddiriedolaeth yn meddu ar ddigon o allu trefniadol i hyrwyddo'r cynllun ar ei phen ei hun. Ar ddiwedd 2003, penderfynodd yr awdurdod lleol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, y byddai'n datblygu ei brosiect theatr ei hun fel rhan o waith ailddatblygu helaeth yn Rhyd-y-car ac na fyddai'n cefnogi prosiect Ymddiriedolaeth y Castle Theatre. Yng ngolwg hynny, penderfynodd Cyngor y Celfyddydau yn Ionawr 2004 na allai roi grant cyfalaf at ddatblygu'r prosiect a oedd wedi'i gynnig gan Ymddiriedolaeth y Castle Theatre. Yn Hydref 2006, cyhoeddodd y Gweinidog dros Ddiwylliant y byddai £250,000 o gyllid cyfalaf yn cael ei ddarparu i Gyngor y Celfyddydau i'w roi tuag at dalu'r costau amcangyfrifedig o £300,000 am astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer Canolfan Mentrau Diwylliannol ym Merthyr Tudful, i'w chyflawni gan Brifysgol Morgannwg, Partneriaeth Blaenau'r Cymoedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

### Mae Cyngor y Celfyddydau yn dibynnu ar ei gleientiaid i ddatblygu a chwblhau eu prosiectau'n llwyddiannus

**1.12** Mae'r cynnydd a wnaiff Cyngor y Celfyddydau ar weithredu ei strategaeth gyfalaf a'i raglen gyfalaf yn ddibynnol ar gyfranogiad a chydweithrediad ei gleientiaid. Cleientiaid Cyngor y Celfyddydau ar gyfer grantiau cyfalaf (hy, y rhai sy'n ymgeisio am grantiau ac yn eu derbyn) yw cyrff celfyddydol a chyrff eraill, fel awdurdodau lleol, sy'n dymuno datblygu cyfleusterau i gynnal gweithgareddau celfyddydol. Mae grantiau cyfalaf ar gael i gyrff ac nid i unigolion, ac mae Cyngor y Celfyddydau yn rhoi blaenoriaeth i gyrff sefydledig sydd â hanes o lwyddiant wrth gyflenwi gweithgareddau celfyddydol. Er y gall Cyngor y Celfyddydau ofyn am geisiadau am grantiau ar gyfer prosiectau i'w cynnwys yn ei raglen gyfalaf sy'n cyd-fynd â'i flaenoriaethau strategol, mae Cyngor y Celfyddydau yn dibynnu'n bennaf ar barodrwydd cyrff unigol i roi cynigion dichonol gerbron yn y lle cyntaf. Mae Cyngor y Celfyddydau yn dibynnu hefyd ar allu'r rhai sy'n ymgeisio am grantiau ac yn eu derbyn i sicrhau cyllid partneriaeth o ffynonellau eraill, i reoli cyfnodau dylunio, datblygu ac adeiladu'r prosiectau eu hunain ac i sicrhau bod gweithgarwch celfyddydol yn parhau ar ôl i'r cyfleusterau ddod yn weithredol.



*Galeri Caernarfon*
*Ffynhonnell: Cyngor Celfyddydau Cymru/Robert Williams*

**1.13** Y cyrff sy'n ymgeisio am grantiau i Gyngor y Celfyddydau sy'n penderfynu pa ddull caffael i'w fabwysiadu ar gyfer eu prosiectau adeiladu mawr. Heblaw am rai eithriadau cymharol brin (sy'n cynnwys y contract dylunio ac adeiladu ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru), mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr am grant yn dilyn llwybr traddodiadol wrth gaffael, gyda chontractau ar wahân ar gyfer yr elfennau dylunio ac adeiladu. Mae Cyngor y Celfyddydau yn ffafrio'r dull gweithredu hwn gan ei gleientiaid, ar y cyfan, fel yr un sy'n fwyaf priodol ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau cyfalaf mawr (sy'n rhai ar gyfer adnewyddu a gwella yn hytrach na rhai ar gyfer adeiladu o'r newydd) ac fel un sy'n lleihau'r perygl o amharu ar ansawdd adeiladau oherwydd pwysau o ran costau ac amser yn ystod y cyfnod adeiladu.

**1.14** Mae'r mwyafrif o'r cyrff y rhoddodd Cyngor y Celfyddydau grantiau cyfalaf iddynt rhwng Ebrill 1999 a Mawrth 2007 wedi cwblhau eu prosiectau adeiladu ac yn eu rhedeg fel cyfleusterau neu ganolfannau celfyddydol llwyddiannus. O'r 49 o brosiectau mawr ar gyfer codi neu adnewyddu adeiladau y rhoddwyd grantiau cyfalaf iddynt dros y cyfnod hwn, rhoddwyd y gorau i ddau ohonynt – Theatr Wrecsam (Astudiaeth Achos A) a Theatr y Parc a Dâr, Treorci (Astudiaeth Achos C). Ar 31 Mawrth 2007, roedd naw prosiect mawr yn mynd rhagddynt, a'r rheini'n cynnwys y Ganolfan Ffotograffiaeth Genedlaethol, Port Talbot (Astudiaeth Achos L), a Chanolfan Grefftau Rhuthun (Astudiaeth Achos M).

**1.15** Yn ogystal â rhoi cymorth i ddatblygu a chwblhau prosiectau penodol mewn lleoliadau penodol, mae gan Gyngor y Celfyddydau amcanion trawsbynciol ar gyfer buddsoddiadau ei raglen gyfalaf. Mewn ymateb i Ddeddfau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 a 2005 (Astudiaeth Achos D), cyflwynodd Cyngor y Celfyddydau amcan trawsbynciol i roi cymorth i wella mynediad a chyfleusterau cysylltiedig ar gyfer pobl anabl mewn canolfannau celfyddydol, drwy gynllun a oedd yn cymell cyrff celfyddydol i wneud gwelliannau priodol mewn adeiladau a chyfleusterau iddynt nad oeddent dan berchnogaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, er ei fod wedi neilltuo cyllid yn ei raglen gyfalaf yn unswydd ar gyfer prosiectau o'r fath, ac wedi rhoi cyhoeddusrwydd eang i'r ffaith bod y cyllid hwn ar gael, prin ac araf fu'r defnydd ohono gan gyrff celfyddydol.



### Astudiaeth Achos C: Theatr y Parc a Dâr, Treorci

Ym Mehefin 2005, gohiriodd Pwyllgor Cyfalaf Cyngor y Celfyddydau ei fwriad i ystyried cais am gyllid prosiect llawn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf oherwydd, rhwng cyflwyno ei gais a'r adeg ar gyfer ei ystyried gan Gyngor y Celfyddydau, penderfynodd yr awdurdod lleol beidio â pharhau â'r prosiect ar gyfer theatr. Ar ôl hynny ad-dalodd yr awdurdod lleol werth £124,000 o grantiau cyfalaf yr oedd wedi'u derbyn gan Gyngor y Celfyddydau tuag at ddatblygu'r prosiect cyn ei derfynu.

## Mae Cyngor y Celfyddydau a'i gleientiaid yn dibynnu ar bartneriaid ariannu eraill i gyfrannu at brosiectau mawr yn y rhaglen gyfalaf

**1.16** Mae Cyngor y Celfyddydau yn ariannu prosiectau mawr ar gyfer codi, adnewyddu ac uwchraddio adeiladau ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill, gan gyfrannu at dalu rhwng chwarter a thri chwarter holl gostau'r prosiect fel arfer. Prif bartneriaid ariannu rheolaidd Cyngor y Celfyddydau yw:

- Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, a sefydlwyd fel asiantaeth weithredol i Lywodraeth y Cynulliad yn Ebrill 2000, gan ddod yn is-adran yn Llywodraeth y Cynulliad yn Ebrill 2003;
- yr hen WDA, a ddaeth yn rhan o Lywodraeth y Cynulliad yn Ebrill 2006[9];
- yr hen Fwrdd Croeso Cymru, a ddaeth yn rhan o Lywodraeth y Cynulliad hefyd yn Ebrill 2006;
- y rheini o blith y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n rhoi cymorth tuag at brosiectau mawr yn eu hardaloedd.

Rhai o'r cyrff eraill sydd wedi cyfrannu at brosiectau penodol yw Comisiwn y Mileniwm (Y Gronfa Loteri Fawr yn awr), Cronfa Dreftadaeth y Loteri, yr Adran Llywodraeth Leol a Diwylliant yn Llywodraeth y Cynulliad[10], ac amryw o gyrff preifat.

### Astudiaeth Achos D: Cyllid cyfalaf i helpu canolfannau i gydymffurfio â Deddfau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 a 2005

Yn 2002, cynhaliodd Cyngor y Celfyddydau adolygiad o hygyrchedd ar gyfer pobl anabl i'r 60 o ganolfannau i'r celfyddydau ledled Cymru, ymhell cyn i Ran 3 o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 ddod i rym yn Hydref 2004 gyda'r gofyniad i gyrff gymryd camau rhesymol i sicrhau na wahaniaethir yn erbyn pobl anabl pan fyddant yn defnyddio eu gwasanaethau. O ganlyniad i Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005 ehangwyd cwmpas Rhan 3 o Ddeddf 1995 ymhellach i gynnwys clybiau preifat, gyda'r posibilrwydd o gynnwys mwy o gyrff celfyddydol. Ar ôl cynnal astudiaeth arall i ganfod y goblygiadau ariannol posibl yn Neddf 2005, sefydlodd Cyngor y Celfyddydau is-raglen o gyllid cyfalaf y Loteri, a'i hysbysebu, yn benodol ar gyfer prosiectau sy'n gysylltiedig ag anabledd, gan neilltuo mwy nag £1.5 miliwn dros y tair blynedd rhwng 2004-2005 a 2006-2007. Mae nifer bach o brosiectau'n mynd rhagddynt yn awr ledled Cymru. Cyhoeddodd Cyngor y Celfyddydau ei strategaeth ddiweddaraf ar y celfyddydau ac anabledd, *Symud Ymhellach Ymlaen*, yn Ebrill 2005, a oedd yn egluro ei flaenoriaethau a'i gynlluniau mewn cysylltiad ag artistiaid a defnyddwyr celfyddydau anabl yng Nghymru.

**1.17** Mae Cyngor y Celfyddydau yn dibynnu ar allu ei wahanol bartneriaid ariannu i ystyried ceisiadau sy'n ymwneud â phrosiectau celfyddydol mawr yn brydlon, i gyfrannu'r symiau o arian y mae cleientiaid Cyngor y Celfyddydau yn eu ceisio'n llawn, ac i gyflawni eu bwriadau a'u hymrwymiadau drwy gylch oes pob prosiect. Mae gan bob un o brif bartneriaid ariannu Cyngor y Celfyddydau ei amcanion a'i flaenoriaethau ei hun, a'i gyfyngiadau cyllidebol a'i weithdrefnau gweinyddol mewn cysylltiad ag ariannu prosiectau cyfalaf, ac mae hyn yn cynnig heriau o ran cydgysylltu a chyfathrebu i Gyngor y Celfyddydau a'i gleientiaid, yn enwedig o ystyried hyd y cyfnodau ar gyfer dylunio a datblygu'r prosiectau, sy'n aml yn hir.

9 Daeth y rhan fwyaf o'r hen Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau yn rhan o'r Adran yr Economi a Thrafnidiaeth newydd, ar ôl etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2007.

10 Cafodd y rhannau o'r Adran Llywodraeth Leol a Diwylliant a oedd yn ymwneud â diwylliant eu cynnwys yn yr Adran Materion Gwledig a Threftadaeth newydd, ar ôl etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2007.

## Astudiaeth Achos E: Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, Cricieth

Roedd y corff a ymgeisiodd am grant, Ymddiriedolaeth Taliesin, yn un sefydledig a chanddo hanes o lwyddiant wrth redeg Canolfan Ysgrifennu Genedlaethol Cymru yn Tŷ Newydd. Amcan y prosiect oedd adnewyddu ac uwchraddio adeilad Tŷ Newydd, a fu'n un o gartrefi David Lloyd George, i wella'r cyfleusterau yn y ganolfan ysgrifennu, gan gynnwys mynediad llawn i bobl anabl. Yn 1996, rhoddodd Cyngor y Celfyddydau ddau grant olynol i Ymddiriedolaeth Taliesin, tua £5,000 ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb ac wedyn tua £44,000 i ddatblygu'r cynllun. Gwrthodwyd cais am grant a wnaed wedyn gan Ymddiriedolaeth Taliesin am £1.6 miliwn gan Gyngor y Celfyddydau yn 1999, ar y sail ei bod yn anodd cyfiawnhau lefel arfaethedig y buddsoddiad yng ngolwg y lefelau hygyrchedd cyhoeddus. Rhoddodd Cyngor y Celfyddydau tua £14,000 wedyn i Ymddiriedolaeth Taliesin i ddatblygu ei chynlluniau gyda'r bwriad o ymgeisio am gyllid Ewropeaidd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Ym mis Tachwedd 2002, gohiriodd Cyngor y Celfyddydau ei ystyriaeth i gais am £650,000 gan Ymddiriedolaeth Taliesin, ar y sail bod angen datblygu'r cais ymhellach, cyn rhoi £900,000 ym mis Mawrth 2003 tuag at gyfanswm costau'r prosiect, a oedd wedi'u hamcangyfrif yn £2.1 miliwn, ar gyfer adnewyddu ac ailaddurno adeilad Tŷ Newydd. Yn Chwefror 2004, rhoddodd Cyngor y Celfyddydau £110,000 ychwanegol i'r prosiect tuag at gostau uwch y prosiect, fel ei fod wedi cyfrannu cyfanswm o ychydig yn fwy nag £1 filiwn. Dros y 12 mis nesaf, sicrhaodd Ymddiriedolaeth Taliesin gynigion o gyllid gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (£375,000), Cyngor Gwynedd (£325,000), Cronfa Dreftadaeth y Loteri (£250,000), a'r hen WDA (£182,000); er bod ei chais i'r hen Fwrdd Croeso Cymru yn aflwyddiannus. Ar ddiwedd 2004, yr amcangyfrif o gyfanswm costau'r prosiect oedd £2.4 miliwn. Dechreuwyd ar y gwaith adeiladu yn Chwefror 2005 ac fe'i cwblhawyd, ychydig yn hwyrach na'r bwriad ond o fewn terfynau'r gyllideb, ym mis Mawrth 2006. Ailagorwyd Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd yn swyddogol ym mis Mai 2006.

**1.18** Rhai enghreifftiau o gydweithio effeithiol rhwng y prif bartneriaid ariannu ar brosiectau penodol yw Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, Cricieth (Astudiaeth Achos E), Canolfan Gymunedol Soar Ffrwdamos, Pen-y-graig (Astudiaeth Achos F), a Theatr Mwldan, Aberteifi (Astudiaeth Achos G). Cawsom mai ffactorau allweddol ar gyfer llwyddiant a oedd yn gyffredin i'r prosiectau hyn oedd:

- parodrwydd y partneriaid ariannu i gydgyfeirio pecynnau cymorth ariannol yn ystod cyfnod datblygu'r prosiect, yn unol â'u priod amcanion corfforaethol;
- cyfathrebu agored ac amserol rhwng y prif bartneriaid ariannu yn ystod cyfnod adeiladu'r prosiect, gyda Chyngor y Celfyddydau fel arfer yn cyflawni rôl arweiniol wrth fonitro'r cyfnod adeiladu;
- ymrwymiad cyd-rhwng y partneriaid ariannu i fod â rhan mewn helpu prosiectau i lwyddo a thrafod anawsterau sy'n codi mewn modd adeiladol.

**1.19** Yn achos Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd (Astudiaeth Achos E), er bod Ymddiriedolaeth Taliesin wedi methu â chael cyllid ychwanegol gan y sector preifat a'r hen Fwrdd Croeso Cymru, roedd prif bartneriaid ariannu'r sector cyhoeddus (Cyngor y Celfyddydau, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, Cyngor Gwynedd, Cronfa Dreftadaeth y Loteri a'r hen WDA) wedi aros yn ymrwymedig i'r prosiect, er bod yr amcangyfrif o gostau'r prosiect wedi codi wrth ddatblygu'r prosiect ac er gwaethaf oedi oherwydd y tywydd a llifogydd lleol yn ystod y cyfnod adeiladu. Serch hynny, roedd Ymddiriedolaeth Taliesin wedi cael bod y gwahanol brosesau a gweithdrefnau a oedd gan brif bartneriaid ariannu'r prosiect yn ymestynnol, yn enwedig mewn cysylltiad â rheoli llif arian yn ystod y cyfnod adeiladu.

**1.20** Yn achos Canolfan Gymunedol Soar Ffrwdamos (Astudiaeth Achos F), er gwaethaf problemau a oedd yn ymwneud â newidiadau yng nghwmpas y prosiect yn ystod y cyfnod o ddatblygu a dylunio manwl, costau adeiladu uwch a chwblhau gwaith yn hwyr yn ystod y



## Astudiaeth Achos F: Canolfan Gymunedol Soar Ffrwdamos, Pen-y-graig

Roedd y corff a ymgeisiodd am grant, Valleys Kids, yn un sefydledig a chanddo hanes o lwyddiant wrth ddarparu gweithgareddau celfyddydol. Amcan y prosiect oedd adnewyddu ac uwchraddio adeilad capel Soar Ffrwdamos i ddarparu canolfan gelfyddydau gymunedol aml-ddefnydd, gyda mynediad llawn i bobl anabl. Yn 2003, cyfrannodd Cyngor y Celfyddydau £84,000 at ddatblygu'r prosiect. Ar ôl hynny, rhoddwyd £1.1 miliwn yn 2004 ar gyfer cyfnod adeiladu'r prosiect, ar ffurf dau grant olynol (am £820,000 a £265,000) tuag at gyfanswm costau'r prosiect o £2.3 miliwn. Rhwng y ddau grant hyn, ymgymerodd Cyngor y Celfyddydau â gwaith i adolygu a lleihau costau cyn dechrau ar y gwaith adeiladu, gan fod y tendrau am y gwaith adeiladu'n fwy na'r amcangyfrifon a'r gyllideb a oedd ar gael. Ymhlith y partneriaid ariannu, yn ogystal â Chyngor y Celfyddydau, yr oedd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, yr hen WDA, yr hen Fwrdd Croeso Cymru a'r awdurdod lleol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Roedd y gwaith wedi rhedeg yn hwyr yn ystod y cyfnod adeiladu a'r costau wedi cynyddu, yn bennaf o ganlyniad i broblemau a oedd yn gysylltiedig â phydredd sych a tho'r adeilad. Talwyd y costau uwch hyn drwy gyfraniadau ychwanegol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a'r hen WDA. Ar ôl trefnu'n wreiddiol i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau erbyn diwedd Ionawr 2006, fe'i gorffennwyd ar ddiwedd Ebrill 2006, mewn pryd ar gyfer y digwyddiadau a oedd wedi'u trefnu ar gyfer y Pasg.

## Astudiaeth Achos G: Theatr Mwldan, Aberteifi

Sefydlwyd cwmni Theatr Mwldan yn 1992. Mae'n dal safle'r theatr ar brydles hir gan Gyngor Sir Ceredigion ac mae'n berchen ar yr adeilad sy'n gartref i'r ganolfan gyfryngau. Yn 1998, bu cais cychwynnol i Gyngor y Celfyddydau am gyllid ar gyfer prosiect yn aflwyddiannus. Ar ôl cael £27,000 o gyllid i ddatblygu prosiect gan Gyngor y Celfyddydau, datblygodd Theatr Mwldan gynllun wedyn i ddenu cyllid Ewropeaidd drwy sefydlu canolfan ar gyfer diwydiannau creadigol ar y safle i hybu datblygiad yr economi leol. Amcan y prosiect diwygiedig oedd datblygu Theatr Mwldan yn 'ganolbwynt creadigol', a hynny'n cynnwys ehangu ac adnewyddu'r theatr (gan adeiladu ail awditoriwm newydd), addasu ac adnewyddu adeiladau cyfagos i wneud canolfan gyfryngau newydd i unigolion a busnesau creadigol, a gwelliannau o ran y mynediad ar ffyrdd a mannau parcio ceir. Yr amcangyfrif o gyfanswm y costau oedd £6.4 miliwn, ac roedd cyfraniadau sylweddol i ddod oddi wrth Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, Cyngor y Celfyddydau, Cyngor Sir Ceredigion a'r hen WDA. Rhoddodd Cyngor y Celfyddydau £1.6 miliwn i Theatr Mwldan tuag at y prosiect (25 y cant o'r costau amcangyfrifedig) yn Rhagfyr 2000. Cymerwyd dwy flynedd i sicrhau gweddill y pecyn ariannu, ac roedd Theatr Mwldan wedi cael bod y broses yn anodd ac yn hir. Ym Mehefin 2002, ar ôl cael tendrau am y contract i godi'r adeilad, cafwyd bod y gyllideb wreiddiol yn annigonol. Rhoddodd Cyngor y Celfyddydau grant atodol o £600,000 i Theatr Mwldan ym Mehefin 2002 tuag at y cynnydd hwn yn y costau amcangyfrifedig. Ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu, rhoddodd Cyngor y Celfyddydau swm ychwanegol o £135,000 tuag at dalu costau uwch na'r disgwyl ym Mai 2004, fel bod cyfanswm ei gyfraniad yn £2.3 miliwn, un rhan o dair o'r cyfanswm terfynol o £6.9 miliwn ar gyfer y prosiect. Mae Cyngor y Celfyddydau yn rhoi cymorth ariannol i Theatr Mwldan hefyd drwy ei raglen Y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd.

cyfnod adeiladu, roedd y prif bartneriaid ariannu (Cyngor y Celfyddydau, yr hen WDA, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf) wedi dal i ymwneud â'r prosiect ac wedi parhau â'u hymrwymiad a'u cefnogaeth iddo, dros gyfnod o bum mlynedd, i sicrhau ei fod wedi'i gwblhau'n llwyddiannus erbyn Ebrill 2006. Serch hynny, roedd Valleys Kids (y corff a ymgeisiodd am grant) wedi cael bod y gwahanol brosesau a gweithdrefnau a oedd gan brif bartneriaid ariannu'r prosiect yn ymestynnol, yn enwedig mewn cysylltiad â dyblygu gwaith wrth wneud ceisiadau am grantiau cyfalaf a chael taliadau grant rheolaidd yn ystod cyfnod adeiladu'r prosiect.

**1.21** Yn achos Theatr Mwldan (Astudiaeth Achos G), er bod y ganolfan gelfyddydau wedi'i chael yn anodd cael ei chydnabod yn ganolfan strategol bwysig a denu cyllid cyfalaf ar gyfer y prosiect ar y dechrau, cafodd y prosiect ei ailddiffinio er mwyn iddo fod yn fwy atyniadol i ystod ehangach o gyrff ariannu. Daeth y theatr newydd, yr oriel newydd (Oriel Mwldan), sinema wedi'i hadnewyddu,

### Astudiaeth Achos H: Theatr y Torch, Aberdaugleddau

Mae Cwmni Theatr y Torch yn gorff sefydledig, ac mae adeilad y theatr yn cynnig llwyfan ar gyfer dramâu, operâu, cerddoriaeth, dawns a sinema. Yn Ebrill 2002, rhoddodd Cyngor y Celfyddydau grant cyfalaf o £36,000 i Theatr y Torch tuag at gyllid datblygu i adolygu anghenion cyfalaf y theatr yn drwyadl. Yng Ngorffennaf 2004, rhoddodd Cyngor y Celfyddydau grant cyfalaf Loteri o £2.75 miliwn tuag at brosiect ac iddo gost amcangyfrifedig o £5 miliwn i uwchraddio ac ehangu'r adeilad ac i brynu cyfarpar. Yn ogystal ag adnewyddu'r adeilad, roedd y prosiect yn darparu ar gyfer ychwanegu ail awditoriwm, gwella'r sinema, cyfleusterau newydd i grwpiau celfyddydol cymunedol, oriel, cyfleusterau cynadledda, a gwell mynediad i bobl anabl. Darparodd Cyngor y Celfyddydau grant o £15,000 hefyd dan ei gynllun meithrin gallu i alluogi Theatr y Torch i benodi swyddog codi arian proffesiynol ar gyfer y prosiect. Roedd Theatr y Torch wedi ymgeisio hefyd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru am gymorth yn 2003 ond, ar ôl arwyddion ar y dechrau y byddai rhywfaint o gyllid Ewropeaidd ar gael i'r prosiect, gwrthodwyd ei chais ar y sail nad oedd Cyngor y Celfyddydau wedi cadarnhau bryd hynny a fyddai cyllid cyfalaf y Loteri ar gael ar gyfer y prosiect. Wedi i Gyngor y Celfyddydau roi grant o £2.7 miliwn iddi, ymgeisiodd Theatr y Torch eto i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, yn Awst 2004, am £2 filiwn o gyllid partneriaeth tuag at y prosiect. Yng Ngorffennaf 2005, gwrthododd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru gais Theatr y Torch unwaith eto. Erbyn hynny, roedd yr amcangyfrif o gyfanswm costau'r prosiect wedi codi i £5.4 miliwn, yn bennaf o ganlyniad i gynnydd mewn costau oherwydd yr oedi cyn cychwyn y prosiect. Ym mis Medi 2005, rhoddodd Cyngor y Celfyddydau grant cyfalaf ychwanegol o £1.75 miliwn tuag at y prosiect, a oedd ar gael am fod prosiectau eraill yn y rhaglen gyfalaf wedi methu â mynd ymlaen, fel ei fod wedi cyfrannu cyfanswm o £4.5 miliwn. Yng ngolwg pwysigrwydd strategol Theatr y Torch, cyfrannodd Cyngor y Celfyddydau gyllid hefyd ar gyfer y theatr dan ei raglen Y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd, a oedd wedi'i hariannu drwy grant gan Lywodraeth y Cynulliad, a dan ei raglen cynaliadwyedd, i helpu i feithrin gallu.

a chanolfan amlgyfrwng (Creative Mwldan Creadigol) ar gyfer busnesau celfyddydol creadigol bach, yn weithredol yn raddol rhwng Ionawr a Mehefin 2004.

**1.22** Un enghraifft sy'n dangos yr anawsterau a geir wrth greu a chynnal partneriaeth ariannu yw Theatr y Torch, Aberdaugleddau (Astudiaeth Achos H). Cysylltodd y Theatr â Chyngor y Celfyddydau a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru gan geisio cyllid ar gyfer y rhan fwyaf o'r costau amcangyfrifedig, i gyd-fynd â chymorth ariannol arall gan yr hen Fwrdd Croeso Cymru a throsglwyddo tir gan yr awdurdod lleol, Cyngor Sir Benfro. Er bod arwyddion pendant ar y dechrau y byddai cyllid Ewropeaidd ar gael ar gyfer y prosiect, ac ar ôl cyflwyno dau gais ar ôl ei gilydd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a chyfnod maith yn disgwyl penderfyniad, ni chafwyd unrhyw gyllid Ewropeaidd yn y diwedd. Wedi hynny rhoddodd Cyngor y Celfyddydau a Llywodraeth y Cynulliad gyllid ychwanegol i'r prosiect, yng ngolwg ei bwysigrwydd strategol ar gyfer datblygu celfyddydau perfformio yng Nghymru. Drwy hynny, roedd modd cychwyn ar waith adnewyddu helaeth ym mis Tachwedd 2006. Un enghraifft arall yw Ffotogallery (Astudiaeth Achos L), y dyfarnwyd £2.4 miliwn iddo gan Gyngor y Celfyddydau yn Ebrill 2003 tuag at greu Canolfan Ffotograffiaeth Genedlaethol yng Nghymru, ond sydd wedi profi anawsterau sylweddol wrth sicrhau cyllid partneriaeth ar gyfer y prosiect, sy'n werth mwy na £4 miliwn ac sydd i'w leoli ym Mharc Margam ger Port Talbot, fel nad yw'r gwaith adeiladu wedi dechrau eto.

**Byddai defnydd ehangach o gytundebau strategol gyda'r holl bartneriaid ariannu allweddol yn gymorth i wella'r cydweithredu a'r cydgysylltu wrth roi prosiectau cyfalaf ar waith**

**1.23** Ers mis Gorffennaf 2005, bu cytundeb partneriaeth strategol rhwng Cyngor y Celfyddydau a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Amcan y cytundeb hwn yw hwyluso cydgysylltu strategol mwy cyson ag awdurdodau lleol a chynnig fframwaith ar



*Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth*
*Ffynhonnell: Cyngor Celfyddydau Cymru*

gyfer cydweithio, yn enwedig i gryfhau'r ddadl dros fuddsoddi mewn diwylliant a'r celfyddydau fel modd i ysgogi newid economaidd a chymdeithasol. Mae gan Gyngor y Celfyddydau gynrychiolwyr hefyd o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ar ei dri Phwyllgor Rhanbarthol i'w helpu i gynllunio a llunio ei strategaethau celfyddydau rhanbarthol ei hun. Er hynny, mae cryn amrywiad yn y cysylltiadau sydd rhwng Cyngor y Celfyddydau ac awdurdodau lleol unigol yng Nghymru ynghylch buddsoddiadau cyfalaf yn y celfyddydau. Mae gwahaniaethau hefyd rhwng lefelau'r buddsoddi gan awdurdodau lleol mewn cyfleusterau a rhaglenni celfyddydol, yn wyneb y cystadlu rhwng gwahanol flaenoriaethau am adnoddau ariannol[11] a'r ffaith bod buddsoddi mewn darpariaeth i'r celfyddydau'n fater i ddisgresiwn awdurdodau lleol.

**1.24** Yn yr adroddiad am yr Adolygiad o'r Celfyddydau yng Nghymru, argymhellwyd[12] y dylai Cyngor y Celfyddydau ddatblygu partneriaethau strategol gyda chonsortia o awdurdodau lleol, er mwyn ehangu a ffurfioli'r trefniadau presennol hyn ac y dylai ystyried mabwysiadu'r partneriaethau newydd yn lle'r Pwyllgorau Rhanbarthol presennol ar adeg briodol. O'i rhan hi, byddai Swyddfa Archwilio Cymru o blaid unrhyw gynllun i wella'r cydgysylltu a'r cydweithredu strategol rhwng Cyngor y Celfyddydau ac awdurdodau lleol yng Nghymru a allai arwain at gyflenwi mwy effeithiol ac effeithlon ar brosiectau cyfalaf mawr sydd wedi'u hariannu gan Gyngor y Celfyddydau ac sy'n cynnwys awdurdodau lleol. Mae perthynas Cyngor y Celfyddydau ag awdurdodau lleol yng Nghymru'n arbennig o bwysig oherwydd gall awdurdodau lleol fod yn gleientiaid ac yn bartneriaid i Gyngor y Celfyddydau mewn cysylltiad â phrosiectau cyfalaf mawr.

**1.25** Gyda golwg ar bartneriaid ariannu heblaw awdurdodau lleol, bu cytundebau yn y gorffennol rhwng Cyngor y Celfyddydau a rhai cyrff cyhoeddus ar gydweithredu strategol ac mae'n ceisio datblygu cytundebau newydd ar gyfer y dyfodol. Mae'r rhain yn ymwneud â sectorau ac is-raglenni penodol, fel honno ar gyfer datblygu diwydiannau creadigol (y gwnaed cytundeb arni gyda'r hen WDA) neu dwristiaeth ddiwylliannol (y mae'n bosibl y ceir cytundeb arni gyda Croeso Cymru, sef Bwrdd Croeso Cymru gynt). Fodd bynnag, nid oes gan Gyngor y Celfyddydau unrhyw femorandwm cyd-ddealltwriaeth, concordat na math arall o gytundeb cyffredinol ar gydweithredu strategol gyda phartneriaid ariannu pwysig fel Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, yr hen WDA a'r hen Fwrdd Croeso Cymru, sydd ill tri bellach yn rhan o Lywodraeth y Cynulliad.

11 Adroddiadau Cryno Astudiaethau Gwella, Swyddfa Archwilio Cymru, Mawrth 2006, tudalennau 9-13

12 Cyrchddull Allwedd Ddeuol Datblygiad Strategol y Celfyddydau yng Nghymru, yr Adolygiad o'r Celfyddydau yng Nghymru, Tachwedd 2006, paragraffau 1.39, 5.2 a 5.12

**1.26** Er mwyn hwyluso gwell cydweithio, byddem yn gweld gwerth mewn gwneud cytundeb partneriaeth strategol rhwng Cyngor y Celfyddydau a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn benodol, gan mai un o amcanion trawsbynciol Cyngor y Celfyddydau ar gyfer ei raglen gyfalaf yw ceisio amlhau'r cyfleoedd i ddenu cyllid Ewropeaidd. Byddai hyn yn ychwanegol at fframwaith polisi ac adnoddau Cyngor y Celfyddydau mewn cysylltiad â Llywodraeth y Cynulliad ac yn gydategol iddo. Nodwn fod Cyngor y Celfyddydau wedi cymryd camau eisoes yn ystod 2006-2007 i hyrwyddo ei gysylltiadau strategol a gweithredol gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

**1.27** Ar lefel y prosiect unigol, bydd pob corff ariannu'n cymryd camau'n annibynnol i graffu ar statws cyfreithiol a hyfywedd ariannol yr ymgeisydd, ar addasrwydd y prosiect arfaethedig yn ôl cynlluniau strategol lleol a chenedlaethol, ac ar resymoldeb costau'r prosiect. Er inni gael yn aml fod cyrff ariannu'n ymgynghori â'i gilydd ynghylch materion fel argaeledd arian cyfatebol, y flaenoriaeth yr oedd partneriaid yn ei rhoi ar y prosiect ac ystyriaethau o ran amseru, nid oeddent fel arfer yn rhannu canlyniadau eu harfarniadau o brosiectau a'u hasesiadau o risgiau prosiectau ymysg ei gilydd.

**1.28** Yn ein cyfweliadau â swyddogion yn y cyrff sy'n brif bartneriaid i Gyngor y Celfyddydau (Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a'r hen WDA) gwelwyd bod consensws bod lle i wella o ran gweithio ar y cyd ac, yn benodol, o ran rhannu mwy o wybodaeth sylfaenol ymysg partneriaid ariannu am y cyrff a oedd yn ymgeisio, ac am ganlyniadau arfarniadau o brosiectau. Yn ein barn ni, nid yw gwahanol amcanion a blaenoriaethau'r gwahanol gyrff ariannu'n achosi rhwystr rhag cydweithredu; gallant ategu ei gilydd a gwella'r datblygu ac asesu ar brosiectau unigol. Dywedwyd wrthym gan swyddogion yng Nghyngor y Celfyddydau ac yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn benodol y byddent yn falch o gael cysylltiadau mwy clòs â'i gilydd ar brosiectau penodol y maent yn eu hariannu ar y cyd.

**1.29** O ran cleientiaid Cyngor y Celfyddydau (ymgeiswyr am grantiau cyfalaf mawr), mae gwahanol amcanion, blaenoriaethau a gweithdrefnau'r gwahanol gyrff ariannu'n golygu cryn ymdrech iddynt a rhywfaint o ddyblygu gwaith wrth gyflwyno ceisiadau am gyllid ar gyfer prosiectau. Yn ogystal â hynny, mae'r gwahanol amserlenni ar gyfer ystyried cyflwyniadau ar gyfer grantiau'n gallu creu problemau i ymgeiswyr am grant wrth sicrhau arian cyfatebol yn y lle cyntaf, ac mae oedi ar ran cyrff ariannu wrth ddelio â cheisiadau'n gallu creu problemau i gyrff sy'n ymgeisio wrth iddynt reoli eu llif arian. Fel y gellid disgwyl, cawsom y byddai cyrff sy'n ymgeisio am grantiau'n hoffi gweld mwy o gysondeb rhwng ffurflenni cais am gyllid a gofynion trefniadol y prif gyrff ariannu.

**1.30** Yn ein barn ni, mae prosiectau mawr yn cael budd o ddynodi un corff yn glir yn gorff arweiniol. Cawsom fod partneriaid ariannu Cyngor y Celfyddydau a'i gleientiaid yn ei ystyried yn bartner effeithlon ac effeithiol at ei gilydd mewn cysylltiad â datblygu a gweithredu prosiectau cyfalaf mawr. Yn achos y prosiectau hynny sy'n ymwneud â'r celfyddydau'n bennaf, felly, Cyngor y Celfyddydau yw'r corff arweiniol naturiol; er y gellid cael adegau pan fydd ffactorau penodol yn awgrymu y dylai corff arall arwain, er enghraifft, os mai datblygu economaidd yw'r budd pennaf a geisir o brosiect cyfalaf mawr, neu os yw'r swm o gyllid cyfalaf y mae Cyngor y Celfyddydau yn ei gyfrannu'n gymharol fach.



1.31 Pe byddai Cyngor y Celfyddydau yn mabwysiadu rôl arweiniol fel hyn, mae'n bosibl y byddai cyrff ariannu eraill yn gallu elwa o hynny drwy allu dibynnu'n fwy ffurfiol a systematig ar waith Cyngor y Celfyddydau a'i ymgynghorwyr proffesiynol wrth reoli eu priod raglenni ac wrth wneud eu hasesiadau eu hun o brosiectau. Byddai hefyd yn fanteisiol i gleientiaid Cyngor y Celfyddydau drwy leihau'r baich gweinyddol sydd arnynt wrth ddelio â gwahanol gyrff a'u helpu i reoli eu prosiectau eu hun. Er mwyn i Gyngor y Celfyddydau ymgymryd â rôl arweiniol ddynodedig o'r fath mewn cysylltiad â phrosiectau celfyddydol, byddai angen cael cymeradwyaeth gan Lywodraeth y Cynulliad a chytundeb y partneriaid ariannu.

## Mae Cyngor y Celfyddydau yn defnyddio prosesau cadarn i asesu rhinweddau prosiectau cyfalaf mawr


### Mae gan Gyngor y Celfyddydau brosesau sefydledig i asesu cynigion ar gyfer prosiectau mawr sydd ar gael yn rhwydd i ymgeiswyr ac yn eglur iddynt

1.32 Mae Llywodraeth y Cynulliad a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn mynnu bod gan Gyngor y Celfyddydau brosesau sefydledig i asesu cynigion ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr. Mae crynodeb yn Ffigur 3 o brif brosesau a gweithdrefnau Cyngor y Celfyddydau ar gyfer asesu rhinweddau cynigion ar gyfer prosiectau, o ran eu pwysigrwydd strategol, eu buddion gweithredol a'u hansawdd pensaernïol (paragraffau 1.35-1.41 isod), ac ar gyfer asesu hyfywedd ariannol a gallu'r cyrff sy'n ymgeisio (paragraffau 2.13-2.19 yn yr adroddiad hwn). Mae gwahanol ddulliau o brosesu ceisiadau am grant yn ôl gwerth y grant a geisir. Mae rolau diffiniedig i Uned Gyfalaf ganolog Cyngor y Celfyddydau, ei swyddfeydd rhanbarthol a'i Bwyllgor Cyfalaf yn y broses ar gyfer asesu cynigion ar gyfer prosiectau a chânt gymorth, lle y bo'n briodol, gan gynghorwyr allanol proffesiynol.

1.33 Mae Cyngor y Celfyddydau yn rhoi arweiniad clir a chryno i ymgeiswyr am gyllid cyfalaf i brosiectau sy'n nodi'r amcanion a'r blaenoriaethau ar gyfer ei raglen gyfalaf, dibenion ei grantiau cyfalaf, y mathau o grantiau cyfalaf sydd ar gael, a'i feini prawf ar gyfer asesu prosiectau. Mae'r arweiniad yn datgan yn glir y bydd Cyngor y Celfyddydau yn rhoi blaenoriaeth i geisiadau sy'n cydweddu â'i strategaeth ac sy'n rhai gan gyrff sydd â hanes o lwyddiant a sefyllfa ariannol gadarn. Mewn cyfweliadau â chynrychiolwyr yn y cyrff celfyddydol yr ymwelodd Swyddfa Archwilio Cymru â hwy, cafwyd bod ymgeiswyr am grantiau'n deall gweithdrefnau ymgeisio Cyngor y Celfyddydau a'i feini prawf ar gyfer asesu prosiectau.

1.34 Cawsom hefyd fod y cyrff hyn gan mwyaf yn gwerthfawrogi'r cymorth a gawsant gan swyddogion yn Uned Gyfalaf ganolog Cyngor y Celfyddydau i'w helpu i wella eu diffiniad o gwmpas eu cynigion ar gyfer prosiectau ac wrth ddelio â phecynnau ariannu prosiectau. Mae Cyngor y Celfyddydau yn cymell rhai sy'n ymgeisio am grantiau cyfalaf mawr i gysylltu â chyrff tebyg eraill yng Nghymru sydd wedi mynd drwy'r broses o ymgeisio am gyllid cyfalaf a rheoli'r gwaith o ddatblygu ac adeiladu eu prosiectau eu hun. Y farn a gafwyd yn gyson gan rai a gyfwelwyd yn y cyrff yr oeddem wedi ymweld â hwy, er eu bod yn croesawu'r cyllid cyfalaf a gawsant ar

**Ffigur 3: Mae gan Gyngor y Celfyddydau brosesau sefydledig ar gyfer asesu ceisiadau am gyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*



**Ffigur 4: Mae meini prawf Cyngor y Celfyddydau ar gyfer asesu prosiectau cyfalaf yn ymdrin ag ystod eang o ffactorau**

| | |
|---|---|
| 1 | eu cyfraniad at gyrraedd nodau strategol Cyngor y Celfyddydau |
| 2 | prawf o'u budd i bobl Cymru ac ansawdd y gweithgareddau celfyddydol a chyfranogi |
| 3 | cyfleoedd i bobl sydd ag anableddau |
| 4 | safon y gwaith dylunio ac adeiladu |
| 5 | cynaliadwyedd amgylcheddol, gan gynnwys deunyddiau adeiladu, effeithlonrwydd ynni ac ystyriaethau o ran trafnidiaeth |
| 6 | swm y cyllid o ffynonellau heblaw Cyngor y Celfyddydau |
| 7 | sefydlogrwydd ariannol, gan gynnwys y gallu i gwrdd ag unrhyw gostau rhedeg yn y dyfodol |
| 8 | cynlluniau marchnata da |
| 9 | y gweithgareddau addysgol ac allanol sydd wedi'u cynnig |
| 10 | gallu a strwythur rheoli i gwblhau'r prosiect yn llwyddiannus |
| 11 | asesu a chofnodi risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosiect a datblygu strategaeth addas i reoli risgiau |

*Ffynhonnell: Cyngor Celfyddydau Cymru, Mai 2006*[13]

gyfer eu prosiectau, oedd bod y profiad o reoli'r gwaith datblygu ac adeiladu manwl wedi bod yn ymestynnol at ei gilydd ac wedi bod yn dreth ar sgiliau trefnu ac adnoddau. Yn ein barn ni, mae cyfle i Gyngor y Celfyddydau fod yn fwy rhagweithiol wrth hwyluso mentora rhwng y rhai sy'n ymgeisio am grantiau a'r rhai sy'n eu derbyn mewn cysylltiad â phrosiectau cyfalaf mawr, er enghraifft, drwy gynnal seminarau cenedlaethol neu ranbarthol ar faterion sy'n ymwneud â phrosiectau cyfalaf a chyllid cyfalaf. Byddai hyn o gymorth i wella'r trosglwyddo ar brofiad a gwybodaeth o fewn y sector mewn cysylltiad ag ymgeisio am grantiau cyfalaf, rheoli prosiectau cyfalaf a pharhau â gweithgarwch celfyddydol mewn canolfannau newydd a rhai sydd wedi'u gwella neu eu hadnewyddu.

## Mae Cyngor y Celfyddydau yn asesu rhinweddau cynigion ar gyfer prosiectau mewn modd systematig a chyson, gan ystyried eu pwysigrwydd strategol, eu budd o ran gweithgarwch celfyddydol a'u hansawdd pensaernïol

**1.35** Mae gan Gyngor y Celfyddydau feini prawf clir ar gyfer asesu ceisiadau am grantiau cyfalaf ar gyfer prosiectau sylweddol sy'n ymwneud â chodi ac adnewyddu adeiladau. Mae'r meini prawf hyn, sydd wedi'u nodi yn Ffigur 4, yn cwmpasu ystod eang o ffactorau. Ymysg y meini prawf mae nifer a ddefnyddir i asesu rhinweddau prosiectau unigol (Ffigur 4, meini prawf 1-5 a 9) ac eraill a ddefnyddir i asesu hyfywedd ariannol prosiectau unigol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hwy (Ffigur 4, meini prawf 6-8, 10 ac 11). Yn yr adran hon o'r adroddiad canolbwyntir ar y modd y mae Cyngor y Celfyddydau yn defnyddio ei feini prawf i asesu rhinweddau neu ansawdd cynigion ar gyfer prosiectau. Ystyrir y modd y mae Cyngor y Celfyddydau yn asesu hyfywedd ariannol cynigion ar gyfer prosiectau a risgiau sy'n gysylltiedig â hwy yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn.

13 Gwybodaeth am Grantiau Loteri Cyfalaf, Cyngor Celfyddydau Cymru, Mai 2006

1.36 Uned Gyfalaf Cyngor y Celfyddydau sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros drafod ceisiadau am grantiau cyfalaf ac adolygu eu cymhwysedd. Mae Cyngor y Celfyddydau yn mynnu y bydd yr holl ymgeiswyr am grantiau o fwy na £50,000 yn cofrestru eu prosiectau ar ffurf amlinellol, cyn gwneud cais ffurfiol am grant, fel y gall ei Uned Gyfalaf sgrinio ceisiadau posibl am eu rhinweddau yn ôl amcanion y rhaglen. Wrth i gyrff ddatblygu eu cynigion ar gyfer prosiectau'n fwy manwl, cânt gyflwyno ceisiadau olynol i Gyngor y Celfyddydau am gyllid prosiect a chael grantiau cyfalaf tuag at ddatblygu'r prosiect (gweler ymhellach baragraffau 2.7-2.12).

1.37 Mae'r Uned Gyfalaf yn asesu cynigion ymgeiswyr wrth iddynt eu datblygu yn ôl tri maen prawf allweddol: pa mor dda y maent yn cydweddu â nodau strategol Cyngor y Celfyddydau; eu buddion o ran ansawdd y gweithgarwch celfyddydol a chyfranogi; ac ansawdd eu gwaith dylunio ac adeiladu, gan gynnwys ei addasrwydd. Mae meini prawf eilaidd ar agweddau ar gynigion ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud ag ansawdd sy'n ymdrin â chyfleoedd i bobl anabl, materion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd amgylcheddol, a gweithgareddau addysgol ac allanol. Wrth asesu rhinweddau ceisiadau am grantiau cyfalaf mawr, bydd yr Uned Gyfalaf yn cydgysylltu'n fewnol â chydweithwyr yn nhair swyddfa ranbarthol Cyngor y Celfyddydau ynghylch y cais a bydd y Cyfarwyddwr Rhanbarthol perthnasol yn rhoi asesiad ffurfiol o'r prosiect, sut mae'n cydweddu â'r strategaeth ranbarthol, rhaglenni rhanbarthol a phrosiectau eraill ar gyfer datblygu'r celfyddydau yn y rhanbarth.

1.38 Mae'r Uned Gyfalaf hefyd yn defnyddio gwasanaethau aseswyr allanol proffesiynol, fel penseiri a syrfewyr meintiau, i gael sylwadau am rinweddau cynigion ar gyfer prosiectau penodol a manylebau prosiectau, os yw hynny'n briodol. Bydd yr asesiad pensaernïol allanol proffesiynol yn ymdrin ag ansawdd ac addasrwydd y gwaith adeiladu arfaethedig. Ar gyfer 2006-2007, cyfanswm y gost i Gyngor y Celfyddydau am asesiadau pensaernïol allanol o brosiectau cyfalaf penodol oedd £7,600.

1.39 Mae pob prosiect yn wahanol, ac iddo rinweddau a risgiau gwahanol, a gwahaniaethau o ran atebion, costau amcanestynedig a gofynion ariannu. Mae'r Uned Gyfalaf yn rhoi sgôr ar gyfer meini prawf unigol ac ni roddir unrhyw bwysoliad cymharol ar unrhyw faen prawf penodol. Cawsom fod swyddogion yr Uned Gyfalaf yn mynd ati mewn modd cytbwys i wneud argymhelliad ar brosiectau unigol, cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyfalaf i'w adolygu ac i benderfynu arno. Ar sail ein dadansoddiad o sampl o 15 o brosiectau ac adolygiad o ddogfennau perthnasol, cawsom fod swyddogion Cyngor y Celfyddydau wedi cymhwyso'r meini prawf ar gyfer asesu mewn modd cyson at wahanol brosiectau. Cawsom hefyd fod swyddogion Cyngor y Celfyddydau yn dogfennu'r defnydd o feini prawf ar gyfer arfarnu mewn modd systematig yn ystod y broses asesu prosiectau.

1.40 Ar sail ein harchwiliad manwl o 15 o brosiectau (Atodiad 2) a'n hadolygiad o bapurau'r Pwyllgor Cyfalaf ar gyfer y pum mlynedd rhwng 2002 a 2006, cawsom fod y Pwyllgor Cyfalaf wedi delio'n gyson â cheisiadau, o'u cymharu â cheisiadau eraill o natur debyg a hefyd o'u cymharu â cheisiadau graddol ac olynol a oedd yn



**Ffigur 5: Awgrym ar gyfer categorïau asesu a meini prawf allweddol ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr**

1 Ansawdd: cydweddiad strategol, effaith gymunedol a dyluniad yr adeilad ac adeiladu

- ei gyfraniad at gyflawni amcanion a blaenoriaethau strategol Cyngor y Celfyddydau
- ei fudd i'r gymuned a'i effaith arni
- cydraddoldeb mynediad a chyfranogiad (gan gynnwys cyfleoedd i bobl sydd ag anableddau)
- safon y gweithgarwch celfyddydol (gan gynnwys gweithgareddau addysgol ac allanol)
- addasrwydd y cynigion ar gyfer adeiladu
- safon y gwaith dylunio ac adeiladu
- cynaliadwyedd amgylcheddol y cyfleuster (ee, deunyddiau, effeithlonrwydd ynni ac ystyriaethau o ran trafnidiaeth).

2 Hyfywedd: iechyd ariannol a gallu'r ymgeisydd

- y cyllid y mae angen ei gael o ffynonellau heblaw Cyngor y Celfyddydau
- iechyd ariannol y corff sy'n ymgeisio
- gallu'r corff sy'n ymgeisio i gwrdd â'r costau rhedeg amcanestynedig yn y dyfodol
- gallu rheoli'r corff sy'n ymgeisio
- cadernid cynlluniau'r ymgeisydd ar gyfer asesu risg a rheoli risg
- asesiad o'r rheoli ar y prosiect a'r contractwr adeiladu
- cadernid y cynlluniau marchnata

ymwneud â'r un prosiect. Cawsom fod y Pwyllgor Cyfalaf wedi adolygu a herio'r asesu a'r sgorio a wnaed gan swyddogion Cyngor y Celfyddydau a'i gynghorwyr proffesiynol allanol cyn gwneud ei benderfyniad neu, yn achos symiau o fwy na £250,000, cyn gwneud argymhelliad ar gyfer penderfyniad gan y Cyngor llawn (corff llywodraethu Cyngor y Celfyddydau). Cawsom hefyd fod trafodaethau a phenderfyniadau allweddol wedi'u dogfennu'n glir.

**1.41** Mae Cyngor y Celfyddydau wedi datblygu ei feini prawf ar gyfer asesu prosiectau dros y blynyddoedd diwethaf yng ngoleuni arferion da sy'n cael eu cydnabod yn gyffredinol, ac mae'n dal i'w mireinio mewn ymateb i ddatblygiadau newydd. Er enghraifft, cafodd y maen prawf ar 'gynaliadwyedd amgylcheddol' ei ddynodi'n benodol ac ar wahân yn 2006, wedi iddo fod yn elfen cyn hynny yn y maen prawf cyffredinol ar 'safon gwaith dylunio ac adeiladu'. Yn ein barn ni, mae cyfle i fireinio dull gweithredu Cyngor y Celfyddydau ymhellach drwy drefnu ei feini prawf yn ddau brif gategori i ddibenion asesu prosiectau ac is-rannu neu gyfuno ymhellach rai o'r meini prawf presennol ar gyfer asesu (gweler Ffigur 5). Byddai hyn yn galluogi Cyngor y Celfyddydau i asesu'r risgiau a'r manteision sydd yngl^yn â materion 'ansawdd' (cydweddiad strategol ac effaith gymunedol) a 'hyfywedd' (iechyd ariannol a gallu trefniadol) ar wahân cyn ffurfio gwerthusiad cyffredinol o'r prosiect.

## Yng ngoleuni ei brofiad, mae Cyngor y Celfyddydau wedi newid rhai o bolisïau a phrosesau'r rhaglen i wella effeithiolrwydd

**1.42** Mae Cyngor y Celfyddydau yn monitro prosiectau'n ffurfiol ac yn adolygu effeithiolrwydd ei raglen gyfalaf yn rheolaidd. Mae hyn yn ei alluogi i wella ei bolisïau a'i brosesau er mwyn targedu ei adnoddau cyfalaf yn well a sicrhau mwy o effaith o'i fuddsoddi mewn prosiectau celfyddydol. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Cyngor y Celfyddydau wedi gwneud y newidiadau canlynol ym mholisïau a phrosesau ei raglen:

- Cafwyd bod grantiau cyfalaf i ganolfannau aml-ddefnydd, fel canolfannau cymunedol, neuaddau pentref a neuaddau eglwys, wedi cynnig gwerth cymharol wael am arian, gan fod gweithgarwch celfyddydol yn tueddu i fethu gan golli tir i weithgarwch o fath arall. Yn 2005, ar ôl adolygu'r canlyniadau o fonitro systematig ar brosiectau cyfalaf, cytunodd Pwyllgor Cyfalaf Cyngor y Celfyddydau i fabwysiadu dull mwy caeth o ystyried a dyfarnu grantiau i'r canolfannau hyn. Mae Cyngor y Celfyddydau bellach yn rhoi blaenoriaeth i ganolfannau sydd â hanes o gynnal gweithgareddau'n llwyddiannus ac sy'n cael eu rheoli'n dda, er nad yw'n dymuno diystyru unrhyw ymgeisydd sydd â chynnig sy'n ymddangos yn addawol.

- Cafwyd hefyd fod grantiau cyfalaf i ysgolion a chyrff addysgol yn peri anhawster o ran cydymffurfio ag amodau grant dros gyfnod o amser a'r camau ar ôl hynny i adennill grantiau cyfalaf lle mae gweithgareddau celfyddydol wedi prinhau neu fethu yn y canolfannau hyn. Newidiodd Cyngor y Celfyddydau ei ofynion cymhwysedd ar gyfer grantiau cyfalaf ar ôl hynny ac adolygu ei arweiniad i ymgeiswyr am grantiau fel bod ymgeiswyr yn cael eu hysbysu'n llawn am eu rhwymedigaethau tymor hir.

- Mae Celfyddyd Gyhoeddus yn faes blaenoriaethol yn strategaeth gyfalaf Cyngor y Celfyddydau, ond nid oedd yn denu digon o geisiadau am brosiectau celfyddyd gyhoeddus o ansawdd da. Yn 2004, cymerwyd camau gan Gyngor y Celfyddydau i adolygu a diwygio ei ganllawiau ar grantiau cyfalaf drwy ymgynghori â Cywaith Cymru, y corff cenedlaethol ar gyfer celfyddyd gyhoeddus yng Nghymru, a'r asiantaeth adfywio celfyddydau CBAT, i ddenu mwy o geisiadau a rhai o ansawdd gwell.

- Yn 2002, cymerwyd camau gan Gyngor y Celfyddydau i adolygu a thynhau ei bolisi a'i arweiniad ar geisiadau aml gan fandiau pres ac arian traddodiadol ar gyfer grantiau cyfalaf er mwyn prynu offerynnau cerddorol.



# Rhan 2 - Mae gwariant Cyngor y Celfyddydau ar brosiectau mawr yn ei raglen gyfalaf yn cael ei ddiogelu'n ddigonol



*Gweithgaredd yng Nghanolfan Gelfyddydau Aberystwyth*
*Ffynhonnell: Cyngor Celfyddydau Cymru*

**2.1** Er mwyn cydymffurfio â gofynion ariannol ei brif noddwr, Llywodraeth y Cynulliad, a'r rhai gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, mae angen i Gyngor y Celfyddydau sicrhau ei fod yn rheoli gwariant dan ei raglen gyfalaf gan ddal sylw ar egwyddorion priodoldeb a gwerth am arian. Risgiau allweddol i Gyngor y Celfyddydau yw y gallai fethu â rheoli'r graddau y mae'n agored i risgiau ariannol yn ddigonol yn ystod cyfnodau datblygu ac adeiladu prosiectau cyfalaf mawr ac, ar ôl cwblhau prosiectau, y gallai'r cyfleusterau newydd neu gyfleusterau wedi'u gwella ddod ag enillion gwael ar fuddsoddiad cyfalaf Cyngor y Celfyddydau, o ran cael lefelau digonol o weithgarwch celfyddydol i fod yn hyfyw.

**2.2** Yn y rhan hon o'r adroddiad, ystyrir pa mor dda y mae Cyngor y Celfyddydau wrth sicrhau bod ei wariant cyfalaf ar brosiectau mawr ar gyfer codi neu adnewyddu adeiladau'n cael ei ddiogelu'n ddigonol.

## Mae gwariant Cyngor y Celfyddydau ar brosiectau cyfalaf mawr wedi'i seilio ar reoli risgiau

### Mae Cyngor y Celfyddydau yn trefnu ei raglen gyfalaf yng nghyd-destun incwm newidiol ac ansicr o'r Loteri

**2.3** Dros yr wyth mlynedd rhwng 1999-2000 a 2006-2007, mae Cyngor y Celfyddydau wedi gweithredu rhaglen gyfalaf dreigl dair blynedd yn gyntaf ac wedyn un bum mlynedd. Ariannir y rhaglen hon o'i gyfran o arian y Loteri a gaiff dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993, a flaendelir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Yn gyffredinol, mae tua dwy ran o dair o incwm Cyngor y Celfyddydau o'r Loteri yn yr wyth mlynedd rhwng 1999-2000 a 2006-2007 wedi'i roi ar ffurf grantiau cyfalaf, a'r gweddill wedi'i roi ar ffurf grantiau refeniw. Dangosir cyllideb rhaglen gyfalaf Cyngor y Celfyddydau a'r grantiau a'r taliadau a roddodd ar gyfer y cyfnod hwn yn Ffigur 6. Mae cynlluniau gwariant presennol Cyngor y Celfyddydau ar gyfer ei raglen gyfalaf am y pum mlynedd rhwng 2007-2008 a 2011-2012 yn dod i gyfanswm o bron £16 filiwn. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi hysbysu Cyngor y Celfyddydau y bydd y

**Ffigur 6: Cyllideb Cyngor y Celfyddydau ar gyfer ei raglen gyfalaf am y cyfnod rhwng 1999-2000 a 2006-2007 oedd £58 miliwn, mwy na £7 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd**

| Niferoedd i gyd £miliwn | 1999-00 | 2000-01 | 2001-02 | 2002-03 | 2003-04 | 2004-05 | 2005-06 | 2006-07 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb | 9.6 | 6.7 | 8.5 | 10.7 | 6.1 | 7.6 | 3.7 | 5.2 | **58.1** |
| Grantiau wedi'u dyfarnu | 12.9 | 9.6 | 5.3 | 3.4 | 7.4 | 9.1 | 8.7 | 4.5 | **60.9** |
| Taliadau | 4.7 | 5.1 | 4.3 | 7.6 | 11.9 | 8.1 | 5.7 | 6.0 | **53.4** |

*Ffynhonnell: Cyngor Celfyddydau Cymru*

celfyddydau yng Nghymru'n dal i gael cyllid o'r Loteri ar ôl Ionawr 2009 ond oherwydd natur y Loteri ni ellir rhagweld lefel y cyllid hwn gyda sicrwydd.

**2.4** Mewn cymhariaeth â'i gyllideb o £58 miliwn ar gyfer ei raglen gyfalaf yn yr wyth mlynedd rhwng 1999-2000 a 2006-2007 (ychydig dros £7 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd), mae Ffigur 6 yn dangos bod Cyngor y Celfyddydau wedi dyfarnu gwerth bron £61 miliwn o grantiau (£7.6 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd) ac wedi rhoi taliadau i brosiectau o fwy na £53 miliwn (£6.7 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd). Mae'r gwahaniaethau rhwng y ffigurau ar gyfer cyllideb y rhaglen, y grantiau a ddyfarnwyd a'r taliadau grant yn ganlyniad i wahaniaethau o ran amseru sy'n anorfod wrth reoli gwariant ar brosiectau cyfalaf mawr. Mae gwahaniaethau o ran amseru'n codi am amryw o resymau, gan gynnwys:

- mae'n bosibl na fydd cyrff yn cyflwyno ceisiadau ffurfiol am grant i Gyngor y Celfyddydau i'w hystyried fel y bwriadwyd (er enghraifft, am fod arnynt angen mwy o amser i ddatblygu eu cynlluniau a/neu sicrhau cyllid o ffynonellau eraill);
- gall Cyngor y Celfyddydau ddyfarnu grant ymhell cyn y bydd y rhai sy'n derbyn y grant yn tynnu'r arian i lawr (er enghraifft, oherwydd yr angen i ymgeiswyr sicrhau cyllid ychwanegol);
- caiff Cyngor y Celfyddydau ohirio penderfyniadau i ddyfarnu grantiau ar ôl ystyried ceisiadau (er enghraifft, os nad yw'n fodlon ar agweddau ar y cynnig a'i fod yn mynnu y bydd ymgeiswyr yn delio â'r rhain cyn dyfarnu grant);
- ni fydd Cyngor y Celfyddydau yn gwneud taliadau i rai sy'n derbyn grantiau nes bydd y cyrff sy'n eu derbyn wedi cadarnhau'n ffurfiol eu bod yn derbyn y cynnig o grant;
- ni fydd Cyngor y Celfyddydau ond yn prosesu taliadau wedi iddo gael tystiolaeth briodol bod y corff sydd wedi derbyn y grant yn codi gwariant.

**2.5** Yn gyffredinol, y galw ar Gyngor y Celfyddydau am gyllid cyfalaf yn y cyfnod rhwng 1999-2000 a 2006-2007, o'i fesur fel cyfanswm yr arian a geisiwyd gan gyrff celfyddydol, oedd tua £108 miliwn; £50 miliwn (86 y cant) yn fwy na'r £58 miliwn a oedd yng nghyllideb rhaglen gyfalaf Cyngor y Celfyddydau a £47 miliwn (77 y cant) yn fwy na'r £61 miliwn a ddyfarnwyd gan Gyngor y Celfyddydau ar ffurf grantiau cyfalaf dros yr un cyfnod. Mae Cyngor y Celfyddydau o'r farn y bydd sefyllfa lle mae'r galw am gyllid cyfalaf yn fwy o lawer na'r cyflenwad yn debygol o barhau hyd y gellir rhagweld.



**2.6** Mae Cyngor y Celfyddydau yn trefnu cyllideb ei raglen gyfalaf yn gyffredinol drwy roi blaenoriaeth i wariant ar y prosiectau cyfalaf mawr hynny sy'n cydweddu orau ag agenda strategol Cyngor y Celfyddydau ei hun a thrwy ganolbwyntio ar gyrff sy'n ymgeisio sydd â hanes o lwyddiant wrth redeg cyfleusterau i'r celfyddydau. Mae'n trefnu ei gyllideb ar gyfer y rhaglen yn ystod y flwyddyn drwy reoli a monitro'n fanwl y gwariant ar brosiectau cyfalaf mawr cyfredol, drwy gynnwys mwy o brosiectau yn y rhaglen nag y mae cyllid ar eu cyfer er mwyn darparu ar gyfer llithriant o ran yr amser y bydd gwir angen y cyllid ar gyrff sy'n ymgeisio, drwy gadw prosiectau ar restr wrth gefn a thrwy roi cymorth i ddatblygu prosiectau newydd. Mae Cyngor y Celfyddydau hefyd yn adolygu ymrwymiadau ariannu mewn cysylltiad â hen brosiectau fel y gellir ailgylchu cyllid sydd heb ei ddefnyddio mewn mannau eraill yn y rhaglen gyfalaf, ac mae'n ailddyrannu symiau sydd wedi'u hadennill oddi wrth brosiectau sy'n methu â mynd ymlaen a symiau sydd wedi'u hadennill oddi wrth gyrff sy'n methu â chydymffurfio ag amodau grant.

## Mae Cyngor y Celfyddydau yn mabwysiadu dull graddol a chefnogol o ariannu prosiectau cyfalaf mawr

**2.7** Gall gymryd blynyddoedd lawer i ddatblygu a gweithredu prosiectau cyfalaf penodol. Er mwyn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ansicrwydd ynghylch ei ymrwymiadau ariannu wrth i gyrff sy'n ymgeisio ddatblygu cynigion ar gyfer prosiectau, mae Cyngor y Celfyddydau yn mabwysiadu proses raddol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ac adeiladu cyfleusterau i'r celfyddydau. Mae hyn yn golygu y bydd ymgeiswyr yn cofrestru eu prosiectau'n gynnar ac wedyn yn datblygu eu cynigion ar gyfer y prosiect yn raddol yn ôl safonau pensaernïol cydnabyddedig. Bydd Uned Gyfalaf Cyngor y Celfyddydau hefyd yn rhoi cyngor a chymorth yn ôl yr angen i rai sy'n ymgeisio am grantiau ac yn eu derbyn, wrth iddynt ddatblygu prosiectau a'u rhoi ar waith. Pwrpas y broses raddol a'r dull cefnogol a ddefnyddir gan Gyngor y Celfyddydau yw helpu cyrff i wella eu ceisiadau a llwyddo yn y pen draw gyda'u prosiectau, gan geisio diogelu'r cyllid y mae'n ei fuddsoddi drwy gael mwy a mwy o sicrwydd ynghylch costau prosiectau.

**2.8** Os yw corff yn bwriadu ymgeisio i Gyngor y Celfyddydau am grant cyfalaf o fwy na £50,000, mae'n ofynnol iddo gofrestru ei brosiect ar ffurf amlinellol gyda'r Uned Gyfalaf ganolog cyn gwneud cais llawn. Mae hyn yn galluogi Cyngor y Celfyddydau i sgrinio ceisiadau posibl am eu rhinweddau yn ôl blaenoriaethau ei raglen, ac mae hefyd yn caniatáu i'r Uned Gyfalaf ganfod, yn gynnar, unrhyw risgiau ariannol a risgiau o fath arall sy'n codi o natur a maint arfaethedig y prosiectau. Mae hyn, yn ei dro, yn helpu Cyngor y Celfyddydau i reoli'r camau datblygu a'r cyllid ar gyfer prosiectau penodol yn y rhaglen o fewn terfynau'r adnoddau cyfalaf sydd ar gael.

**2.9** Ar ôl cofrestru prosiectau, bydd Uned Gyfalaf Cyngor y Celfyddydau yn ymwneud yn gynnar â dylunio a datblygu'r holl brosiectau cyfalaf mawr sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau, i helpu ymgeiswyr i wella cynigion ar gyfer prosiectau, o ran eu cadernid a'u hymarferoldeb. Drwy roi cyngor a chymorth o'r fath i ymgeiswyr, gellir adnabod a delio â meysydd risg allweddol wrth ddatblygu prosiectau, fel goruchelgais, amcanestyniadau anymarferol o gostau cyfalaf, ffigurau rhy optimistaidd ar gyfer effeithiau costau rhedeg a diffiniadau annelwig o fuddion prosiectau. Cawsom wybod, drwy ein hymweliadau â saith corff celfyddydol (Atodiad 2), fod y cyrff hyn yn ddiolchgar at ei gilydd am y cyngor, y cymorth

a'r gefnogaeth a roddwyd gan swyddogion Uned Gyfalaf Cyngor y Celfyddydau wrth eu helpu i ddatblygu a gweithredu eu cynigion ar gyfer prosiectau. Roedd rhai o'r cyrff yr ymwelwyd â hwy wedi cael bod yr ymyriad cynnar gan Gyngor y Celfyddydau yn ymestynnol ac weithiau'n rhy gyfarwyddol ar y pryd, ond bod y canlyniad yn fuddiol yn y pen draw.

**2.10** Cawsom fod swyddogion Cyngor y Celfyddydau wedi gwneud cofnodion digonol o gamau gweithredu pwysig a oedd yn ymwneud â'u cysylltiad cynnar â'r broses o ddatblygu prosiectau ar ffeiliau prosiect ffurfiol, a bod y camau gweithredu hyn wedi'u nodi'n ffurfiol hefyd yng nghofnodion Pwyllgor Cyfalaf Cyngor y Celfyddydau. Sylwasom, fodd bynnag, nad yw Cyngor y Celfyddydau yn gwerthuso'n ffurfiol yr effaith a geir o'i gysylltiad cynnar â phrosiectau. Yn ein barn ni, byddai gwerthuso o'r fath yn helpu Cyngor y Celfyddydau i ganfod yn gliriach rai testunau pryder cyffredin sy'n codi wrth ddatblygu prosiectau ac yn ei helpu i ddiffinio ei amcanion a'i flaenoriaethau'n well o ran hyrwyddo datblygiad prosiectau cyfalaf mawr.

**2.11** Ar gyfer grantiau cyfalaf mawr o £100,000 neu fwy, mae Cyngor y Celfyddydau yn defnyddio proses ddatblygu prosiectau dri cham, y gellir ei hybu drwy ddyfarnu nifer o grantiau olynol dan y rhaglen gyfalaf. Mae'r broses raddol hon yn cynnig modd i drafod a datrys anawsterau penodol sy'n gysylltiedig â phrosiectau neilltuol wrth ddiffinio a datblygu prosiectau, cyn dechrau ar y gwaith adeiladu neu adnewyddu. Yn gyntaf, mae'n ofynnol i gyrff sy'n ymgeisio ymgymryd ag astudiaeth ddichonoldeb ac arfarniad llawn o'r dewisiadau, yn unol â safon 'cam C' ym mhroses RIBA. Yn achos y prosiectau hynny sy'n ymddangos yn addawol, mae'n ofynnol wedyni ymgeiswyr ddatblygu eu cynlluniau'n unol â safon 'cam D' RIBA, sy'n cynnwys datblygu cynigion pensaernïol manwl, cynllun costau prosiect a chynllun busnes trefniadol. Ar ôl cyrraedd y cam hwn y bydd Cyngor y Celfyddydau yn penderfynu ynghylch rhoi cymeradwyaeth i ddarparu cyllid ar gyfer y gwaith adeiladu arfaethedig. Fodd bynnag, cyn y gall ymgeiswyr ddefnyddio'r arian sydd wedi'i gymeradwyo, mae'n ofynnol iddynt ddatblygu eu cynlluniau at safon 'cam E' RIBA, pryd y ceir mwy o sicrwydd ynghylch dyluniad a chostau'r prosiect a phryd y gellir delio â'r gwelliannau a'r diwygiadau olaf i brosiectau.

**2.12** Os codir pryderon penodol o ganlyniad i'r asesiad 'cam D', caiff Pwyllgor Cyfalaf Cyngor y Celfyddydau ohirio penderfyniadau ynghylch dyfarnu grantiau cyfalaf mawr, fel y caiff ymgeiswyr ddelio â'r rhain cyn rhoi ystyriaeth bellach i ddyfarnu grant dan 'gam E'. O ganlyniad i'r camau a gymerodd i gyflwyno'r gofyniad 'cam D' yn raddol (yn 1999) a'r gofyniad 'cam E' (yn 2003), a'r sicrwydd ychwanegol a gafodd ynghylch costau yn sgîl hynny, mae Cyngor y Celfyddydau wedi llwyddo i sicrhau na cheir bron ddim ceisiadau am grantiau atodol yng nghyfnod adeiladu prosiectau mawr, fel y cafwyd yn achos prosiectau cynharach fel Bayart (Artistiaid Butetown), Caerdydd (Astudiaeth Achos I), a Chanolfan Gelfyddydau Aberystwyth (Astudiaeth Achos J) a Theatr a Chanolfan Gelfyddydau Casnewydd (Astudiaeth Achos Q). Mae Theatr Sherman, Caerdydd (Astudiaeth Achos K) yn enghraifft ddiweddar o brosiect lle mae Cyngor y Celfyddydau wedi mynnu bod yr ymgeisydd yn gwneud mwy o waith ar ei gynigion manwl cyn ystyried dyfarnu grant cyfalaf mawr i adeiladu'r prosiect.



## Astudiaeth Achos I: Stiwdios Artistiaid Butetown ac Oriel Bayart, Caerdydd

Cychwynnodd Artistiaid Butetown yn gyntaf fel grŵp stiwdio yn 1992, mewn adeilad adfeiliedig, Gradd 2 yn Stryd Bute a fu'n gartref i stiwdios artistiaid ers 1979. Yn Hydref 1995 cafodd y grŵp grant cyfalaf o £5,000 gan Gyngor y Celfyddydau tuag at gost astudiaeth ddichonoldeb ar adnewyddu'r adeilad, a grant o £127,000 ar ôl hynny yn 1996 i ddatblygu'r prosiect. Yn 1997 ailsefydlwyd y grŵp artistiaid fel cwmni cyfyngedig drwy warant, gyda'r amcan o ddarparu mannau gweithio sicr a fforddiadwy i'w aelodau ac i ymchwilio i'r posibilrwydd o adnewyddu'r adeilad er mwyn arddangos celfyddyd i'r cyhoedd. Ym mis Gorffennaf 1997 llwyddodd Artistiaid Butetown i sicrhau grant cyfalaf o £664,000 gan Gyngor y Celfyddydau tuag at y costau amcangyfrifedig o £950,000 i adnewyddu a gwella'r adeilad i ddarparu 16 o stiwdios artistiaid ac oriel gelfyddyd newydd. Cafwyd y rhan fwyaf o'r cyllid gan Gyngor y Celfyddydau, a chyfraniadau sylweddol eraill gan Gyngor Dinas Caerdydd, CADW, yr hen Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd a Sefydliad Chwaraeon a'r Celfyddydau. Dechreuwyd ar y gwaith adeiladu yn Ionawr 1998. Erbyn mis Mawrth y flwyddyn honno cododd nifer o broblemau gyda'r prosiect, yn bennaf mewn cysylltiad â darganfod mwy na'r disgwyl o bydredd sych, yr angen am fwy o waith atgyweirio ar y gwaith cerrig nag a ragwelwyd a'r angen am waith ychwanegol ar seiliau'r adeilad. Yn Ionawr 1999 rhoddodd Cyngor y Celfyddydau gymeradwyaeth i grant atodol o £89,000 tuag at gostau uwch y prosiect, fel bod cyfanswm ei gyfraniad oddeutu £750,000. Roedd y gwaith adeiladu hefyd wedi cymryd mwy o amser na'r bwriad ac wedi'i gwblhau bron chwe mis yn hwyr yn y diwedd. Dechreuwyd defnyddio'r stiwdios artistiaid a oedd wedi'u hadnewyddu o 2000 ymlaen. Cwblhawyd y prosiect cyfan, gan gynnwys yr oriel gelfyddyd newydd, ddiwedd 2001 ac fe'i hagorwyd yn ffurfiol yn Chwefror 2002. Cyfanswm costau'r prosiect cyfalaf oedd bron £1.1 miliwn. Ar ôl cwblhau'r prosiect cyfalaf, dyfarnodd Cyngor y Celfyddydau grantiau refeniw sylweddol i Artistiaid Butetown i feithrin gallu, yn 2003 (£50,000) ac yn 2004 (£37,000), i'w galluogi i gyflogi staff rhan amser ac, yn benodol, i roi'r rhan o'r corff a oedd yn gysylltiedig â'r oriel ar sail fwy cynaliadwy ar gyfer y tymor hir.

### Mae Cyngor y Celfyddydau yn asesu hyfywedd cynigion ar gyfer prosiectau'n drwyadl, gan ystyried sefyllfa ariannol a gallu trefniadol ymgeiswyr am grantiau

**2.13** Mae'r broses y mae Cyngor y Celfyddydau yn ei defnyddio i arfarnu hyfywedd cynigion ar gyfer prosiectau yn achos ceisiadau am grantiau cyfalaf mawr yn adlewyrchu'r gofynion gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a gan Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau priodoldeb a gwerth am arian. Mae Cyngor y Celfyddydau yn asesu iechyd a sefydlogrwydd ariannol yr ymgeisydd, a chadernid ei gynllun busnes a'i gynllun costau prosiect, gan gynnwys adolygiad manwl o gostau'r prosiect, cynlluniau marchnata ac amcanestyniadau refeniw ar gyfer y dyfodol. Mae Cyngor y Celfyddydau hefyd yn asesu gallu trefniadol yr ymgeiswyr i reoli eu prosiectau cyfalaf a chyflawni eu rhaglenni artistig ar ôl cwblhau'r prosiect.

**2.14** Er mwyn ategu ei arbenigedd mewnol ei hun wrth asesu hyfywedd ariannol y prosiectau, bydd Cyngor y Celfyddydau yn defnyddio gweithwyr proffesiynol allanol ar adegau allweddol wrth i gynigion ddatblygu. Mae'r holl brosiectau cyfalaf sy'n werth mwy na £100,000 yn cael eu hadolygu gan rai allanol, yn ogystal â rhai prosiectau sy'n werth llai na £100,000 os credir bod hynny'n angenrheidiol oherwydd risgiau penodol. Mae Cyngor y Celfyddydau yn penodi ac yn rheoli cronfa o arbenigwyr allanol profiadol sydd â chymwysterau proffesiynol, ar sail contractau, ac mae'r rhain yn cynnwys cynghorwyr busnes, rheolwyr canolfannau, penseiri a syrfewyr meintiau. Y prif aseswyr allanol yw ymgynghorydd busnes, ar gyfer hyfywedd ariannol, sy'n adolygu'r cynllun busnes a'r risgiau cysylltiedig, gan gynnwys niferoedd ymwelwyr neu werthiant tocynnau, a syrfëwr meintiau sy'n adolygu costau. Ar gyfer 2006-2007 cyfanswm y gost i Gyngor y Celfyddydau am asesu ariannol allanol ar brosiectau cyfalaf unigol oedd £12,900.

## Astudiaeth Achos J: Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth ac Unedau Busnes i'r Celfyddydau Creadigol

**Y Ganolfan Gelfyddydau**

Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth yw un o'r canolfannau celfyddydau mwyaf a phrysuraf yng Nghymru, a chanddi drosiant blynyddol o £3 miliwn gyda mwy na 500,000 o ymwelwyr y flwyddyn. Mae'r ganolfan gelfyddydau'n cael ei rhedeg fel adran o Brifysgol Cymru, Aberystwyth. Mae'n cael cyllid refeniw blynyddol gan Gyngor y Celfyddydau a chaiff gymorth hefyd gan Gyngor Sir Ceredigion a gan y Brifysgol ei hun. Cafwyd y prif waith cyfalaf i ailddatblygu Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth rhwng 1997 a 2000, ar ôl cyfnod o ymchwil ac ymgynghori gan reolwyr y ganolfan gelfyddydau, a ddechreuodd yn 1994, i ddatblygu'r prosiect. Roedd y prosiect yn golygu ailddatblygu ac ailgyfarparu'r adeilad, gan gynnwys sinema newydd, oriel, stiwdio perfformio a gweithdai, yn ogystal ag adnewyddu cyntedd y theatr a'r mannau blaen tŷ. Ym mis Mai 1997 dyfarnodd Cyngor y Celfyddydau grant o £2.5 miliwn tuag at y gost o £4.1 miliwn a oedd wedi'i hamcangyfrif ar y pryd ar gyfer y prosiect, ond nododd mai'r prif risg bryd hynny oedd ansicrwydd ynghylch costau'r prosiect, a bod angen eu datblygu ymhellach.

Pan gafwyd tendrau ar gyfer y prosiect, roedd y tendr isaf a gyflwynwyd yn £1.7 miliwn yn uwch na'r amcangyfrif cyn gwahodd tendrau, ac roedd hynny'n amlygu diffygion difrifol yn yr amcangyfrifon o'r costau ar y pryd. Oherwydd hynny, bu angen ailasesu dyluniad y prosiect i'w gadw o fewn terfynau'r gyllideb, a hynny'n cynnwys newidiadau yn y fanyleb a chwtogi sylweddol ar gynlluniau i gaffael cyfarpar, o £1.1 miliwn i £300,000 (gostyngiad o fwy na 70 y cant) i helpu i ariannu elfennau o'r gwaith adeiladu. O ganlyniad i hynny, roedd Pwyllgor Cyfalaf Cyngor y Celfyddydau wedi cwestiynu a oedd y prosiect diwygiedig yn dal yn hyfyw neu'n briodol o ran ei ansawdd a'i gost-effeithiolrwydd. Roedd rheolwyr y ganolfan gelfyddydau a swyddogion y Brifysgol hefyd wedi mynegi pryderon ynghylch yr effaith a gâi'r newidiadau arfaethedig ar gyfanrwydd pensaernïol y prosiect, yng ngolwg pwysigrwydd rhanbarthol a chenedlaethol y ganolfan. Ar ôl adolygu'r prosiect, ym mis Medi 1998 rhoddodd Pwyllgor Cyfalaf Cyngor y Celfyddydau ei gymeradwyaeth i grant atodol dilynol o £150,000 ar ffurf arian cyfatebol, i dalu am ailgynnwys rhai eitemau y barnwyd eu bod yn angenrheidiol i gyflawni amcanion y prosiect a sicrhau ei weithrediad yn y tymor hir. Golygai hynny fod Cyngor y Celfyddydau wedi cymeradwyo cyfanswm o £2.65 miliwn tuag at y prosiect. Eglurodd Cyngor y Celfyddydau hefyd na fyddai unrhyw gyllid pellach ar gael ar gyfer y prosiect ar ben y swm hwnnw.

Dechreuwyd ar y gwaith adeiladu ym mis Tachwedd 1998, dan gontract pris penodedig. Arhosodd y ganolfan gelfyddydau'n agored yn ystod cyfnod adeiladu'r prosiect, pryd y cafwyd anawsterau wrth adeiladu a phroblemau gyda rheolwyr y contractwr. Cyflwynodd y contractwr adeiladu nifer o hawliadau, ond llwyddodd y ganolfan gelfyddydau i gadw'r costau o fewn terfynau ei chyllideb gyffredinol o £4.3 miliwn. Cwblhawyd y gwaith adeiladu yn 2000, chwe mis yn hwyrach nag a fwriadwyd.

Mewn asesiad effaith economaidd o Ganolfan Gelfyddydau Aberystwyth a wnaed yn 2004, amcangyfrifwyd bod y ganolfan gelfyddydau adnewyddedig wedi cynnal yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gwerth bron £5 miliwn o drosiant yn yr economi leol a'i bod yn gyfrifol am fwy nag £1 filiwn o incwm gwario o enillion yn yr economi ranbarthol, gan gynnal yn uniongyrchol mwy na 100 o swyddi cyfwerth ag amser llawn.

**Unedau Busnes i'r Celfyddydau Creadigol**

Dyfarnwyd grant cyfalaf o £94,000 i Ganolfan Gelfyddydau Aberystwyth gan Gyngor y Celfyddydau ym mis Mehefin 2005 tuag at ddatblygu prosiect i ddarparu unedau mewn adeiladau newydd ar gyfer busnesau celfyddyd greadigol, i'w hintegreiddio â seilwaith presennol y ganolfan. Ym mis Mawrth 2006 rhoddodd Pwyllgor Cyfalaf Cyngor y Celfyddydau gymeradwyaeth i grant o tua £350,000 tuag at brosiect gwerth £1 filiwn i adeiladu 16 o unedau (y cytunwyd ar denantiaethau ar gyfer chwech ohonynt eisoes mewn egwyddor), a chafwyd symiau eraill gan yr hen Awdurdod Datblygu Cymru (£200,000) a gan y ganolfan gelfyddydau ei hun (£280,000). Trefnwyd yn wreiddiol i ddechrau adeiladu'r unedau yn haf 2006, ond mae'r gwaith bellach wedi'i amserlennu i'w ddechrau yn Rhagfyr 2007 a'i gwblhau erbyn Mehefin 2008.

**2.15** Bydd ymgeiswyr am grantiau'n cael copi o adroddiadau gan aseswyr allanol er gwybodaeth iddynt ac i geisio sylwadau. Mae Cyngor y Celfyddydau yn mynnu y bydd yr ymgeisydd yn derbyn cywirdeb ffeithiol yr adroddiad gan asesydd allanol ac yn gwahodd yr ymgeisydd i roi sylwadau am yr asesiad allanol cyn i'r cais gael ei ystyried yn ffurfiol gan y Pwyllgor Cyfalaf. Mae adroddiadau'r aseswyr allanol yn helpu'r ymgeisydd a Chyngor y Celfyddydau i egluro materion sy'n codi a chymryd camau ynghylch ceisiadau neu wneud newidiadau ynddynt. Rhai o'r materion a allai godi yw rhesymoldeb yr amcanestyniadau ar gyfer costau rhedeg ar ôl cwblhau'r prosiect ac ar gyfer niferoedd ymwelwyr.



## Astudiaeth Achos K: Theatr Sherman, Caerdydd

Sefydlwyd y corff a oedd yn ymgeisio am grant, Sherman Theatre Cyf, ar ei ffurf bresennol yn 1987, ac mae'n darparu canolfan cynhyrchu a chyflwyno o bwys yn ne Cymru ac yn gleient refeniw i Gyngor y Celfyddydau. Mae cwmni'r theatr yn dal adeilad y theatr ar brydles 125 mlynedd gan Gyngor y Celfyddydau, sy'n berchen ar rydd-ddaliad yr eiddo. Mae adeilad y theatr mewn cyflwr gwael ac nid oes yno ddigon o fannau rihyrsio i'r cwmnïau theatr sy'n defnyddio'r cyfleuster. Ym mis Mawrth 2004 dyfarnodd Cyngor y Celfyddydau swm o £35,000 i Theatr Sherman tuag at gost astudiaeth ddichonoldeb ar gynigion i wella'r ganolfan. Ar ôl hynny, yn Ebrill 2005, cyflwynodd Theatr Sherman gais i Gyngor y Celfyddydau am £212,000 tuag at y gost o ddatblygu'r prosiect arfaethedig ar gyfer gwella'r theatr. Ar ôl ei asesu, ystyriwyd hyn gan y Pwyllgor Cyfalaf ym Medi 2005. Y pryd hynny, yr amcangyfrif o gostau adeiladu'r prosiect arfaethedig oedd ychydig mwy nag £8 miliwn, ac roedd Cyngor y Celfyddydau wedi nodi ei fod yn bwriadu capio ei gyfraniad ar £4 miliwn, a chwmni datblygu eiddo wedi nodi y byddai'n barod i gyfrannu tua £2 filiwn tuag at adeiladu unedau preswyl fel rhan o'r gwaith ailddatblygu, gan adael £2 filiwn i'w ganfod o ffynonellau eraill. Rhoddodd y Pwyllgor Cyfalaf gymeradwyaeth i ddyfarnu'r grant dan nifer o amodau penodol, gan gynnwys gofyniad i egluro'r trefniadau arfaethedig gyda'r datblygwr eiddo ac i ddiffinio gofynion llety'r preswylwyr arfaethedig yn fwy manwl. Mae Theatr Sherman yn dal i ddatblygu ei chynigion manwl ar gyfer 'cam D' a chostau tebygol y gwaith adeiladu, ac yn cymryd camau ychwanegol i godi arian. Ochr yn ochr â'i gwaith ar ei chynigion ar gyfer ei phrosiect cyfalaf, roedd Theatr Sherman wedi'i chynnwys yn rhaglen beilot Cyngor y Celfyddydau ar gyfer cyrff cynaliadwy, a oedd yn cynnwys adolygu gweithrediad a strwythur cwmni'r theatr ac ymchwilio i'r posibilrwydd o ffurfio partneriaethau gyda chyrff eraill sy'n gysylltiedig â drama, a phreswyliaethau ar eu cyfer.

**2.16** O ganlyniad i asesiad Cyngor y Celfyddydau, gellir newid maint a chwmpas cynigion yr ymgeiswyr yn ystod cyfnod dylunio a datblygu'r prosiect. Er enghraifft, ehangwyd y cynllun gwreiddiol ar gyfer Theatr Mwldan, Aberteifi (Astudiaeth Achos G) er mwyn manteisio i'r graddau mwyaf posibl ar y cyfle i integreiddio'r gwelliannau i'r theatr a'r ddarpariaeth o fannau i gartrefu diwydiannau creadigol lleol. Ar y llaw arall, rhannwyd y cynlluniau gwreiddiol ar gyfer Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd (Astudiaeth Achos E) yn gamau ar wahân fel y byddai'r prosiect yn fwy ymarferol ei gyflawni a'i ariannu, ac mae Cam 2 y prosiect, sy'n cynnwys estyniad i'r adeilad dan orchudd pridd, i'w ddatblygu a'i ariannu eto.

**2.17** Cyflawnir yr asesiad o allu trefniadol mewn cysylltiad â cheisiadau am grantiau cyfalaf mawr gan swyddogion Cyngor y Celfyddydau, gan ddefnyddio gwybodaeth a hysbysrwydd mewnol am y cyrff sy'n ymgeisio, yn enwedig os yw'r rhain yn gleientiaid refeniw i Gyngor y Celfyddydau eisoes. Fodd bynnag, bydd swyddogion Cyngor y Celfyddydau yn defnyddio ac yn cyfeirio at adroddiadau gan aseswyr allanol i gael dealltwriaeth ychwanegol o faterion sy'n ymwneud â gallu, yn enwedig adolygiad yr ymgynghorydd busnes o gynllun busnes y corff. Os bydd pryderon yn codi ynghylch gallu trefniadol, gall Cyngor y Celfyddydau roi cymorth i rai sy'n ceisio neu'n derbyn grantiau cyfalaf ganddo mewn dau brif fodd:

- drwy ddarparu cymorth grant cyfalaf ar gyfer cefnogaeth broffesiynol i reoli prosiect os byddai hynny o fudd i gorff celfyddydol penodol ac yn creu gwell rhagolygon ar gyfer cyflawni'r prosiect;
- drwy ddarparu grantiau refeniw, o 2004-2005, i ddibenion 'cynaliadwyedd' neu 'feithrin gallu', drwy raglen beilot i helpu i wella sefydlogrwydd artistig ac ariannol cyrff celfyddydol.

**2.18** Roedd rhaglen beilot Cyngor y Celfyddydau ar gyfer cyrff celfyddydol cynaliadwy'n fodd i resymoli'r hyn a oedd cyn hynny'n set o grantiau refeniw unswydd ar gyfer meithrin



*Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd*
*Ffynhonnell: Cyngor Celfyddydau Cymru*

gallu neu hybu sefydlogrwydd ariannol, a oedd yn ychwanegol at grantiau refeniw blynyddol penodol Cyngor y Celfyddydau. Gall Cyngor y Celfyddydau ystyried yr angen am gyllid refeniw ychwanegol i wella sefydlogrwydd ariannol cyn i gorff celfyddydol gyflwyno cais ffurfiol am grant cyfalaf, fel a ddigwyddodd yn achos Canolfan Grefftau Rhuthun (Astudiaeth Achos M) ac Oriel Mostyn (Astudiaeth Achos N). Mae'r rhaglen beilot yn dal i redeg, ac roedd yr adolygiad o'r rhaglen a oedd wedi'i drefnu'n wreiddiol ar gyfer 2006-2007 wedi'i ohirio wrth ddisgwyl canlyniad yr Adolygiad o'r Celfyddydau yng Nghymru yn 2006 ac, ar ôl hynny, wrth ddisgwyl yr ad-drefnu mewnol gan Gyngor y Celfyddydau ei hun, sydd i'w gwblhau erbyn Hydref 2007. Mae'r rhaglen beilot ar gyfer celfyddydau cynaliadwy'n dangos y gydberthynas rhwng ffrydiau ariannu cyfalaf a refeniw Cyngor y Celfyddydau a'i ymdrechion i ddarparu cymorth ariannol cydgysylltiedig i'w gleientiaid. Enghreifftiau o hynny yw Theatr y Torch, Aberdaugleddau (Astudiaeth Achos H), lle darparodd Cyngor y Celfyddydau grant refeniw i dalu am swyddog codi arian proffesiynol i godi arian ychwanegol tuag at y prosiect cyfalaf, a Theatr Sherman (Astudiaeth Achos K) lle mae cwmni'r theatr wedi gweithio gydag ymgynghorwyr annibynnol i adolygu ei holl weithrediadau a'r posibilrwydd o greu partneriaethau gyda chyrff eraill sy'n gysylltiedig â drama.

**2.19** Gyda golwg ar grantiau cyfalaf ar gyfer gwasanaethau proffesiynol, cawsom o'n hymweliadau â phrosiectau fod y cyrff celfyddydol sy'n cael cymorth o'r fath yn croesawu ac yn gwerthfawrogi cymorth uniongyrchol o'r math hwn i'w helpu i sicrhau canlyniadau eu prosiectau. Er enghraifft, yn achos Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, fe'i gwnaed yn amod gan Gyngor y Celfyddydau wrth roi grant fod rheolwr prosiect proffesiynol i'w benodi i roi cymorth i Gyfarwyddwr y Ganolfan i reoli cyfnod adeiladu'r prosiect a darparodd gyllid penodol ar gyfer hyn fel rhan o'r grant cyffredinol (Astudiaeth Achos E). Roedd pump o'r 15 o brosiectau a adolygwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru (Atodiad 2) yn cynnwys grantiau cyfalaf penodol ar gyfer rheoli'r prosiect, a'r ffioedd yn amrywio rhwng £14,000 a £50,000 ac yn £36,000 ar gyfartaledd. Yn achos yr wyth prosiect arall lle mae gwaith adeiladu wedi'i gwblhau neu'n mynd rhagddo, roedd rheolaeth ar y prosiect wedi'i chynnwys mewn contractau a wnaed gyda phenseiri'r prosiect neu gwnaed contractau ar gyfer gwasanaethau proffesiynol cyfansawdd eraill.



## Astudiaeth Achos L: Ffotogallery, Port Talbot

Sefydlwyd Ffotogallery yn 1978 a hi yw'r asiantaeth ddatblygu genedlaethol ar gyfer ffotograffiaeth yng Nghymru. Mae'n gleient refeniw i Gyngor y Celfyddydau a chaiff gymorth hefyd gan Gyngor Sir Caerdydd. Mae'r corff wedi symud dros dro o'i leoliad gwreiddiol yng nghanol dinas Caerdydd i Ganolfan Gelfyddydau Chapter yng ngorllewin Caerdydd, a'r oriel wedi'i lleoli yn Turner House ym Mhenarth, wrth ddisgwyl sefydlu Canolfan Genedlaethol i Ffotograffiaeth yng Nghymru fel y bwriedir ym Mharc Margam ger Port Talbot. Dyfarnwyd swm o £28,000 i'r corff gan Gyngor y Celfyddydau ym Mai 1998 tuag at gost astudiaeth ddichonoldeb o'r bwriad i sefydlu Canolfan Ffotograffiaeth Genedlaethol, a swm o £75,000 wedyn gan Gyngor y Celfyddydau yn Rhagfyr 2000 tuag at ddatblygu'r prosiect. Yn Ebrill 2003, dyfarnodd Cyngor y Celfyddydau y swm o £2.4 miliwn i'r prosiect tuag at gyfanswm costau amcangyfrifedig y prosiect o fwy na £4 miliwn. Wedyn roedd Ffotogallery a'i phartner yn y prosiect, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, wedi profi blwyddyn o oedi wrth sicrhau cyfraniad cyfalaf gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ac anawsterau wrth sicrhau'r cyllid Ewropeaidd y disgwylid ei gael drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, nad yw ar gael eto. Mae Ffotogallery yn rhagweld y bydd angen cael mwy o gyllid refeniw gan Gyngor y Celfyddydau ar ôl cwblhau'r prosiect cyfalaf yn derfynol, ac mae Cyngor y Celfyddydau eisoes wedi ymrwymo i ddarparu hynny, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi ymrwymo hefyd i ddarparu cymorth refeniw blynyddol ar gyfer y Ganolfan Ffotograffiaeth Genedlaethol arfaethedig.

### Mae Cyngor y Celfyddydau yn asesu risgiau prosiectau, ar sail asesiadau risg a wnaed gan ymgeiswyr am grantiau

**2.20** Mae dull Cyngor y Celfyddydau o reoli ei raglen gyfalaf yn seiliedig ar brosesau sy'n adnabod, yn asesu ac yn ceisio lliniaru risgiau allweddol sy'n ymwneud â materion gweithredol neu ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiectau penodol. Wrth iddo asesu risgiau sy'n gysylltiedig ag ariannu prosiectau penodol, mae prif noddwr Cyngor y Celfyddydau, sef Llywodraeth y Cynulliad, a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn mynnu y bydd yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith, gan ddal sylw ar fath a gwerth y prosiectau, sy'n mynnu y bydd ymgeiswyr am grantiau wedi arfarnu risgiau ac ansicrwydd sy'n gysylltiedig â phrosiectau.

**2.21** O'i ran ef, mae Cyngor y Celfyddydau yn mynnu y bydd ymgeiswyr am grantiau'n dangos eu bod wedi adnabod ac asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'u prosiectau ac wedi datblygu strategaethau addas i leihau effaith y risgiau hyn. Ymhlith y risgiau hyn y mae peidio â sicrhau cyllid digonol, oedi o ran ariannu, anawsterau wrth gael caniatâd cynllunio, newidiadau ymysg staff allweddol y corff, costau rhedeg uwch yn y dyfodol ac amrywiadau mewn incwm yn y dyfodol. Mae Cyngor y Celfyddydau yn mynnu y bydd yr holl ymgeiswyr am grantiau cyfalaf mawr yn cynnig tri senario yn eu ceisiadau am gyllid grant: un lle darperir cyllid ar y lefel orau posibl, un lle mae'r cyllid yn 25 y cant yn is ac un lle mae'r cyllid yn 50 y cant yn is. Mae Cyngor y Celfyddydau yn mynnu hefyd y bydd gan ymgeiswyr gynlluniau wrth gefn ymarferol i ddelio â lefelau ariannu is.

**2.22** Mae Cyngor y Celfyddydau yn mynnu y bydd yr holl ymgeiswyr am grantiau cyfalaf mawr yn ymgymryd â rhyw fath o ddadansoddiad sensitifrwydd, i ddangos y graddau y maent yn agored i ansicrwydd yn y dyfodol mewn cysylltiad â rhagdybiaethau allweddol yn eu cynlluniau busnes, fel rhai sy'n ymwneud ag amcanestyniadau incwm a gwariant. Mae hefyd yn ofynnol cynnwys dadansoddiadau ffurfiol o risgiau refeniw a chyfalaf yn yr holl geisiadau am grantiau o fwy na £100,000 tuag at brosiectau cyfalaf mawr, ynghyd â chofrestr risgiau ar gyfer cyfnod adeiladu prosiect mawr. Mae Cyngor y Celfyddydau yn defnyddio'r wybodaeth hon i asesu'r risgiau cyffredinol sydd ynglŷn â phob prosiect. Ar sail ein hadolygiad o brosiectau

## Astudiaeth Achos M: Canolfan Grefftau Rhuthun

Agorwyd Canolfan Grefftau Rhuthun yn 1982 ac mae dan berchnogaeth a rheolaeth Cyngor Sir Ddinbych. Mae'n gleient refeniw i Gyngor y Celfyddydau ac mae hefyd yn derbyn grantiau gan Gyngor y Celfyddydau yn rheolaidd ar gyfer prosiectau celfyddydol penodol. Ym Mehefin 2003 rhoddodd Cyngor y Celfyddydau grant o £10,000 i'r ganolfan tuag at gost astudiaeth ddichonoldeb o'r bwriad i ailddatblygu'r ganolfan er mwyn hyrwyddo ei datblygiad yn y tymor hwy fel canolfan o bwys strategol i Gyngor y Celfyddydau. Ar ôl hynny yng Ngorffennaf 2004 rhoddwyd grant cyfalaf o £138,000 gan Gyngor y Celfyddydau i ddatblygu'r prosiect, a grant o £60,000 wedyn ym Mawrth 2005 a roddwyd yn uniongyrchol gan Lywodraeth y Cynulliad i hyrwyddo datblygiad y prosiect. Yn Rhagfyr 2005 rhoddodd Cyngor y Celfyddydau grant o £3.1 miliwn tuag at y prosiect gwerth £4.3 miliwn i ehangu ac adnewyddu'r adeilad i greu canolfan genedlaethol ar gyfer crefftau cyfoes a chelfyddyd gymwysedig. Ymysg y symiau eraill a gyfrannwyd y mae £675,000 ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau gynt a Croeso Cymru), £480,000 gan Gyngor Sir Ddinbych a £10,000 gan Gyngor Tref Rhuthun. Caewyd y ganolfan grefftau fel yr oedd yn Rhagfyr 2006 a dechreuodd y gwaith ailddatblygu ar y safle yn Ebrill 2007, bron chwe mis yn hwyrach nag a drefnwyd yn wreiddiol oherwydd oedi wrth sicrhau cyllid partneriaeth. Mae Canolfan Grefftau Rhuthun yn bwriadu ailagor yn haf 2008 mewn adeilad newydd a fydd yn cynnwys orielau arddangos mwy, oriel fwy ar gyfer manwerthu cynnyrch crefftwyr, man addysg, dwy stiwdio i grefftwyr preswyl, chwe gweithdy i grefftwyr a bwyty. Er mwyn cydnabod pwysigrwydd strategol Canolfan Grefftau Rhuthun, mae Cyngor y Celfyddydau yn bwriadu rhoi mwy o gyllid refeniw craidd i'r ganolfan cyn i'r prosiect cyfalaf ddod i ben, fel y gall y ganolfan benodi staff a datblygu ei rhaglen cyn ailagor.

cyfalaf mawr, cawsom fod ansawdd y dadansoddiadau sensitifrwydd gan ymgeiswyr yn amrywiol. Nid yw Cyngor y Celfyddydau yn mynnu y bydd ymgeiswyr yn cyflawni neu'n dogfennu eu dadansoddiadau sensitifrwydd mewn modd cyson. Yn ein barn ni, byddai dull Cyngor y Celfyddydau o asesu cynlluniau busnes ymgeiswyr ar gyfer prosiectau ac iddynt werth uchel a/neu risg uchel yn un gwell pe byddai'n hyrwyddo methodoleg safonol ar gyfer dadansoddi sensitifrwydd i'w dilyn gan ymgeiswyr.

**2.23** Mae swyddogion Cyngor y Celfyddydau a'i aseswyr allanol yn ymgymryd â gwerthusiad manwl o'r rhagdybiaethau sylfaenol sydd yng nghynlluniau busnes yr ymgeiswyr. Mae'r dadansoddiad hwn yn rhoi prawf hefyd ar gadernid y cynlluniau wrth gefn sydd gan yr ymgeisydd i ddelio â risgiau sy'n ymwneud â chyllid, gallu trefniadol a chyflawni'r prosiect. Os bydd yr asesiad hwn yn tynnu sylw at bryderon sylfaenol neu faterion newydd neu ddadleuol, bydd Cyngor y Celfyddydau ei hun yn gwneud dadansoddiad sensitifrwydd manwl o'r cynllun busnes, gan ddefnyddio aseswyr allanol os oes angen. Un enghraifft o achos lle'r oedd Cyngor y Celfyddydau wedi gwneud hynny oedd cynnig ar gyfer prosiect i symud Ffotogallery o Gaerdydd i Bort Talbot (Astudiaeth Achos L). Nid yw Cyngor y Celfyddydau ond yn gwneud dadansoddiadau sensitifrwydd ei hun mewn achosion eithriadol gan ei fod o'r farn nad yw'r gost a'r ymdrech o wneud hynny'n fuddiol yn y rhan fwyaf o achosion.

**2.24** Rhan o agenda strategol Llywodraeth y Cynulliad yw sicrhau y bydd theatrau a mannau perfformio sydd wedi'u gwella a'u cyfarparu drwy gyllid cyfalaf y Loteri yn cael cyllid refeniw digonol fel y gellir defnyddio'r asedau diwylliannol hyn yn llawn. Wrth asesu'r risgiau sydd ynglŷn â phrosiectau, mae swyddogion Cyngor y Celfyddydau a'i aseswyr allanol yn adolygu cynlluniau busnes yr ymgeiswyr i ganfod pa mor gadarn yw eu hamcanestyniadau ar gyfer refeniw a marchnata yn y dyfodol, gan gynnwys y goblygiadau o ran cyllid refeniw Cyngor y Celfyddydau yn y dyfodol. Yn aml ceir effeithiau ar refeniw ar ôl cwblhau prosiect cyfalaf mawr i'r cyrff celfyddydol sy'n rhedeg y cyfleusterau hyn, gan y gallai niferoedd yr



## Astudiaeth Achos N: Oriel Mostyn, Llandudno

Sefydlwyd Oriel Gelfyddyd Mostyn yn wreiddiol yn 1901 i arddangos gwaith Cymdeithas Gelfyddydau Merched Gwynedd, a hi oedd yr oriel gyntaf yn y byd i gael ei chodi'n benodol i arddangos gwaith artistiaid benywaidd. Fe'i caewyd pan gafodd yr adeilad ei hawlio i'w ddefnyddio fel neuadd ymarfer yn y Rhyfel Byd Cyntaf ac ni ailagorodd fel oriel gelfyddyd tan 1979.
Mae Cyngor y Celfyddydau yn ystyried Oriel Mostyn yn ganolfan allweddol yn y rhwydwaith rhanbarthol o orielau ledled Cymru ac mae'n un o'i gleientiaid sefydledig ar gyfer grantiau refeniw. Yn 1995 rhoddodd Cyngor y Celfyddydau grant o £4,000 i Oriel Mostyn tuag at gostau astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer datblygu'r adeilad sy'n gyfagos i'r oriel. Yn Chwefror 1999 rhoddodd Cyngor y Celfyddydau grant pellach o £9,000 tuag at gostau ail astudiaeth ddichonoldeb ynghylch y posibilrwydd o brynu'r adeilad drws nesaf, a grant o £320,000 wedyn ym mis Gorffennaf y flwyddyn honno tuag at brynu'r adeilad cyfagos a'r gwaith o ddatblygu prosiect i greu gwell mannau arddangos, gweithdy addysgol, siop a chaffi. Fodd bynnag, cafwyd oedi o dair blynedd wrth ddisgwyl prynu'r adeilad cyfagos ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, cododd pris yr adeilad. Felly ym mis Medi 2002 rhoddodd Cyngor y Celfyddydau grant cyfalaf atodol o £45,000 i Oriel Mostyn tuag at y pryniant arfaethedig. Fel y digwyddodd, ni fu angen y grant atodol hwn oherwydd methodd Oriel Mostyn â phrynu'r adeilad cyfagos, gan fod pris uwch wedi'i gynnig gan gwmni datblygu eiddo a oedd yn bwriadu troi lloriau uchaf yr adeilad yn anheddau. Wedyn dechreuodd Oriel Mostyn drafodaethau gyda'r cwmni datblygu eiddo, gan gymryd cyngor gan y Prisiwr Dosbarth, ynghylch y posibilrwydd o gymryd y llawr gwaelod ar brydles ar gyfer yr estyniad arfaethedig i'r oriel gelfyddyd a sicrhaodd brydles am 125 mlynedd yn Ebrill 2004. Yn Chwefror 2005 rhoddodd Cyngor y Celfyddydau grant cyfalaf o £140,000 i Oriel Mostyn tuag at gost gwaith dylunio manwl ar gyfer y prosiect. Ym mis Tachwedd 2005 gohiriodd Cyngor y Celfyddydau benderfyniad ynghylch dyfarnu grant i Oriel Mostyn mewn ymateb i gais am gyllid tuag at gost y prif waith adeiladu, gan ei fod o'r farn bod angen gwaith pellach mewn nifer o feysydd, yn enwedig ar werthuso costau'r prosiect, ar ddatblygu'r cynllun busnes ac ar godi arian. Ym mis Mehefin 2006 rhoddodd Cyngor y Celfyddydau grant o £2.6 miliwn tuag at y cyfanswm amcangyfrifedig o £3.0 miliwn ar gyfer costau adeiladu'r prosiect, fel ei fod wedi cyfrannu cyfanswm o £2.9 miliwn o gyllid. Cychwynnwyd ar y gwaith ar ddiwedd 2007 ac mae i fod i gael ei gwblhau yng ngwanwyn 2009, ac mae'n cynnwys adnewyddu'r cwbl o'r ffasâd terracotta ar brif adeilad yr oriel gelfyddyd, y canopi haearn bwrw a'r orielau â ffenestri uwchben, a adeiladwyd yn 1901.

ymwelwyr a'r incwm gynyddu ond felly hefyd y costau rhedeg mewn llawer achos.
Yn achos y cyrff hynny sy'n gleientiaid refeniw i Gyngor y Celfyddydau, gall hynny olygu y bydd mwy o alw ar Gyngor y Celfyddydau ei hun am gymorth grant refeniw, os bydd costau rhedeg y corff yn codi'n fwy na'i incwm.

**2.25** Ymysg y 15 o brosiectau a archwiliwyd yn fanwl gan Swyddfa Archwilio Cymru (Atodiad 2) roedd enghreifftiau o rai lle mae costau rhedeg y cyrff wedi codi, ar ôl cwblhau prosiectau cyfalaf mawr, a rhai lle disgwylir iddynt godi a rhai lle bu eu hincwm yn is na'r disgwyl, ac mae'r rhain yn dangos y modd y mae'r partïon dan sylw wedi delio â phwysau o'r fath. Yn achos Theatr Mwldan, Aberteifi (Astudiaeth Achos G), cynyddodd incwm y theatr yn fwy nag a ragwelwyd ar ôl ei hailagor ym Medi 2004, ond wedyn aeth yn is na'r lefelau a ragwelwyd. Nid oedd Cyngor y Celfyddydau wedi cynyddu ei gymorth ar ffurf cyllid refeniw i'r ganolfan o ganlyniad i hyn ond mae'n cefnogi'r theatr drwy ddarparu cyllid o'i raglen y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd, a fydd yn cael ei gyfuno â'r grant refeniw blynyddol i'r corff o Ebrill 2008.

**2.26** Yn achos Canolfan Grefftau Rhuthun (Astudiaeth Achos M), sydd hefyd yn gleient refeniw i Gyngor y Celfyddydau, ac sydd dan berchnogaeth a rheolaeth Cyngor Sir Ddinbych, disgwylir y bydd y cynllun arfaethedig gwerth £4.3 miliwn i adnewyddu ac ehangu'r ganolfan grefftau i greu canolfan o bwys cenedlaethol ar gyfer crefftau cyfoes a chelfyddyd gymwysedig, yn arwain at gostau rhedeg uwch pan fydd yn ailagor yn 2008. Gan gydnabod pwysigrwydd strategol y ganolfan i Gyngor y Celfyddydau, fel un o'r orielau mewn rhwydwaith i Gymru gyfan ac fel



*Oriel Davies*
*Ffynhonnell: Cyngor Celfyddydau Cymru*

canolfan ragoriaeth ym maes celfyddyd gymwysedig, mae Cyngor y Celfyddydau yn bwriadu cynyddu ei gyllid refeniw craidd i Ganolfan Grefftau Rhuthun cyn cwblhau'r prosiect cyfalaf, yn ogystal â chyfrannu £3.1 miliwn ar ffurf grant cyfalaf tuag at gost ailadeiladu'r ganolfan.

**2.27** Yn achos Oriel Mostyn, Llandudno (Astudiaeth Achos N), sydd wedi ennill ei blwyf ymysg y cyrff sy'n derbyn grantiau refeniw gan Gyngor y Celfyddydau, mae'r gwaith adnewyddu presennol ar yr oriel gelfyddyd a'r estyniad iddi mewn adeilad cyfagos yn arwain at y posibilrwydd y bydd mwy o alw ar Gyngor y Celfyddydau gan yr oriel am gymorth cyllid refeniw ar ôl cwblhau'r prosiect cyfalaf yn 2009, yn enwedig gan y bydd yr oriel ar gau yn ystod y gwaith adeiladu, fel y bydd effaith ar ei gallu i greu incwm. Wedi iddo asesu cynllun busnes Oriel Mostyn ar gyfer y prosiect (a luniwyd gan ymgynghorydd dan gontract â'r oriel yn 2005), mae Cyngor y Celfyddydau wedi ymrwymo i gynyddu cyllid refeniw blynyddol Oriel Mostyn ac mae'n dal i fonitro sefyllfa ariannol yr oriel.

## Mae Cyngor y Celfyddydau yn datblygu ei ddull o asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen gyfalaf a phrosiectau penodol

**2.28** Mae prif noddwr Cyngor y Celfyddydau, sef Llywodraeth y Cynulliad, a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn mynnu bod ganddo drefniadau cadarn ar gyfer rheoli risg mewn cysylltiad â'i weithrediadau ei hun. Mae system rheoli mewnol gyffredinol Cyngor y Celfyddydau yn cynnwys prosesau rheoli risg. Mae gan Gyngor y Celfyddydau Bolisi Rheoli Risg corfforaethol a rhaid i'w staff a'i aelodau sicrhau bod gweithgareddau, polisïau a gweithdrefnau Cyngor y Celfyddydau yn cael eu cynnal yn unol â'r polisi. Mae Cofrestr Risgiau Gorfforaethol Cyngor y Celfyddydau yn nodi ac yn pennu categorïau risgiau lefel uchel, yn asesu eu heffaith bosibl a'r tebygolrwydd y byddant yn digwydd, ac yn nodi camau gweithredu i'w lliniaru.

**2.29** Mae'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol yn cynnwys nifer o risgiau corfforaethol ac ariannol lefel uchel sy'n ymwneud â rheoli cyllid cyfalaf y Loteri, gan ymdrin â risgiau ariannol a rhai sy'n gysylltiedig â gallu ac adeiladu. Er hynny, nid oes ynddi unrhyw gofnodion penodol ar risgiau sy'n ymwneud â gweithrediadau'r Uned Gyfalaf ganolog o ddydd i ddydd wrth reoli'r rhaglen gyfalaf sy'n cael ei hariannu gan y Loteri. Ar yr adeg y dechreusom ein harchwiliad, nid oedd yr Uned Gyfalaf wedi ymgymryd ag asesiad risg o'i gweithgareddau ar gyfer arfarnu grantiau cyfalaf ac ariannu prosiectau, ac nid oedd ychwaith yn gwneud asesiad ffurfiol o risgiau ariannol neu weithredol i Gyngor y Celfyddydau sy'n codi o ganlyniad i'r rheoli ar ei raglen gyfalaf. Mae Cyngor y Celfyddydau yn awr yn datblygu ei ddulliau o adnabod ac asesu risgiau ar lefel y rhaglen gyfalaf, i'w cysylltu mewn modd mwy systematig â'i weithdrefnau cyffredinol ar gyfer rheoli risgiau corfforaethol.



**2.30** Yn 2006-2007, cymerodd Cyngor y Celfyddydau gamau hefyd i wella ei brosesau rheoli risg ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr drwy gyflwyno dogfennau cofrestru risgiau safonedig ar gyfer pob prosiect y mae Cyngor y Celfyddydau yn rhoi grant cyfalaf o £100,000 neu fwy ar ei gyfer, er mwyn nodi'n ffurfiol y risgiau penodol sy'n gysylltiedig â phrosiectau a chofnodi camau gweithredu i reoli risg sydd wedi'u cymryd neu sydd yn yr arfaeth. Caiff cofrestr risgiau'r prosiect ei llunio yn ystod cyfnod datblygu'r prosiect cyn cyflwyno tendrau ac fe'i defnyddir fel dogfen ddeinamig ar gyfer cyfnod adeiladu'r prosiect, hyd at ac yn cynnwys y gwerthusiad ar ôl cwblhau'r prosiect. Yn ein barn ni, dylid dechrau llunio'r gofrestr risgiau, ar ffurf amlinellol o leiaf, ar adeg cofrestru'r prosiect, er gwaethaf y ffaith nad yw'r holl brosiectau mawr sydd wedi'u cofrestru'n mynd ymlaen i dderbyn cyllid grant cyfalaf llawn ar gyfer datblygu ac adeiladu. Byddai hyn yn fodd i sicrhau bod y gofrestr risgiau'n cwmpasu cylch oes llawn pob prosiect a gynigir, pa un a fydd yn sicrhau grantiau cyfalaf neu beidio, ac yn galluogi Cyngor y Celfyddydau i adolygu a dadansoddi ffactorau risg sy'n dylanwadu o blaid ac yn erbyn llwyddiant mewn gwahanol amgylchiadau.

**2.31** Yn achos ei grantiau cyfalaf mawr, mae prosesau Cyngor y Celfyddydau ar gyfer asesu ceisiadau a monitro prosiectau (Ffigur 3) wedi'u cysylltu â throthwyon ar gyfer maint y cyllid y mae'n ei ddyfarnu i brosiectau cyfalaf mawr. Wrth wneud hyn, mae Cyngor y Celfyddydau yn cymryd perthnasedd ariannol (maint ariannol y grantiau cyfalaf y mae'n eu dyfarnu) i sefyll dros risg ariannol a gweithredol. Fodd bynnag, gan fod y grantiau cyfalaf mawr unigol yn yr wyth mlynedd rhwng 1999-2000 a 2006-2007 wedi bod rhwng £50,000 ac £8 miliwn, a gan fod cyfanswm y grantiau i bob prosiect yn £800,000 ar gyfartaledd, efallai fod lle i ddadlau y dylai Cyngor y Celfyddydau adolygu lefel ei drothwyon presennol, y gellid ystyried eu bod wedi'u gosod yn rhy isel a'u bod yn amlygu dull gweithredu rhy ochelgar. O ganlyniad i hynny, byddai llai o faich gweinyddol mewnol ar Gyngor y Celfyddydau wrth brosesu ceisiadau am grantiau a'u dyfarnu.

**2.32** Yn ogystal â hynny, gellid dadlau y dylai Cyngor y Celfyddydau ddatblygu dull o asesu ceisiadau am grantiau ac o fonitro prosiectau sy'n seiliedig yn fwy penodol ar risgiau, a heb ei ysgogi gan berthnasedd ariannol syml o gwbl. Byddai dull gweithredu o'r fath yn canolbwyntio ar adnabod risgiau allweddol sy'n berthnasol i wahanol brosiectau a chyrff celfyddydol, ac ar gamau gweithredu i reoli'r risgiau hyn, a byddai'n trin prosiectau drwy ddilyn tri neu bedwar o brif lwybrau trefniadol yn ôl sgôr gyffredinol am risg (er enghraifft, isel, canolig, uchel, uchel iawn) yn hytrach na maint ei gyfraniad drwy grant cyfalaf yn unig. Gellid seilio'r dull gweithredu hwn ar feini prawf presennol Cyngor y Celfyddydau ar gyfer asesu prosiectau neu rai diwygiedig (Ffigur 4 a Ffigur 5), gan fod y rhain eisoes yn ddigonol ar gyfer adnabod risgiau allweddol sy'n ymwneud â phrosiectau penodol. Byddai yr un mor briodol â defnyddio trothwyon ariannol syml, ond byddai'n golygu asesu ceisiadau am grantiau mewn modd a fyddai'n ymwneud i fwy o raddau â'r prosiect a'r ymgeisydd penodol.

### Astudiaeth Achos O: Canolfan Gelfyddydau Gymunedol Capel Bethel, Llanisien, Caerdydd

Rhoddodd Cyngor y Celfyddydau grant o £151,000 yn 1996 i Eglwys Ddiwygiedig Unedig Cymru i godi adeilad newydd ar gyfer canolfan gelfyddydau gymunedol ar safle Capel Bethel gynt yn Llanisien, Caerdydd. Roedd y corff a sefydlwyd i redeg y ganolfan wedi'i chael yn fwyfwy anodd cadw'r gweithgarwch celfyddydol ar y lefel a nodwyd yn y cais gwreiddiol am grant a daeth y rhaglen gelfyddydau i ben yn haf 2002. Gan nad oedd yr adeilad yn cael ei ddefnyddio bellach i'r diben y rhoddwyd grant cyfalaf ar ei gyfer, dechreuodd Cyngor y Celfyddydau drafodaethau gyda'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig i drafod ffordd ymlaen, gan gynnwys camau posibl i adennill rhan o'r cyllid gwreiddiol. Ar ddechrau 2003 cytunodd Cyngor y Celfyddydau i roi cyfle i'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig gyflawni'r prosiect fel y rhagwelwyd yn wreiddiol. Ond ar ddiwedd 2004, nid oedd bron ddim gweithgarwch celfyddydol yn y ganolfan. Y cwrs gweithredu arferol mewn achosion o'r fath fyddai i Gyngor y Celfyddydau ofyn i'r corff a oedd wedi derbyn grant werthu'r ased a oedd wedi'i ariannu gan y Loteri (yr adeilad) a defnyddio'r elw i ad-dalu rhan briodol o'r grant. Fodd bynnag, daliodd yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig nad oedd yn atebol i wneud unrhyw ad-daliad ac, ar ben hynny, roedd yr adeilad yn dal i gael ei ddefnyddio fel canolfan gymunedol lwyddiannus a man addoli. Mae Cyngor y Celfyddydau wedi cymryd camau ffurfiol i ddileu'r grant.

## Mae Cyngor y Celfyddydau yn cymryd camau digonol i reoli ac amddiffyn rhag y graddau y mae'n agored i risgiau ariannol ar brosiectau cyfalaf mawr

### Mae Cyngor y Celfyddydau yn mynnu bod ymgeiswyr yn derbyn amodau safonol a rhai sy'n ymwneud â grantiau penodol a'u bod yn cytuno ar gontractau cyfreithiol

**2.33** Y dull y mae Cyngor y Celfyddydau yn ei ddefnyddio i ddiogelu ei fuddsoddiad ar ôl cytuno ar grant yw gosod amodau ar y grant. Yn ogystal ag amodau grant cyffredinol safonol, mae Cyngor y Celfyddydau hefyd yn gosod amodau grant penodol ar gyfer ymgeiswyr, mewn llythyrau grant, i sicrhau bod materion a phryderon penodol sy'n ymwneud â phrosiectau penodol wedi'u datgan yn eglur. Ni fydd Cyngor y Celfyddydau yn rhoi taliadau grant nes bydd y corff derbyn wedi cadarnhau'n ffurfiol ei fod yn derbyn y cynnig o grant ac unrhyw amodau grant ychwanegol. Mae Cyngor y Celfyddydau yn gosod arwystlon cyfreithiol ar adeiladau ar gyfer pob un o'i brosiectau cyfalaf mawr ac mae'n cytuno ar gontractau cyfreithiol ffurfiol gyda chyrff sy'n ymgeisio ar gyfer yr holl grantiau sy'n fwy na £500,000. Bydd Cyngor y Celfyddydau hefyd yn rhoi cymeradwyaeth ffurfiol i gynlluniau prosiectau cyn eu hadeiladu i sicrhau eu bod yn gyson â'r amodau grant a chytundebau cyfreithiol.

**2.34** Mae'r rhai sy'n derbyn grantiau wedi'u rhwymo dan gontract i hysbysu Cyngor y Celfyddydau am unrhyw newidiadau yn amcanion a phwrpas y prosiect a gall Cyngor y Celfyddydau atal taliadau neu gychwyn camau i adfachu taliadau os na chedwir at amodau grant. Os bydd methiant ar ran y corff sy'n derbyn grant, mae amodau Cyngor y Celfyddydau yn nodi y bydd y cynnig o grant yn mynd yn ddi-rym yn syth fel na fydd unrhyw symiau pellach yn daladwy ac fel y bydd symiau sydd wedi'u talu eisoes yn dod yn ad-daladwy'n llawn ar unwaith. Mae methiant yn cynnwys sefyllfa lle mae'r corff sy'n derbyn grant yn peidio â gweithredu fel busnes neu'n newid pwrpas neu berchnogaeth y prosiect ar ôl ei gwblhau. Os bydd prosiectau'n methu, bydd Cyngor y Celfyddydau yn mynnu bod cyrff sydd wedi derbyn grantiau'n cadarnhau rhestrau eiddo i ddiogelu rhag colli asedau gweddillol.



## Astudiaeth Achos P: Broli Cymraeg, Sir y Fflint

Mae'r corff a dderbyniodd y grant, Broli Cymraeg Trust Cyf, yn elusen gymunedol a sefydlwyd i hyrwyddo addysg drwy'r celfyddydau perfformio. Yn 2004 adolygodd Cyngor y Celfyddydau ei ddarpariaeth o gyllid refeniw i ystod eang o gyrff gan ddod i'r casgliad, yn achos Broli Cymraeg, nad oedd y corff bellach yn cyflenwi'r gweithgarwch yr oedd yn cael cyllid refeniw ar ei gyfer. Penderfynodd Cyngor y Celfyddydau hefyd fod Broli Cymraeg wedi torri'r amodau a osodwyd wrth roi cymorth grant cyfalaf, ac mae'n cymryd camau'n awr i adennill ei daliadau grant, sy'n dod i gyfanswm o £800,000.

**2.35** Mae cyrff a gaiff gynnig o grant o fwy na £500,000 hefyd yn gorfod llofnodi contract cyfreithiol i ufuddhau i amodau grant a chytuno i beidio â newid cynlluniau prosiect heb hysbysu Cyngor y Celfyddydau yn gyntaf a sicrhau ei gytundeb. Gall Cyngor y Celfyddydau atal rhandaliadau grant neu adfachu rhan o grant neu'r cyfan ohono os torrir telerau'r contract. Mae negodi contractau cyfreithiol gyda chyrff sy'n ymgeisio'n gallu bod yn broses hir, felly os oes angen i Gyngor y Celfyddydau wneud taliadau grant cyn llofnodi'r contract cyfreithiol, mae'n diogelu ei sefyllfa drwy fynnu y bydd y corff sy'n ceisio grant yn llofnodi llythyr atodol yn cytuno i beidio â gwyro oddi wrth amodau grant ac i barhau i negodi'r contract yn ddiffuant. Mae cyllideb yr Uned Gyfalaf yn 2007-2008 ar gyfer ffioedd proffesiynol sy'n ymwneud â threfnu contractau cyfreithiol oddeutu £30,000, er y bu'r gwariant ar ffioedd cyfreithiol ers 1999 gyn uched â £70,000 mewn un flwyddyn. Roedd deg o'r pymtheg prosiect a archwiliwyd yn fanwl gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys cytundebau cyfreithiol llawn a oedd yn ymdrin â grantiau cyfalaf. Yn 2006-2007, cyfanswm y gost i Gyngor y Celfyddydau am ffioedd cyfreithiol mewn cysylltiad â phrosiectau unigol oedd £41,100.

**2.36** Yn gyffredinol, bydd Cyngor y Celfyddydau yn arfer ei hawl i adennill taliadau grant os oes methiant ar ran y corff sy'n derbyn grant, un ai yn ystod cyfnod datblygu'r prosiect, fel y bu yn achos prosiect Theatr Wrecsam (Astudiaeth Achos A), neu ar ôl cwblhau'r prosiect. Mewn cysylltiad â rhai cyrff sydd â statws elusennol (ysgolion a chapeli Methodistaidd), mae Cyngor y Celfyddydau wedi gweithredu yn ôl amgylchiadau'r achos unigol, gan roi sylw i ystyriaethau cyfreithiol ac ymarferol a rhai sy'n ymwneud â chysylltiadau â chleientiaid. Er enghraifft, nid yw Cyngor y Celfyddydau wedi ceisio cymryd camau i adennill taliadau grant mewn cysylltiad â Chanolfan Gelfyddydau Gymunedol Capel Bethel (Astudiaeth Achos O), lle'r oedd gweithgarwch celfyddydol ystyrlon wedi dod i ben yn raddol ar ôl rhoi grant cyfalaf. Ar y llaw arall, mae Cyngor y Celfyddydau yn cymryd camau i adennill taliadau grant cyfalaf sy'n dod i gyfanswm £800,000 a wnaed i Broli Cymraeg, elusen gymunedol sy'n hyrwyddo addysg drwy'r celfyddydau perfformio (Astudiaeth Achos P), lle'r oedd y gweithgarwch celfyddydol a oedd yn destun i amodau ar y grant cyfalaf hefyd wedi dod i ben.

### Mae Cyngor y Celfyddydau yn capio maint ei grantiau cyfalaf mawr ac yn mynnu cael adolygiadau o gostau os bydd pwysau oherwydd costau'n digwydd wedyn

**2.37** Wrth i brosiectau cyfalaf mawr symud ymlaen drwy eu cyfnod datblygu ac at y cyfnod adeiladu, mae perygl y gallai costau'r prosiect gynyddu oherwydd y posibilrwydd y bydd manylebau'r prosiect yn newid, am y gallai'r tendrau am gontractau adeiladu fod yn uwch na'r amcangyfrifon cyn gofyn am dendrau, neu oherwydd problemau na ellid eu rhagweld yn ystod y cyfnod adeiladu. Fel y nodwyd eisoes (paragraff 2.12), am ei fod wedi graddol gyflwyno'r gofyniad i ymgeiswyr

am grantiau o fwy na £100,000 ddatblygu eu cynlluniau gan ddilyn safonau pensaernïol ffurfiol a chael mwy o sicrwydd ynghylch costau drwy hynny, mae Cyngor y Celfyddydau, dros y pum mlynedd diwethaf, wedi peri na fu bron ddim ceisiadau atodol gan gyrff sy'n derbyn grantiau oherwydd costau uwch.

**2.38** Mae Cyngor y Celfyddydau yn rheoli risgiau o gynnydd mewn costau drwy gapio maint y grantiau cyfalaf y mae'n eu rhoi, fel ei fod yn trosglwyddo'r risgiau hyn i bartneriaid ariannu eraill a'r cyrff sy'n derbyn grantiau eu hunain. Mae Cyngor y Celfyddydau hefyd wedi mynnu, yn yr un modd â phartneriaid ariannu eraill, y ceir adolygiad o gostau neu ymarferion 'peirianneg werthoedd' i gadw costau o fewn terfynau'r gyllideb ar brosiectau penodol. Gall y rhain godi yn ystod adolygiad ffurfiol yng 'ngham D' neu 'gam E' ym mhroses RIBA, neu ar adeg tendro. Mae Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth (Astudiaeth Achos J) yn enghraifft o brosiect, cyn cyflwyno'r broses 'Cam D' a 'Cham E' yn raddol o 1999, lle gwnaed adolygiad manwl o ddyluniad a chostau'r prosiect wedi i'r tendrau am waith adeiladu ddod i law. Ar y llaw arall, mae prosiect Theatr Wrecsam (Astudiaeth Achos A) yn enghraifft lle'r oedd costau cynyddol y prosiect, problemau gyda chontractwyr a phryderon lleol ynghylch costau rhedeg yn y dyfodol i gyd wedi arwain at roi'r gorau i'r prosiect gan y corff a oedd wedi derbyn y grant (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**2.39** Rhai enghreifftiau eraill o brosiectau lle gwnaed adolygiadau i leihau neu ddilysu cynnydd yng nghostau amcangyfrifedig y prosiect yw Canolfan Gymunedol Soar Ffrwdamos, Theatr a Chanolfan Gelfyddydau Casnewydd a Galeri Caernarfon. Yn achos Canolfan Gymunedol Soar Ffrwdamos (Astudiaeth Achos F), yn Chwefror 2004, ar ôl cyflwyno'r cais 'Cam D', rhoddodd Cyngor y Celfyddydau grant o £820,000 i'r prosiect tuag at gyfanswm costau'r prosiect, a oedd wedi'u hamcangyfrif bryd hynny'n £1.9 miliwn, gan gytuno â'r ymgeisydd (Valleys Kids) y byddai'r cais 'Cam E' yn cael ei gyflwyno wedi i dendrau am y contract adeiladu ddod i law. Roedd y tendr isaf am yr £1.4 miliwn o waith adeiladu, a gafodd Valleys Kids yn Hydref 2004, oddeutu £160,000 (12 y cant) yn uwch na'r disgwyl. Bu'n rhaid wedyn i Valleys Kids geisio arbed costau er mwyn cadw'r prosiect o fewn terfynau'r gyllideb. Yn y cyfamser, oherwydd cynnydd yn y costau a ragwelwyd ar gyfer elfennau eraill y prosiect, cododd yr amcangyfrif o gyfanswm costau'r prosiect i £2.6 miliwn. Aeth Cyngor y Celfyddydau ati'n ddi-oed i gael gwasanaeth cynghorwyr proffesiynol i archwilio'r amcangyfrifon o gostau'r prosiect a gwneud sylwadau amdanynt ac am y dogfennau tendro a oedd yn gysylltiedig â'r cais. O ganlyniad i'r adolygiad costau hwn, cytunodd Valleys Kids ar restr gymeradwyedig o fesurau i arbed costau gyda'i brif bartneriaid ariannu (Cyngor y Celfyddydau, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a'r hen WDA) ac, mewn ymateb i gais a gyflwynwyd wedyn gan Valleys Kids, rhoddodd Cyngor y Celfyddydau swm o £265,000 o gyllid ychwanegol tuag at y prosiect yn Rhagfyr 2004.

**2.40** Yn achos Theatr a Chanolfan Gelfyddydau Glan yr Afon, Casnewydd (Astudiaeth Achos Q), roedd codiadau yng nghostau amcangyfrifedig y prosiect yn ystod y gwaith dylunio manwl a'r adeiladu wedi arwain at gynnal adolygiadau olynol o gostau'r prosiect ac o faint y cyllid a roddwyd gan Gyngor y Celfyddydau. Yn yr achos hwn, cytunodd Cyngor y Celfyddydau i roi dau grant cyfalaf atodol i'r prosiect (£1 filiwn ychwanegol yn 2001 a £725,000 ychwanegol yn 2002), ar ben y grant gwreiddiol o £6.5 miliwn a roddodd yn 1999. Roedd hyn yn adlewyrchu'r



## Astudiaeth Achos Q: Theatr a Chanolfan Gelfyddydau Glan yr Afon, Casnewydd

Roedd y prosiect hwn ar gyfer adeilad newydd gwerth £13.5 miliwn wedi'i ariannu'n bennaf gan Gyngor y Celfyddydau (a ddarparodd £8.2 miliwn, ar ffurf tri grant olynol) a gan yr ymgeisydd am grant, Cyngor Dinas Casnewydd (a ddarparodd £4.7 miliwn). Roedd Cyngor Dinas Casnewydd yn bwriadu i'r adeilad fod o gymorth wrth adfywio ardaloedd glan yr afon a chanol y ddinas yn y tymor hwy. Dechreuodd y broses o ddylunio'r theatr a'r ganolfan gelfyddydau ar y cyd yn 1998, a chyfrannodd Cyngor y Celfyddydau £270,000 at hynny ar ffurf cyllid datblygu prosiect. Ym mis Gorffennaf 1999, rhoddodd Cyngor y Celfyddydau grant cyfalaf mawr o £6.5 miliwn tuag at godi'r adeilad newydd. O ganlyniad i waith dylunio manwl pellach cafwyd cynnydd wedyn yn yr amcangyfrif o gyfanswm costau'r prosiect. Ar ôl adolygu'r cynigion dylunio a'r costau cysylltiedig, cytunodd Cyngor y Celfyddydau i roi grant ychwanegol o £1 filiwn tuag at y prosiect yn 2000, a hynny'n rhannol i ddiogelu ansawdd pensaernïol y gwaith adeiladu arfaethedig. Pan ddaeth y tendrau am waith adeiladu i law yn Awst 2001, cafwyd bod y costau adeiladu yn yr holl dendrau'n uwch o lawer na'r amcangyfrif cyn tendro. O ganlyniad i hynny, cafwyd trafod a negodi manwl rhwng yr ymgeisydd (Cyngor Dinas Casnewydd) a'r contractwr ac adolygiad arall o gostau. Ar ôl hynny, rhoddodd Cyngor y Celfyddydau grant cyfalaf atodol ychwanegol o £725,000 tuag at y prosiect ym mis Mawrth 2002. Dechreuwyd codi'r ganolfan, ac ynddi awditoriwm â 400 o seddau, theatr â 150 o seddau, stiwdio ddawns ac amryw o gyfleusterau cymunedol (stiwdios i artistiaid, oriel gelfyddyd, stiwdio recordio a chaffi) ar y safle yn Ebrill 2002. Yn ystod yr adeiladu, darganfuwyd olion llong ganoloesol (yn dyddio o tua 1465) ac, o ganlyniad i hynny, cafwyd gwaith cloddio am chwe mis ac oedi o bron flwyddyn cyn cwblhau'r ganolfan fel y bwriadwyd. Roedd y darganfyddiad wedi arwain hefyd at ailddylunio'r gwaith adeiladu, gan ychwanegu man arddangos ar yr islawr mewn cysylltiad â'r darganfyddiad archeolegol. Eglurodd Cyngor y Celfyddydau fod y costau annisgwyl o gloddio, symud, cadw a dehongli olion y llong y tu allan i gwmpas grantiau Cyngor y Celfyddydau, a chyfrannwyd arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y gwariant hwn. Cafodd yr adeilad ei gwblhau a'i agor yn Hydref 2004, bron flwyddyn yn ddiweddarach na'r bwriad gwreiddiol.

pwysigrwydd strategol a roddwyd yn rhaglen gyfalaf Cyngor y Celfyddydau i'r amcan o gael cyfleuster celfyddydol sylweddol yng Nghasnewydd a'i ddymuniad i gefnogi'r bwriad i gael adeilad nodedig o ansawdd da.

**2.41** Yn achos Galeri Caernarfon (Astudiaeth Achos R), pan ddaeth tendrau i law am elfen adeiladu'r prosiect yn Ebrill 2003 cafwyd eu bod yn £2 filiwn (45 y cant) yn uwch na'r amcangyfrif o'r gost cyn tendro o £4.4 miliwn. Drwy waith peirianneg werthoedd a gafwyd wedyn, canfuwyd arbedion posibl o £900,000 yn y costau adeiladu. Roedd Cyngor y Celfyddydau wedi rhagweld y byddai cais am gyllid atodol yn debygol, gan fod ei grant gwreiddiol o £2.1 miliwn wedi'i ddyfarnu'n gynharach o lawer, yn Rhagfyr 2001, a chyn cadarnhau symiau'r cyllid partneriaeth, heblaw am y cyfraniad gan yr awdurdod lleol, Cyngor Gwynedd, drwy werthu'r tir i'r corff a oedd yn ymgeisio am grant. Gan mai un o flaenoriaethau strategol Cyngor y Celfyddydau oedd codi canolfan gelfyddydau yng Nghaernarfon, rhoddodd grant cyfalaf atodol o bron £880,000 tuag at y prosiect yn Hydref 2003, fel bod cyfanswm ei gyfraniad ymron i £3 miliwn.

### Mae'r monitro gan Gyngor y Celfyddydau ar brosiectau mawr wrth eu hadeiladu'n gymesur ac yn rhagweithiol, ond mae lle i fwy o integreiddio â phartneriaid ariannu

**2.42** Mae Cyngor y Celfyddydau yn monitro prosiectau cyfalaf wrth eu hadeiladu drwy gael adroddiadau rheolaidd gan gyrff sy'n derbyn grantiau a thrwy ymweliadau bob hyn a hyn gan swyddogion Cyngor y Celfyddydau a'u cynghorwyr proffesiynol â safleoedd adeiladu. O fewn trothwyon cyffredinol, pennir lefel yr adrodd ac amlder yr ymweliadau ym mhob achos yn ôl maint ffisegol ac ariannol y prosiectau a risgiau penodol sy'n ymwneud ag adeiladu neu gwblhau'r gwaith. Amcan y monitro ar brosiectau cyfalaf mawr gan Gyngor y Celfyddydau yn ystod y cyfnod adeiladu yw darganfod risgiau a phroblemau

### Astudiaeth Achos R: Galeri Caernarfon, Canolfan Mentrau Creadigol

Y corff a dderbyniodd grantiau yw Cwmni Tref Caernarfon, a sefydlwyd yn 1992 i ddatblygu prosiectau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol er budd tref Caernarfon a'i chyffiniau. Yn 1999 cyfrannodd Cyngor y Celfyddydau bron £100,000 tuag at ddatblygu'r prosiect, ar ffurf dau grant cyfalaf olynol. Ym mis Mehefin 2001 yr ystyriodd Cyngor y Celfyddydau yn gyntaf gais am grant gan y corff ar gyfer adeiladu canolfan mentrau creadigol, ac ynddi awditoriwm, lle rihyrsio, man ar gyfer arddangosfeydd a swyddfeydd ar gyfer mentrau creadigol. Nod y prosiect oedd dod â'r celfyddydau at y gymuned a'r gymuned at y celfyddydau. Gohiriodd Cyngor y Celfyddydau ei benderfyniad ar y sail bod angen mwy o waith cynllunio busnes ac ymchwil farchnad. Yn Rhagfyr 2001 rhoddodd Cyngor y Celfyddydau grant o £2.1 miliwn tuag at y prosiect, yr amcangyfrifwyd ar y pryd y byddai'n costio oddeutu £5.7 miliwn ar gyfer dylunio, adeiladu a chaffael cyfarpar. Cafwyd cadarnhad yn raddol gan gyrff eraill dros y deunaw mis nesaf y byddent yn cyfrannu cyllid, a chynigiwyd symiau sylweddol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (cyllid Amcan 1) a gan yr awdurdod lleol o'r Gronfa Adfywio Lleol, a symiau llai gan yr hen Awdurdod Datblygu Cymru a'r hen Fwrdd Croeso Cymru. Ar ôl dilyn llwybr caffael traddodiadol yn gyntaf a datblygu cynigion dylunio manwl yn ystod 2002, penderfynodd Cwmni Tref Caernarfon ar ddechrau 2003 y byddai'n bwrw ymlaen â chontract dylunio ac adeiladu, yn rhannol er mwyn gallu cwrdd â'r dyddiad terfyn ym Mawrth 2004 ar gyfer tynnu i lawr arian a oedd wedi'i ddyfarnu i'r prosiect o'r Gronfa Adfywio Lleol. Pan ddaeth tendrau am y gwaith adeiladu i law yn Ebrill 2003, cafwyd bod y tendr isaf yn £2.1 miliwn yn uwch na'r amcangyfrif o'r costau adeiladu cyn tendro o £4.4 miliwn. Yn dilyn cyfarfod gyda swyddogion Cyngor y Celfyddydau, dechreuodd Cwmni Tref Caernarfon ar negodiadau â'i ddewis gontractwr i ganfod arbedion posibl ar y costau, heb amharu ar addasrwydd yr adeilad. O ganlyniad i'r gwaith hwn, canfuwyd arbedion o £900,000, ond dangoswyd eto fod diffyg sylweddol yn y cyllid cyffredinol ar gyfer y prosiect, a fyddai bellach yn costio £7.5 miliwn. Yn Hydref 2003 rhododd Cyngor y Celfyddydau grant cyfalaf atodol o £880,000 tuag at gostau uwch y prosiect, fel bod cyfanswm ei gyfraniad yn £2.9 miliwn. Ar yr adeg hon, y cyfraniadau gan bartneriaid ariannu mawr eraill oedd £2.2 miliwn gan Gyngor Gwynedd o'i Gronfa Adfywio Lleol ac £1.3 miliwn gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar ffurf arian Amcan 1. Dechreuodd y gwaith adeiladu ar y safle ym Medi 2003 ac fe'i cwblhawyd yn Ionawr 2005, dri mis yn hwyrach na'r dyddiad cwblhau arfaethedig yn Nhachwedd 2004. Agorwyd y cyfleuster newydd i'r cyhoedd ym Mawrth 2005, ac fe'i hagorwyd yn swyddogol ar 1 Ebrill 2005, ddeng mlynedd ar ôl cyflwyno'r cynnig yn gyntaf ar gyfer canolfan mentrau creadigol i Fwrdd Cwmni Tref Caernarfon.

cyn iddynt ddigwydd yn hytrach na gorfod delio ag anawsterau'n ddiweddarach. Mae manylion gofynion monitro Cyngor y Celfyddydau wedi'u nodi yn amodau grantiau ac mewn contractau cyfreithiol.

**2.43** Mae amodau grant Cyngor y Celfyddydau yn mynnu y bydd y cleient yn adrodd yn rheolaidd am gynnydd ffisegol, am ansawdd yn unol â'r fanyleb adeiladu, ac am gostau. Yn achos prosiectau lle rhoddwyd grantiau o lai na £100,000, unig ofyniad Cyngor y Celfyddydau yw y rhoddir adroddiad cynnydd am y prosiect, sy'n cynnwys ffigurau llawn am incwm a gwariant ar gyfer y prosiect, o fewn chwe wythnos ar ôl cwblhau'r prosiect. Yn achos prosiectau sy'n uwch na'r trothwy hwn, mae Cyngor y Celfyddydau yn mynnu cael copïau o amryw o ddogfennau gan y corff sy'n derbyn y grant yn rheolaidd yn ystod y cyfnod adeiladu, a'r rheini'n cynnwys cofnodion cyfarfodydd misol y tîm dylunio, adroddiadau cynnydd ac adroddiadau ariannol. Y cyfraniad mwyaf gan Gyngor y Celfyddydau ar ffurf grant cyfalaf at un prosiect yw'r cyfanswm o £10.3 miliwn o grantiau cyfalaf a roddodd tuag at y gost o fwy na £100 miliwn am Ganolfan Mileniwm Cymru. Yn yr achos hwn, cytunodd Cyngor y Celfyddydau a'r ddau brif bartner ariannu, sef Llywodraeth y Cynulliad a Chomisiwn y Mileniwm fel yr oedd ar y pryd (y Gronfa Loteri Fawr bellach), ar drefniadau integredig i fonitro'r prosiect gydag un set o gynghorwyr proffesiynol i helpu i fonitro'r prosiect yn fanwl yn ystod ei gyfnod adeiladu.



**2.44** Bydd swyddogion Cyngor y Celfyddydau a'u cynghorwyr proffesiynol yn ymweld yn rheolaidd â phrosiectau hefyd yn ystod y cyfnod adeiladu. Yn achos prosiectau cyfalaf mawr, mae Cyngor y Celfyddydau yn mynnu y bydd swyddogion yr Uned Gyfalaf yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ar safleoedd y prosiectau drwy gydol y cyfnod adeiladu, gyda chymorth gweithwyr proffesiynol allanol fel y bo'r angen. Bydd hyd ac amlder yr ymweliadau'n dibynnu ar natur a chymhlethdod prosiectau penodol, a'r materion sy'n codi ar unrhyw adeg. Yn achos prosiectau cyfalaf mawr lle mae Cyngor y Celfyddydau wedi rhoi grant cyfalaf o fwy na £500,000, ceir ymweliadau bob chwarter blwyddyn o leiaf i fonitro'r prosiect. Mae Cyngor y Celfyddydau yn hysbysu ei brif bartneriaid ariannu ymlaen llaw am amlder ac amseroedd ei ymweliadau cynlluniedig â chyrff sy'n derbyn grantiau.

**2.45** Yn achos prosiectau lle rhoddodd Cyngor y Celfyddydau grant cyfalaf o fwy na £500,000, mae hefyd yn mynnu y bydd cyrff sy'n derbyn grantiau'n rhoi iddo gynlluniau busnes sydd wedi'u hadolygu'n drwyadl chwe mis cyn yr adeg y trefnwyd i gwblhau'r gwaith ymarferol. Mae hyn yn rhoi amser i ganfod unrhyw anawsterau sy'n dod i'r golwg mewn cysylltiad â hyfywedd ariannol neu weithredol y cyfleusterau ac i roi sylw iddynt cyn cwblhau'r gwaith adeiladu. Fodd bynnag, nid oedd y gofyniad hwn, sydd bellach yn un safonol, wedi'i bennu pan roddodd Cyngor y Celfyddydau ei grant cyfalaf mwyaf yn 1997, sef ei brif grant o £8.3 miliwn tuag at adeiladu Canolfan Mileniwm Cymru. Oherwydd hynny, cyn cwblhau'r prosiect hwn, a oedd yn newydd, yn eithriadol o fawr a heb unrhyw hanes gweithredol cyn hynny, talodd Cyngor y Celfyddydau am wasanaeth cynghorwyr proffesiynol i adolygu cynllun busnes Canolfan Mileniwm Cymru, wrth iddo ddatblygu, yn 2003 ac yn 2004.

**2.46** Cawsom fod gan bob un o brif bartneriaid ariannu Cyngor y Celfyddydau ar brosiectau cyfalaf mawr eu gweithdrefnau a'u gofynion eu hunain ar gyfer monitro prosiectau a'u bod yn gweithredu'n annibynnol wrth ofyn am wybodaeth gan gyrff sy'n derbyn grantiau. Er bod pob un o'r prif gyrff ariannu'n mynnu cael gwybodaeth eithaf tebyg gan gyrff sy'n derbyn grantiau ganddynt, nid oeddent o reidrwydd yn gofyn am ei chael gan gyrff sy'n derbyn grantiau ar yr un adeg nac ar yr un ffurf, fel bod cryn faich gweinyddol ar y cyrff hyn. Fel y gellid disgwyl, cawsom y byddai cyrff sy'n derbyn grantiau'n falch o gael ffurflenni symlach a phrosesau mwy cydamserol ar gyfer cyflwyno ffurflenni gwybodaeth rheolaidd i'r prif gyrff ariannu i ddibenion monitro prosiectau. Yn ein barn ni, byddai manteision i hynny, i gyrff sy'n derbyn grantiau o ran lleihau gwaith gweinyddol ac i gyrff ariannu o ran cael gwybodaeth mewn adroddiadau sy'n fwy cyson a chymaradwy. Yn ogystal â hynny, mae lle i wneud mwy o ddefnydd o dempledi adrodd safonol sydd ar gael yn electronig i gyflwyno datganiadau gwybodaeth i gyrff ariannu.

**2.47** Ar sail ein harchwiliad manwl o brosiectau a'n hymweliadau â chyrff celfyddydol, sylwasom fod swyddogion Cyngor y Celfyddydau a'i gynghorwyr proffesiynol yn ymweld yn amlach â phrosiectau yn ystod cyfnodau adeiladu nag y mae partneriaid ariannu pwysig eraill, fel Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a'r hen WDA a'r hen Fwrdd Croeso Cymru. Y rheswm am hynny yw ei bod yn well gan Gyngor y Celfyddydau ymwneud yn uniongyrchol ac 'wyneb yn wyneb' wrth fonitro prosiectau a datrys problemau. Yn gyffredinol, cawsom fod swyddogion Cyngor y Celfyddydau a'u cynghorwyr proffesiynol yn effeithiol wrth adolygu costau prosiectau a chanfod problemau posibl drwy fonitro prosiectau. Sylwasom hefyd fod cyrff sy'n derbyn grantiau'n ystyried bod eu sylwadau'n rhai

buddiol gan mwyaf. Ar gyfer 2006-2007, cyfanswm y gost i Gyngor y Celfyddydau am fonitro allanol ar brosiectau unigol oedd £17,900.

## Mae'r monitro gan Gyngor y Celfyddydau ar ôl cwblhau prosiectau wedi'i addasu i amgylchiadau penodol, ond dylai ganolbwyntio'n fwy cyson ar sefyllfa ariannol gyfredol y rhai sy'n derbyn grantiau cyfalaf

2.48 Mae Cyngor y Celfyddydau wedi pennu gofyniad ffurfiol, drwy ei amodau ar grantiau cyfalaf, fod cyrff sy'n derbyn grantiau cyfalaf yn cwblhau dogfen gwerthuso prosiect safonol yn syth ar ôl cwblhau eu prosiectau cyfalaf. Mae Cyngor y Celfyddydau yn mynnu hefyd y bydd cyrff sy'n derbyn grantiau'n hunanardystio eu bod yn cydymffurfio'n barhaus ag amodau grant, ac mae'n monitro cydymffurfiad drwy raglen o ymweliadau â'r cyrff hynny ar ôl cwblhau prosiectau. Mae Uned Gyfalaf Cyngor y Celfyddydau yn dadansoddi'r wybodaeth yn yr adroddiadau gan gyrff sy'n derbyn grantiau, a hynny a gaiff o'i hymweliadau ei hun, i fonitro prosiectau ac mae'n codi materion sy'n achosi pryder. Gellir mynd â materion sy'n codi at y Pwyllgor Cyfalaf neu at y Cyngor llawn i'w hystyried ac i gymryd camau yn eu cylch.

2.49 Mae gwahaniaeth rhwng y gweithdrefnau monitro ar ôl cwblhau ar gyfer grantiau cyfalaf o fwy na £100,000 a'r rhai rhwng £2,000 a £100,000. Os bydd angen, addasir yr arferion monitro ar gyfer prosiectau lle rhoddwyd grantiau o fwy na £100,000 yn ôl union amgylchiadau prosiectau penodol a'r risgiau sy'n berthynol iddynt. Yn eithriadol, yn achos Canolfan Mileniwm Cymru, mae'r monitro ar ôl cwblhau gan Gyngor y Celfyddydau ar y cwbl o'i fuddsoddiad o £10.3 miliwn yn y prosiect ar ffurf grant cyfalaf yn cynnwys trefniant lle bydd Prif Weithredwr Cyngor y Celfyddydau yn bresennol yng nghyfarfodydd Bwrdd Canolfan Mileniwm Cymru fel sylwebydd, ar ben trefniadau safonol Cyngor y Celfyddydau ar gyfer monitro ar ôl cwblhau prosiectau.

2.50 Mae Uned Gyfalaf Cyngor y Celfyddydau yn monitro cyrff sy'n derbyn grantiau cyfalaf mawr o ran pa mor dda y maent yn cydymffurfio ag amodau grant ar ôl cwblhau'r prosiect drwy hunanardystio gan gyrff sy'n derbyn grantiau. Mae amodau grant Cyngor y Celfyddydau yn rhagnodi y ceir adroddiad archwilio ar ôl cwblhau'r prosiect gan gyrff sy'n derbyn grantiau. Mae Cyngor y Celfyddydau hefyd yn mynnu cael adroddiadau blynyddol a luniwyd gan gyrff sy'n derbyn grantiau eu hunain, ar ffurflenni safonol ar gyfer adroddiadau archwilio cyfalaf, am gyfnod sydd rhwng pump a 50 o flynyddoedd, yn ôl natur y prosiect cyfalaf sydd wedi'i ariannu; 50 mlynedd ar gyfer prosiectau i godi adeiladau newydd, 25 mlynedd ar gyfer adnewyddu adeiladau, 15 mlynedd ar gyfer celfyddyd gyhoeddus a phum mlynedd ar gyfer prynu cyfarpar. Mae'r monitro gan Gyngor y Celfyddydau ar gyrff celfyddydol yn fwy cyffredinol na'r gwaith penodol a gyflawnir gan yr Uned Gyfalaf ar ôl cwblhau prosiectau cyfalaf ac mae'n cynnwys monitro ar weithgarwch gan swyddogion datblygu'r celfyddydau a swyddogion monitro ariannol, yn ogystal ag adolygiadau blynyddol.

2.51 Mae ffurflenni archwilio cyfalaf Cyngor y Celfyddydau yn mynnu, ymysg pethau eraill, y bydd cyrff sy'n derbyn grantiau'n rhoi i Gyngor y Celfyddydau wybodaeth am lefelau cyfredol y gweithgarwch celfyddydol yn y cyfleusterau sydd wedi elwa o fuddsoddiad cyfalaf ganddo. Fodd bynnag, nid yw'r ffurflenni'n gofyn yn benodol am wybodaeth am hyfywedd ariannol cyfredol y cyrff sy'n derbyn grantiau. Yn achos y cyrff hynny a gafodd grantiau cyfalaf mawr



sydd hefyd yn gleientiaid refeniw i Gyngor y Celfyddydau, mae swyddogion monitro'r Uned Gyfalaf yn dibynnu ar wybodaeth monitro ariannol sydd wedi'i chasglu a'i chadw mewn mannau eraill yng Nghyngor y Celfyddydau i gael sicrwydd ynghylch iechyd ariannol cyfredol y cyrff hyn. Fodd bynnag, os nad yw cyrff sy'n derbyn grantiau cyfalaf yn gleientiaid refeniw iddo, mae Cyngor y Celfyddydau yn dibynnu ar y cyrff hyn i roi adroddiadau eu hunain ar ei ffurflenni archwilio cyfalaf am unrhyw faterion sy'n ymwneud ag iechyd ariannol neu allu trefniadol y dylai Cyngor y Celfyddydau gael gwybod amdanynt. Yn ein barn ni, byddai'r monitro ar brosiectau gan Gyngor y Celfyddydau ar ôl eu cwblhau'n fwy cadarn a thrwyadl pe byddai ei ffurflenni archwilio cyfalaf, yn achos prosiectau gwerth uchel a/neu risg uchel o leiaf, yn gofyn am wybodaeth ynghylch sefyllfa ariannol gyfredol y cyrff ac am ddiweddariadau o amcanestyniadau allweddol mewn cynlluniau busnes am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau prosiectau.

**2.52** Mae cymhelliad i gyrff roi adroddiadau am eu prosiectau gan mai'r gosb yn y pen draw gan Gyngor y Celfyddydau am beidio â chydymffurfio â gofynion adrodd yw ceisio adennill y grant cyfalaf, yn llawn neu'n rhannol. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r mwyafrif helaeth o gyrff (100 y cant yn 2006-07) wedi cwblhau eu hadroddiadau ar gwblhau prosiectau a'u cyflwyno o fewn y cyfnod penodedig. Gyda golwg ar ffurflenni adroddiadau archwilio cyfalaf, yn 2004-05 roedd 380 o blith 411 (92 y cant) o'r cyrff perthnasol, a 410 o blith 438 (94 y cant) o'r cyrff yn 2005-06, wedi dychwelyd y ffurflenni yr oedd Cyngor y Celfyddydau wedi'u hanfon iddynt. Fodd bynnag, ar gyfer 2006-07 gostyngodd y gyfradd cwblhau i 349 o blith 454 (77 y cant). Yn ôl Cyngor y Celfyddydau, y rheswm am hynny oedd nad oedd swyddogion yr Uned Gyfalaf yn gallu gwneud cymaint i fynd ar ôl ffurflenni a oedd i fod i gael eu dychwelyd oherwydd blaenoriaethau pwysig a oedd yn ymwneud ag adolygu mewnol ac ad-drefnu yng Nghyngor y Celfyddydau.

**2.53** Bydd swyddogion yn Uned Gyfalaf Cyngor y Celfyddydau yn ymgymryd hefyd â rhaglen o ymweliadau â phrosiectau ar ôl eu cwblhau bob blwyddyn, a honno wedi'i chynllunio i gynnwys yr holl gyrff a chanolfannau sydd wedi derbyn grantiau yn ystod cylch o flynyddoedd. Bydd cyrff yr ystyrir eu bod yn arbennig o agored i risg a rhai sy'n methu â dychwelyd ffurflenni adroddiadau archwilio cyfalaf yn cael eu targedu'n benodol ar gyfer ymweliadau dan y rhaglen hon. Ar gyfer y ddwy flynedd 2004-2005 a 2005-2006, roedd y rhaglen monitro hon ar brosiectau ar ôl eu cwblhau'n cynnwys ymweliadau â thua 60 o gyrff y flwyddyn. Cafodd y rhaglen arfaethedig ar gyfer 2006-2007 ei hatal oherwydd adolygiad mewnol yng Nghyngor y Celfyddydau o weithdrefnau monitro ar gyfer ei gleientiaid grantiau cyfalaf a'i gleientiaid grantiau refeniw, ac o ganlyniad i ad-drefnu mewnol ar ôl hynny yng Nghyngor y Celfyddydau sydd i'w gwblhau erbyn Hydref 2007.

**2.54** Yn Uned Gyfalaf Cyngor y Celfyddydau, mae amryw o gyfrifoldebau gan swyddogion monitro prosiectau cyfalaf, a'r rheini'n cwmpasu prosiectau sy'n cael eu hadeiladu yn ogystal â phrosiectau sydd wedi'u cwblhau. Ar hyn o bryd mae Cyngor y Celfyddydau yn diwygio ei drefniadau ar gyfer monitro cleientiaid, er mwyn integreiddio ei fonitro ar gyrff sy'n derbyn cyllid refeniw a'i fonitro ar brosiectau cyfalaf mewn un rhaglen, a fydd wedi'i rheoli gan un Uned Gyllid Celfyddydol. Er bod hyn i'w groesawu, gan y dylai gynnig dull mwy cydgysylltiedig i Gyngor y Celfyddydau ar gyfer adolygu ei gleientiaid yn fewnol, mae perygl na fydd profiad ac

arbenigedd swyddogion yr Uned Gyfalaf yn cael eu cadw'n ddigonol dan y trefniadau newydd. Mae angen i Gyngor y Celfyddydau sicrhau bod ei allu presennol ar gyfer delio â'r 'cleient deallus' mewn cysylltiad â phrosiectau cyfalaf yn cael ei gadw a'i ddatblygu'n briodol, o ystyried maint rhaglen gyfalaf Cyngor y Celfyddydau ar gyfer y dyfodol yn y pum mlynedd rhwng 2007-2008 a 2011-2012 (£16 miliwn i gyd, £3.2 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd) a'i fuddiannau o ran monitro prosiect cyfalaf yn awr ac yn y tymor hir.

### Dylai Cyngor y Celfyddydau werthuso buddion ac effaith prosiectau a gwblhawyd mewn modd mwy systematig

**2.55** Gwnaed rhywfaint o asesu o effaith cyllid cyfalaf ar gyfer y celfyddydau a phrosiectau sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau yng Nghymru, gan ac ar ran gwahanol gyrff. Yn Ebrill 2005, cyhoeddodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon y Cynulliad Cenedlaethol, fel yr oedd ar y pryd, ganlyniadau ei adolygiad polisi o gyfraniad y celfyddydau a chwaraeon at adfywio cymunedol, a dynnodd sylw at gyrff celfyddydol penodol, fel Valleys Kids (Astudiaeth Achos F). Mae cyrff celfyddydol unigol wedi comisiynu eu hadolygiadau eu hunain hefyd. Er enghraifft, yn 2004, rhoddodd Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth gomisiwn i Ysgol Fusnes Caerdydd i ymgymryd ag adolygiad effaith economaidd o'r ganolfan gelfyddydau, yn rhannol i ategu ei chais i Gyngor y Celfyddydau am gyllid tuag at godi unedau busnes i'r celfyddydau creadigol ger y ganolfan (Astudiaeth Achos J), ac mae'n cynnal diweddariad o'r astudiaeth honno ar ddiwedd 2007. Hefyd comisiynodd Theatr Mwldan (Astudiaeth Achos G) adolygiad annibynnol o'i phrosiect cyfalaf ar ôl ei gwblhau.

**2.56** Mae Uned Gyfalaf Cyngor y Celfyddydau hefyd wedi cynnal adolygiadau o effeithiolrwydd ei gymorth grant cyfalaf ar gyfer mathau penodol o brosiectau a mathau o gyrff celfyddydol, fel y gall dargedu ei adnoddau'n well yn gyffredinol dan ei raglen gyfalaf a thrwy hynny geisio sicrhau mwy o effaith o ganlyniad i'w fuddsoddi mewn cyfleusterau cyfalaf ledled Cymru. Yn ogystal â chanfod meysydd lle mae angen gwella gweithdrefnau a gwneud newidiadau ym mholisïau a blaenoriaethau'r rhaglen gyfalaf (cyfeirir at hyn ym mharagraff 1.42), mae'r adolygiadau hyn wedi ymdrin hefyd â'r effaith a gafodd grantiau cyfalaf ar gyrff sy'n derbyn grantiau ac ar y rhai sy'n defnyddio cyfleusterau celfyddydol. Er enghraifft, yn yr adolygiad a wnaeth yr Uned Gyfalaf yn 2005 o grantiau cyfalaf i ganolfannau aml-ddefnydd (fel canolfannau cymunedol, neuaddau pentref a neuaddau eglwys), gwelwyd mai cymharol wael fu'r gwerth am arian a gafwyd ohonynt, gan fod gweithgarwch celfyddydol yn tueddu i golli tir i weithgarwch anghelfyddydol yn y canolfannau a oedd heb eu rheoli cystal. Ar y llaw arall, yn yr adolygiad a wnaeth yr Uned Gyfalaf yn 2007 o grantiau cyfalaf i gyrff dawns, cafwyd bod cyllid y Loteri wedi cael effaith bellgyrhaeddol ac uniongyrchol ar y rheoli, y datblygu a'r cyflenwi ar weithgarwch celfyddydol yn achos y cyrff hynny, a bod cyllid cyfalaf ar gyfer cyfleusterau newydd, a rhai sydd wedi'u gwella neu eu hadnewyddu, wedi'u galluogi i ddenu cynulleidfaoedd mwy, cynyddu cyfranogiad, a sicrhau mwy o sylw i'r sector dawns yng Nghymru.



**2.57** Er bod yr adolygiadau hyn yn llawn gwybodaeth ar eu pen eu hunain, maent yn ddigyswllt ac nid ydynt yn rhan o raglen gydlynol o ymchwil a gwerthuso i Gymru gyfan. Yn ein barn ni, byddai'r monitro gan Gyngor y Celfyddydau ar ôl cwblhau prosiectau ar ei ennill pe byddai Cyngor y Celfyddydau ei hun yn cymryd camau i hyrwyddo, noddi neu gynnal rhaglen werthuso gydlynol, gan asesu, mewn modd cyson, yr effeithiau tymor hwy a'r buddion a geir o'r prosiectau cyfalaf mawr y mae'n eu hariannu. Byddai hyn yn helpu Cyngor y Celfyddydau i fireinio ei flaenoriaethau a'i benderfyniadau ar ariannu ar gyfer ei raglen gyfalaf yn y dyfodol ac yn gymorth i bennu cyfeiriad ac i dargedu ei fuddsoddiadau cyfalaf strategol mewn cyfleusterau celfyddydol o gwmpas Cymru yn y dyfodol.

# Atodiad 1 - Y prif ddulliau astudio

1 Rhaglen o gyfweliadau lled-strwythuredig â phrif randdeiliaid a phartneriaid Cyngor y Celfyddydau, yn cynnwys:

- swyddogion yn Llywodraeth y Cynulliad sy'n gyfrifol am ddatblygu polisi a strategaeth ym maes y celfyddydau ac am nawdd Cyngor y Celfyddydau;
- swyddogion yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn y DU sy'n gyfrifol am y polisi cyffredinol ar gyfer dosbarthu arian y Loteri ac am gynorthwyo Swyddog Cyfrifyddu Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn ei oruchwyliaeth ar weithgareddau'r Cyngor o ran dosbarthu arian y Loteri;
- swyddogion yn yr hen Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, yr hen Awdurdod Datblygu Cymru a'r hen Fwrdd Croeso Cymru, cyrff sy'n ariannu prosiectau cyfalaf mawr ym maes y celfyddydau ar y cyd â Chyngor y Celfyddydau.

2 Rhaglen o gyfweliadau lled-strwythuredig â swyddogion Cyngor y Celfyddydau, yn cynnwys:

- uwch swyddogion yng Nghyngor Celfyddydau Cymru sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros reoli rhaglenni grantiau cyfalaf a grantiau refeniw'r Cyngor a thros benderfynu ar geisiadau am grantiau;
- swyddogion yn Uned Gyfalaf ganolog Cyngor y Celfyddydau sy'n gyfrifol am asesu ceisiadau am grant cyfalaf, am weinyddu grantiau ac am fonitro prosiectau cyfalaf;
- cadeirydd Pwyllgor Cyfalaf Cyngor y Celfyddydau.

3 Adolygiad o ddogfennau sy'n cael eu dal gan Gyngor y Celfyddydau, yn cynnwys:

- dogfennaeth systemau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â rheoli'r rhaglen gyfalaf a'r broses o arfarnu, monitro a gwerthuso grantiau a roddwyd i brosiectau cyfalaf mawr;
- ffeiliau prosiect ar gyfer pymtheg o brosiectau cyfalaf mawr, a ddewiswyd i gynrychioli gwahanol ardaloedd Cymru a gwahanol fathau o wariant cyfalaf (Atodiad 2);
- cofnodion a phapurau'r Pwyllgor Cyfalaf ar gyfer y pum mlynedd rhwng 2002 a 2006, yn gynwysedig, sy'n ymwneud ag ystod eang o grantiau cyfalaf a roddwyd i wahanol gyrff a phrosiectau.

4 Rhaglen o ymweliadau â saith corff sydd wedi derbyn grantiau cyfalaf mawr tuag at brosiectau adeiladu (Atodiad 2), a ddewiswyd fel eu bod:

- wedi'u gwasgaru drwy Gymru ac yn cynrychioli gwahanol fathau o brosiect;
- yn cynnwys prosiectau cyfredol, rhai o'r gorffennol a rhai arfaethedig.



# Atodiad 2 - Crynodeb o 15 prosiect cyfalaf mawr a archwiliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru

1 Ymgymerodd Swyddfa Archwilio Cymru ag archwiliad manwl o 15 o brosiectau a oedd wedi derbyn grantiau cyfalaf neu wedi cael dyfarniad o grantiau cyfalaf gan Gyngor y Celfyddydau (rhwng £200,000 a £10 miliwn) ar gyfer amryw o fathau o waith sydd wedi'i gwblhau ers 1999 neu sy'n mynd rhagddo. Dewiswyd y prosiectau hyn fel eu bod wedi'u gwasgaru ar draws Cymru ac i gynrychioli gwahanol fathau o brosiect cyfalaf (ee, codi adeilad newydd, gwella adeilad a gwaith adnewyddu) a gwahanol fathau o weithgareddau celfyddydol (ee, canolfannau celfyddydau, theatrau, orielau).

2 Ymwelodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd â'r cyrff celfyddydol sy'n gyfrifol am reoli saith o'r 15 prosiect hyn, sydd wedi'u dangos mewn teip trwm yn y tabl canlynol, a chyfwelodd swyddogion rhai o'r prif bartneriaid ariannu eraill yng Nghymru (Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, yr hen WDA, a'r hen Fwrdd Croeso Cymru).

| Prosiect | Lleoliad | Cyfanswm Grant Cyngor y Celfyddydau £ miliwn | Statws ar 31 Mawrth 2007 | Y Prif Bartneriaid Ariannu | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|---|
| Canolfan Mileniwm Cymru | Caerdydd | 10.3 | Wedi'i gwblhau | ■ Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>■ Comisiwn y Mileniwm | Canolfan aml-bwrpas ar gyfer adloniant a'r celfyddydau mewn adeilad newydd, yn gartref i gyrff celfyddydol ac yn cynnwys mannau ar gyfer hamdden, adwerthu a masnach. Agorwyd Canolfan Mileniwm Cymru ym mis Tachwedd 2004, ac roedd cyfanswm y gost o'i hadeiladu'n fwy na £100 miliwn. |
| Theatr Wrecsam | Wrecsam | 4.6 | Wedi'i ganslo | ■ Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Prosiect i godi adeilad newydd ar gyfer theatr a chanolfan i'r celfyddydau perfformio, a'r amcangyfrif o gyfanswm costau'r prosiect yn £6.3 miliwn. Rhoddwyd y gorau iddo gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn Rhagfyr 2003 (Astudiaeth Achos A). |
| **Theatr y Torch** | Aberdau-gleddau | 4.5 | Yn cael ei adeiladu | ■ Bwrdd Croeso Cymru<br>■ Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>■ Croeso Cymru<br>■ Cyngor Sir Benfro | Prosiect i uwchraddio ac ehangu adeilad y theatr a phrynu cyfarpar newydd, a'r amcangyfrif o gyfanswm y costau adeiladu'n £5.4 miliwn (Astudiaeth Achos H). |

| Prosiect | Lleoliad | Cyfanswm Grant Cyngor y Celfyddydau £ miliwn | Statws ar 31 Mawrth 2007 | Y Prif Bartneriaid Ariannu | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|---|
| Canolfan Grefftau Rhuthun | Rhuthun | 3.1 | Yn cael ei adeiladu | ■ Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>■ Croeso Cymru<br>■ Cyngor Sir Ddinbych | Adnewyddu ac ehangu canolfan o bwysigrwydd cenedlaethol i grefftau cyfoes a chelfyddyd gymwysedig, a'r amcangyfrif o'r costau adeiladu'n £4.3 miliwn. Mae i fod i'w gwblhau yn haf 2008 (Astudiaeth Achos M). |
| Oriel Mostyn | Llandudno | 2.9 | Yn cael ei ddatblygu | ■ Oriel Mostyn | Gwaith i adnewyddu ac ehangu'r oriel gelfyddyd, sydd i fod i gael ei gwblhau yng ngwanwyn 2009 a'r amcangyfrif o gyfanswm y costau adeiladu'n £3 miliwn (Astudiaeth Achos N). |
| Galeri Caernarfon | Caernarfon | 2.9 | Wedi'i gwblhau | ■ Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru<br>■ WDA<br>■ Cyngor Gwynedd<br>■ Bwrdd Croeso Cymru | Canolfan mentrau creadigol mewn adeilad newydd a godwyd ar gost o £7.5 miliwn a'i hagor ym Mawrth 2005 (Astudiaeth Achos R). |
| **Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth** | Aberystwyth | 2.7 | Wedi'i gwblhau | ■ Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth | Gwaith ailddatblygu sylweddol ar y ganolfan gelfyddydau fwyaf yng Nghymru a gwblhawyd yn 2000 a chyfanswm y costau adeiladu'n £4.3 miliwn (Astudiaeth Achos J). |
| **Ffotogallery** | Port Talbot | 2.4 | Yn cael ei ddatblygu | ■ Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru<br>■ Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | Adleoli'r oriel ffotograffiaeth hon o Gaerdydd i Bort Talbot, i greu Canolfan Ffotograffiaeth Genedlaethol yng Nghymru fel rhan o'r gwaith o ailddatblygu Castell a Pharc Gwledig Margam (Astudiaeth Achos L). |
| **Theatr Mwldan** | Aberteifi | 2.3 | Wedi'i gwblhau | ■ Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru<br>■ WDA<br>■ Cyngor Sir Ceredigion | Ehangu ac adnewyddu adeilad presennol y theatr a chreu canolfan gyfryngau newydd i gartrefu busnesau creadigol. Agorwyd y theatr a'r ganolfan gyfryngau'n raddol ar gyfer gweithgareddau rhwng Ionawr a Mehefin 2004, a chyfanswm y costau adeiladu oedd £6.9 miliwn (Astudiaeth Achos G). |



| Prosiect | Lleoliad | Cyfanswm Grant Cyngor y Celfyddydau £ miliwn | Statws ar 31 Mawrth 2007 | Y Prif Bartneriaid Ariannu | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|---|
| Oriel Davies | Y Drenewydd | 1.4 | Wedi'i gwblhau | ■ Elusen Gwendoline a Margaret Davies<br>■ Cyngor Sir Powys<br>■ Bwrdd Croeso Cymru | Gwaith mewn dau gam i ailddatblygu ac adnewyddu'r oriel, ar gost o gyfanswm o £1.7 miliwn. Cwblhawyd y cam cyntaf yn Rhagfyr 2002 a'r ail ym Medi 2004. |
| **Canolfan Gymunedol Soar Ffrwdamos** | Pen-y-graig | 1.1 | Wedi'i gwblhau | ■ Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru<br>■ WDA<br>■ Bwrdd Croeso Cymru<br>■ Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | Gwaith i adnewyddu ac uwchraddio'r ganolfan gymunedol (hen gapel) a gwblhawyd yn Ebrill 2006, a chyfanswm y costau adeiladu'n £2.3 miliwn (Astudiaeth Achos F). |
| **Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd** | Cricieth | 1.0 | Wedi'i gwblhau | ■ Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru<br>■ Cyngor Gwynedd<br>■ WDA<br>■ Cronfa Dreftadaeth y Loteri | Gwaith i adnewyddu ac uwchraddio adeiladau'r ganolfan, a gwblhawyd ym Mawrth 2006, a chyfanswm costau'r prosiect yn £2.4 miliwn (Astudiaeth Achos E). |
| Stiwdios Artistiaid Butetown ac Oriel Bayart | Caerdydd | 0.8 | Wedi'i gwblhau | ■ Cyngor Dinas Caerdydd<br>■ CADW<br>■ Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd | Gwaith i adnewyddu'r adeilad i ddarparu gwell stiwdios i artistiaid ac oriel gelfyddyd newydd a gwblhawyd yn Rhagfyr 2001 a chyfanswm y costau adeiladu'n £1.1 miliwn (Astudiaeth Achos I). |
| **Theatr Powys** | Llandrindod | 0.7 | Wedi'i gwblhau | ■ Cyngor Sir Powys | Gwaith i ailgodi'r theatr (a oedd wedi'i dinistrio'n llwyr gan dân yn 2000), a gwblhawyd yn Nhachwedd 2006, a chost y gwaith adeiladu'n £1 filiwn. |
| Canolfan Hyfforddi Glyn-nedd | Glyn-nedd | 0.2 | Wedi'i gwblhau | ■ Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | Estyniad i adeilad presennol y ganolfan hyfforddi gymunedol i ddarparu canolfan gelfyddydau bwrpasol (Canolfan Gelfyddydau Fane) a agorwyd yn Hydref 1999, a chyfanswm y costau'n £350,000. |

# Atodiad 3 - Y camau a gymerodd Cyngor y Celfyddydau mewn cysylltiad ag argymhellion y Pwyllgor Archwilio ynghylch gweithdrefnau i reoli prosiectau cyfalaf a ariannwyd gan y Loteri ar ôl methiant prosiect Canolfan Celfyddydau Gweledol Caerdydd

1 Ym mis Tachwedd 2001, rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad am y rhan a gymerodd Cyngor y Celfyddydau mewn cysylltiad â Chanolfan Celfyddydau Gweledol Caerdydd wedi iddi fethu (caeodd y ganolfan gelfyddydau yn Nhachwedd 2000 a hithau heb fod ar waith ond ers 14 mis). O ganlyniad i hynny, cymerodd Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol dystiolaeth gan swyddogion a chyn-swyddogion Cyngor y Celfyddydau rhwng Tachwedd 2001 a Mai 2002, cyn gwneud un ar ddeg o argymhellion cynhwysfawr ar weithdrefnau Cyngor y Celfyddydau a oedd yn gysylltiedig â phrosiectau cyfalaf wedi'u hariannu gan y Loteri yn ei adroddiad ei hun ym mis Mehefin 2002. Roedd yr argymhellion hyn yn ymwneud â thri maes cyffredinol – arfarnu, monitro a gwerthuso prosiectau.

2 Ymatebodd Llywodraeth y Cynulliad yn ffurfiol yn Rhagfyr 2002 i adroddiad Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol. Croesawodd Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor y Celfyddydau argymhellion y Pwyllgor Archwilio a derbyn pob un ohonynt. Yn yr ymateb, dywedwyd bod y Cabinet yn ffyddiog bod gweithdrefnau Cyngor y Celfyddydau bellach yn fwy trwyadl ac ymatebol i unrhyw anawsterau a allai godi, gyda'r pwyslais cyffredinol ar atal anawsterau ond gyda gweithdrefnau i ddelio ag anawsterau pe byddent yn digwydd.

3 Roedd Cyngor y Celfyddydau wedi cyflwyno gweithdrefnau asesu a monitro diwygiedig ar gyfer prosiectau sydd wedi'u hariannu gan y Loteri yn 1999, yn rhannol o ganlyniad i'w brofiad gyda'r Ganolfan Celfyddydau Gweledol. Datblygwyd y gweithdrefnau hyn ymhellach gan Gyngor y Celfyddydau mewn ymateb i adolygiad mewnol yn dilyn methiant prosiect y Ganolfan Celfyddydau Gweledol ac, wedi hynny, yn dilyn craffu gan archwilwyr allanol. Amcan y gweithdrefnau diwygiedig hyn oedd atal problemau tebyg i'r rhai a brofwyd gyda'r Ganolfan Celfyddydau Gweledol rhag digwydd gyda phrosiectau a oedd wedi'u hariannu gan y Loteri yn y dyfodol, gan gydnabod, er nad oedd modd dileu risgiau'n gyfan gwbl, y gellid eu rheoli'n effeithiol.

4 Dywedodd y Pwyllgor Archwilio y byddai'n dymuno cael ei fodloni bod gweithdrefnau diwygiedig Cyngor y Celfyddydau yn gweithio, er gwaethaf y sicrwydd a gafwyd gan Lywodraeth y Cynulliad a Chyngor y Celfyddydau. Gofynnodd y Pwyllgor Archwilio i Archwilydd Cyffredinol Cymru roi prawf ar ddigonoldeb ac effeithiolrwydd gweithdrefnau diwygiedig Cyngor y Celfyddydau. Addawodd yr Archwilydd Cyffredinol y byddai'n monitro'r modd yr oedd Cyngor y Celfyddydau yn gweithredu ar argymhellion y Pwyllgor ac yn ymgymryd ag archwiliad dilynol o Gyngor y Celfyddydau i asesu'r graddau yr oedd y gwersi a oedd wedi codi o brosiect y Ganolfan Celfyddydau Gweledol wedi'u dysgu[14].

14 Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd Personol Archwilydd Cyffredinol Cymru at Glerc y Pwyllgor Archwilio, 11 Rhagfyr 2002; Blaenraglen Archwilydd Cenedlaethol Cymru 2004-2005, Hydref 2003; Memorandwm Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Pwyllgor Archwilio, Chwefror 2004.



| Argymhelliad y Pwyllgor Archwilio | Camau Gweithredu Cyngor y Celfyddydau | Paragraff |
|---|---|---|
| i) Fel rhan o'r adolygiad annibynnol o'i weithdrefnau y mae wedi'i gomisiynu, y dylai Cyngor y Celfyddydau archwilio digonolrwydd ei asesu o risg mewn prosiectau Loteri. Yn benodol, dylai craffu trwyadl ar y risgiau allweddol sy'n ymwneud â hyfywedd ariannol prosiectau, gan gynnwys y niferoedd ymwelwyr a ragwelir ar gyfer atyniadau celfyddydol newydd, fod yn rhan annatod o'r asesu ar yr holl geisiadau am arian o'r Loteri. | ■ Ers 1999:<br>- mae'n ofynnol i ymgeiswyr am grantiau cyfalaf o fwy na £100,000 gyflwyno asesiadau risg ffurfiol ar gyfer agweddau ar brosiectau sy'n ymwneud â chyfalaf a refeniw;<br>- mae aseswyr allanol wedi'u penodi i werthuso'r holl brosiectau Loteri mawr sy'n werth mwy na £100,000, a rhai prosiectau sy'n werth llai na £100,000 os barnwyd bod hynny'n angenrheidiol ar ôl asesu risgiau'r prosiect;<br>- asesir hyfywedd ariannol fel rhan o archwiliad o gynllun busnes yr ymgeisydd.<br>■ Oddi ar 2002, ymgymerodd â monitro manylach a mwy cynhwysfawr ar gyfer prosiectau cyfalaf o fwy na £100,000.<br>■ Oddi ar 2006, cyflwynodd gofrestrau risgiau safonedig ar gyfer prosiectau o fwy na £100,000.<br>■ Oddi ar 2007, mae'n integreiddio ei brosesau asesu risg mewnol ar lefel y rhaglen gyfalaf a lefel y gorfforaeth gyfan mewn modd mwy systematig. | 2.22<br>2.14, 2.23<br>2.14, 2.24<br>2.43, 2.49, 2.50<br>2.30<br>2.29 |
| ii) Y dylai Cyngor y Celfyddydau sicrhau bod cynlluniau wrth gefn digonol ar gael rhag ofn y bydd risgiau i hyfywedd ariannol y prosiect yn cael eu gwireddu. | ■ Ers 1999, bu'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno gwahanol senarios yn eu hamcanestyniadau busnes wrth gynllunio prosiectau penodol (lle darperir cyllid ar y lefel orau posibl, lle gallai fod yn 25 y cant yn llai a lle gallai fod yn 50 y cant yn llai) a bod â chynlluniau wrth gefn sy'n seiliedig ar y senarios hyn. | 2.21 |
| iii) Y dylai ddogfennu'n briodol ei ystyriaeth i faterion mor sylfaenol â'r berthynas rhwng taliadau mynediad a niferoedd ymwelwyr mewn prosiectau y mae'n bwriadu rhoi grantiau o arian Loteri iddynt. | ■ Ers 1999:<br>- yn achos prosiectau o fwy na £100,000, mae asesydd allanol yn gwerthuso cynllun busnes y prosiectau, eu rhaglenni artistig a'u rhagolwg o niferoedd ymwelwyr;<br>- yn achos grantiau o fwy na £500,000, cyflwynir cynlluniau busnes wedi'u hadolygu chwe mis cyn cwblhau gwaith ymarferol y prosiect, fel y gellir ystyried anawsterau a dod o hyd i atebion;<br>- ceir gohirio penderfyniadau ynghylch prosiectau cyfalaf sydd i'w hariannu gan y Loteri, fel y gall ymgeiswyr ddelio â materion sydd wedi'u codi cyn rhoi'r grant;<br>- mae adroddiadau gan aseswyr allanol yn cael eu rhannu gyda'r ymgeiswyr, i gael adborth ganddynt ac i hwyluso trafodaeth ystyrlon ynghylch y camau y mae angen eu cymryd. | 2.14, 2.24<br>2.45<br>2.12<br>2.15 |
| iv) Y dylai asesu ei bolisïau cyffredinol ar gadw cofnodion i sicrhau bod cofnodion digonol wedi'u cadw o benderfyniadau allweddol y Cyngor a'i drafodaethau ar brosiectau Loteri. | ■ Ers 1999, mae'r dogfennau ar ffeiliau prosiect wedi'u gwella a chaiff ffeiliau prosiect eu monitro a'u hadolygu i sicrhau y cymerir camau dilynol yn amserol. | 1.39, 1.40, 2.10 |

| Argymhelliad y Pwyllgor Archwilio | Camau Gweithredu Cyngor y Celfyddydau | Paragraff |
|---|---|---|
| v) Y dylai fonitro'n ofalus unrhyw newidiadau yn natur yr atyniadau sydd i'w cynnig gan brosiectau y mae'n rhoi grantiau Loteri iddynt, i sicrhau archwilio priodol o'r canlyniadau posibl o ran refeniw i newidiadau sydd wedi'u cyflwyno ar ôl cymeradwyo grantiau Loteri. | ■ Ers 1999:<br>- mae'n ofynnol i'r ymgeisydd hysbysu Cyngor y Celfyddydau o unrhyw newidiadau arfaethedig ym mhwrpas y prosiect, i'w cymeradwyo gan y Cyngor cyn eu gweithredu;<br>- gall Cyngor y Celfyddydau wrthod gwneud taliadau neu gychwyn gweithdrefnau adfachu os na chedwir at amodau grant;<br>- mae Cyngor y Celfyddydau yn ymweld â safleoedd yn rheolaidd i fonitro prosiectau yn ystod y cyfnod adeiladu. | 2.34<br>2.34<br>2.43 |
| vi) Y dylai nid yn unig dynnu gwendidau a nodwyd gan ei asesydd annibynnol i sylw'r ymgeisydd ond, fel rhan o'i waith monitro ar y prosiect, y dylai gymryd camau cynnar a phendant i sicrhau bod yr ymgeisydd wedi rhoi sylw i'r pryderon hyn. | ■ Ers 1999:<br>- mae'r ymgeisydd am grant yn cael copi o adroddiad yr asesydd, i gytuno ar ei gywirdeb ffeithiol ac egluro unrhyw bryderon eraill a godwyd, cyn i'r Pwyllgor Cyfalaf ystyried y cais yn ffurfiol;<br>- caiff yr ymgeisydd wneud newidiadau yn y prosiect a gytunwyd o ganlyniad i adroddiad yr asesydd, i ddileu unrhyw broblemau neu wendidau. | 2.15<br>2.16 |
| vii) Y dylai adolygu ei drefniadau craffu i sicrhau bod yr angen am eitemau fel cyfarpar TG wedi'i gydnabod yn llawn a'i gostio'n briodol ar adeg y cais am grant Loteri. | ■ Ers 1999, bu'n ofynnol i rai sy'n gwneud cais ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr gyflwyno cynllun costau, a gaiff ei adolygu gan Syrfëwr Meintiau a gan asesydd artistig i gadarnhau bod y fanyleb a'r prisiadau'n briodol ar gyfer pob prosiect.<br>■ Ers 2002, bu'n ofynnol i'r rhai sy'n ymgeisio am grantiau cyfalaf o £100,000 neu fwy barhau i ddatblygu eu prosiectau at Gam E ym mhroses RIBA cyn rhyddhau arian, i gael amcangyfrifon cywirach o gostau'r prosiect. | |
| viii) Y dylai sicrhau yn achos unrhyw brosiect o'r maint hwn fod y cynllun busnes yn cynnwys proses asesu risg lawn sy'n cynnwys cynlluniau wrth gefn ymarferol sydd wedi'u datblygu'n llawn. | ■ Ers 1999:<br>- bu'n ofynnol i'r rhai sy'n ymgeisio am grantiau cyfalaf o fwy na £100,000 ddarparu cofrestr risgiau ar gyfer elfen adeiladu eu prosiect;<br>- mae cynlluniau wrth gefn yr ymgeiswyr yn cael eu hasesu'n allanol, ynghyd â'r cynllun busnes. | 2.22<br>2.21, 2.23 |
| ix) Y dylai siarsio rhai sy'n llwyddo yn eu cais am arian Loteri, ar ddechrau pob prosiect, na ddylent newid eu cynlluniau gwreiddiol heb i'r Cyngor gael gwybod yn llawn am hynny ymlaen llaw. | ■ Ers 1999:<br>- mae'r amodau safonol ar gyfer grantiau o fwy na £100,000 yn mynnu bod ymgeiswyr yn hysbysu Cyngor y Celfyddydau am unrhyw newidiadau arfaethedig yn eu cynlluniau gwreiddiol;<br>- mae contractau cyfreithiol gyda rhai sydd wedi llwyddo yn eu cais am grant cyfalaf o fwy na £500,000 yn mynnu na fydd ymgeiswyr yn newid cynlluniau prosiect heb gytundeb Cyngor y Celfyddydau;<br>- gallai methiant ar ran yr ymgeisydd i ddilyn telerau'r contract arwain at gamau gan Gyngor y Celfyddydau i wrthod rhoi'r cyllid a ddarparodd neu ei adfachu. | 2.34<br>2.35<br>2.34, 2.36 |



| Argymhelliad y Pwyllgor Archwilio | Camau Gweithredu Cyngor y Celfyddydau | Paragraff |
| --- | --- | --- |
| x) Y dylai ragnodi'n glir, ar ddechrau pob prosiect, yr wybodaeth sydd i'w darparu gan yr ymgeisydd am arian Loteri a pha mor aml y dylid ei darparu. Dylid nodi'r gofynion hyn mewn cytundeb cyfreithiol rwymol rhwng Cyngor y Celfyddydau a'r ymgeisydd. Os bydd ymgeisydd yn methu â chwrdd â'r gofyniad hwn, dylid gwrthod rhoi cyllid. | ■ Ers 1999:<br>- eglurwyd mewn telerau ac amodau grant safonol a chontractau cyfreithiol y gellir gwrthod rhoi cyllid neu ei adfachu;<br>- bu'n ofynnol i ymgeiswyr roi i Gyngor y Celfyddydau gofnodion cyfarfodydd misol y tîm dylunio, a gaiff eu hadolygu gan y gweithiwr allanol sy'n monitro'r prosiect. | 2.34, 2.35<br>2.43 |
| xi) Y dylai adolygu ei weithdrefnau i sicrhau y cymerir camau'n ddi-oed i ddiogelu ei fuddiant mewn unrhyw asedau gweddillol pan fydd prosiect sydd wedi derbyn arian Loteri yn methu. | ■ Ers 1999, mae Cyngor y Celfyddydau wedi gosod arwystlon cyfreithiol ar yr holl adeiladau yn yr holl brosiectau cyfalaf mawr ac wedi mynnu y cedwir rhestrau o asedau.<br>■ Ers 2002:<br>- mae cytundebau rhwng Cyngor y Celfyddydau a'i gleientiaid yn rhagnodi'n gliriach y caiff Gyngor y Celfyddydau fynnu cael ad-daliad neu y caiff adfachu'r grant cyfalaf cyfan neu ran ohono;<br>- os bydd prosiect yn methu, mae'r amodau grant yn mynnu y bydd rhestrau asedau'n cael eu gwirio ar unwaith i ddiogelu rhag colli asedau gweddillol. | 2.33<br>2.34, 2.35<br>2.34 |